Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

# Adroddiad Hunanasesu a Llesiant Blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 2023/24

**Hydref 2024**




*Blaenau Gwent – lle sy'n deg ac agored ac yn groesawgar i bawb drwy weithio gyda'n cymunedau ac ar eu cyfer.*

## Cynnwys


Rhagair 3

Cyflwyniad 4

Gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen 5

Ein dealltwriaeth am Flaenau Gwent 6

Cynllun Corfforaethol 2022/27 13

Hunanasesiad Blynyddol Blaenau Gwent 2023/24 18

**Amcan Llesiant 1 -** 22
*Cynyddu dysgu a sgiliau i bawb er mwyn creu Blaenau Gwent lewyrchus, ffyniannus a chadarn*

**Amcan Llesiant 2 -** 37
*Ymateb i'r argyfwng natur a hinsawdd a galluogi cymunedau cysylltiedig*

**Amcan Llesiant 3 -** 46
*Grymuso a chefnogi cymunedau i fod yn ddiogel, annibynnol a gwydn*

**Amcan Llesiant 4 -** 56
*Cyngor uchelgeisiol ac arloesol sy'n darparu gwasanaethau o safon ar yr amser iawn ac yn y lle iawn*

Hunanasesiad – Cynnydd a Wnaed yn Erbyn Camau Gweithredu 2022/23 77

Adborth 86




# Rhagair

Nid oes unman yn debyg i Flaenau Gwent. Ym mhen uchaf cymoedd Gwent, mae Blaenau Gwent yn cynnig amgylchedd unigryw i fyw, gweithio a chwarae ynddo. Mae Blaenau Gwent yn lle o dreftadaeth a newid dramatig, gydag ymdeimlad o'i orffennol ond gyda'i lygaid yn gadarn ar y dyfodol.

Mae gweledigaeth y Cymoedd Technoleg, Parc Rhanbarthol y Cymoedd a Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ynghyd â chysylltiadau trafnidiaeth newydd drwy Ffordd Blaenau'r Cymoedd a gaiff ei chwblhau yn y dyfodol agos a llwybrau rheilffordd i Gaerdydd, yn rhoi argoel o ddyfodol disglair. Ynghyd â'r lleoliad anhygoel a'r parcdir o'i amgylch, mae ein pobl a'n cymunedau yn gwneud Blaenau Gwent yn wych. Bu gan ein pobl ddylanwad ar y llwyfan lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn y celfyddydau, chwaraeon a gwleidyddiaeth ers cenedlaethau lawer – gan roi Blaenau Gwent ar y map am yr holl resymau cywir.

Rôl Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a'i bartneriaid yw gwneud y gorau o'r asedau sydd gennym, gan wneud mwy â llai a gwneud hynny'n well. Mae'n iawn ein bod yn cydnabod yr heriau a wynebwn. Mae dirywiad hanesyddol diwydiant trwm yn parhau i effeithio ar ragolygon cyflogaeth a chyfleoedd i bontio'r cenedlaethau. Rydym yn wynebu problemau gydag anghydraddoldeb iechyd a chyfoeth, y cynnydd mewn siopa ar-lein ac effaith hynny ar ganol ein trefi, a materion cymdeithasol sy'n effeithio ar ein teuluoedd a'n pobl ifanc. Fel Cyngor, rydym yn wynebu galw cynyddol am rai o'n gwasanaethau, sy'n rhoi mwy o bwysau ar y cyllidebau sydd ar gael i ni. Ond rydym yn mynd i'r afael â'r materion hyn yn uniongyrchol gyda'n partneriaid, busnesau a'r gymuned leol. Rydym yn ystyried sut yr ydym yn gwario ein harian i gyflawni'r canlyniadau gorau i'n trigolion, rydym yn cefnogi busnesau newydd a phresennol, rydym yn ystyried ein hasedau i gyflawni ffrydiau incwm newydd, ac rydym yn dileu rhwystrau i alluogi trigolion i gael mynediad at yr hyn y mae ei angen arnynt. Rhwng popeth, rydym yn edrych ymlaen at ddyfodol cadarnhaol.

Ledled Gwent, bydd pob cyngor, gan gynnwys Blaenau Gwent, yn gweithio tuag at ddod yn rhanbarth sy'n ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a'i leihau, yn seiliedig ar egwyddorion Marmot. Byddwn yn gweithio ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus yn ein hardal i sicrhau bod ein polisïau, ein dulliau a'n hadnoddau'n anelu at greu cymdeithas decach a mwy cyfartal ar gyfer trigolion heddiw a chenedlaethau'r dyfodol. Bydd hyn yn ganolog i sut yr ydym yn datblygu ac yn darparu ein gwasanaethau ar draws y blynyddoedd cynnar, addysg a sgiliau, trafnidiaeth, tai, lleoedd a mannau, a swyddi a busnesau. Fel cyngor gwrthdlodi, byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i godi disgwyliadau a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb gan ddefnyddio dull cymesuredd cyffredinol, lle rhoddir cymorth cyffredinol ond lle mae adnoddau'n cael eu canolbwyntio ar ble y mae eu hangen fwyaf. Trwy werthfawrogi a hybu iechyd da, addysg a dysgu, gallwn helpu pobl i wireddu eu llawn botensial. Bydd hyn yn ei dro yn cyfrannu at greu cymunedau mwy gwybodus a chysylltiedig ledled Blaenau Gwent sy'n deg, yn agored ac yn groesawgar i bawb; lle caiff pawb gyfle i chwarae rhan weithredol.



**Y Cynghorydd Stephen Thomas**

**Arweinydd y Cyngor**

**Stephen Vickers**

**Y Cyd-Brif Weithredwr**





# Cyflwyniad

Croeso i'n Hadroddiad Hunanasesu a Llesiant Blynyddol ar gyfer 2023–2024. Mae'r adroddiad yn darparu asesiad o ddarparu gwasanaethau drwy gydol 2023/24, gan gynnwys yr hyn yr ydym wedi'i wneud yn dda ac, yn bwysicach, ble y mae angen rhagor o welliannau. Ffocws yr hunanasesiad yw blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol y Cyngor, a elwir yn Amcanion Llesiant, a darparu asesiad o ba mor dda y mae'r Cyngor yn teimlo ei fod wedi cyflawni'r rhain a ble y mae angen gwella ymhellach.

Fe ysgrifennwyd yr hunanasesiad i ystyried:

- **Pa mor dda ydyn ni'n gwneud? Naratif o'r gweithgarwch sydd wedi digwydd;**
- **Sut ydyn ni'n gwybod? Darparu tystiolaeth ansoddol a meintiol; a**
- **Beth allwn ni ei wneud a sut allwn ni wneud yn well? Camau gweithredu i'w rhoi ar waith dros y blynyddoedd nesaf.**


Datblygwyd yr hunanasesiad hwn ac mae'n cynnwys yr wybodaeth sydd ar gael ar adeg benodol. Mae dull hunanasesu'r Cyngor yn broses adolygu barhaus a llyfn, a bydd yr asesiad yn cael ei ddiweddaru pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael.

Fel pob corff cyhoeddus ledled Cymru, mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â dyletswyddau statudol penodol. Mae'r Adroddiad Hunanasesu a Llesiant hwn yn cyfuno ein gofynion adrodd statudol a'n dyletswyddau cyhoeddi statudol, o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021. Mae'r ddwy Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol:

- Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ein cynnydd yn erbyn ein Hamcanion Llesiant (Deddf LlCD 2015); a
- Chyhoeddi Adroddiad Hunanasesu blynyddol, sy'n nodi i ba raddau yr ydym yn bodloni ein gofynion perfformiad.

### Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021

Hwn yw ein trydydd adroddiad, dan ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 ac yn greiddiol i'r gyfundrefn newydd hon o ran perfformiad mae'r gofyniad i bob cyngor barhau i adolygu eu trefniadau perfformiad. Mae angen i gynghorau wneud hyn trwy hunanasesiad cadarn a pharhaus o'u canfyddiadau, yr adroddir arnynt trwy'r adroddiad blynyddol hwn.




### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (Deddf LlCD) yn rhoi saith nod llesiant blaenoriaethol mewn cyfraith y mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus weithio tuag atynt. Mae'n manylu ar y ffordd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithio a chydweithio gyda'i gilydd i wella llesiant Cymru.

Wrth weithio tuag at y nodau hyn, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd. Mae'r adroddiad hwn yn dangos sut yr ydym wedi cysylltu ein hamcanion blaenoriaethol allweddol â'r Ddeddf hon a'n hymrwymiad iddi.



# Gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Mae Cyngor Blaenau Gwent mewn proses o newid. Ym mis Mehefin 2024, cytunodd Cynghorau Torfaen a Blaenau Gwent i rannu Prif Weithredwr. Y trefniant hwn yw'r cyntaf o'i fath yng Nghymru ac mae'n amlygu gallu'r ddau Gyngor i feddwl am y dyfodol ac arloesi'r ffordd gyda threfniadau cydweithio gwell. Nod y trefniant hwn yw gwella cydnerthedd, effeithlonrwydd ac arloesi sefydliadol Blaenau Gwent a Thorfaen yn sylweddol.

Yn ystod y broses hon o newid, bydd 'cyfnod darganfod' o naw mis yn weithredol i archwilio cyfleoedd, y potensial ar gyfer effeithlonrwydd, gan gydweithio ar y raddfa ofynnol a lleihau unrhyw rwystrau a risgiau. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i ble y gellir rhoi trefniadau llywodraethu ar y cyd ar waith ar draws y ddau awdurdod lleol er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar ein perfformiad, ein prosesau ac, yn bwysicaf oll, ein diwylliant.

Rydym ar ddechrau cyfnod o newid sefydliadol. Gall y penderfyniad i ddau awdurdod lleol gydweithio'n agosach, gan gynnwys rhannu Prif Weithredwr, gynnig sawl budd sy'n sbarduno effeithlonrwydd, arloesi a dylanwad. Mae rhai o'r prif fanteision yn cynnwys:

- Effeithlonrwydd o ran Costau: Gall prif weithredwr a rennir leihau costau gweinyddol gyda'r ddau awdurdod yn cyfrannu at rannu un cyflog a threuliau cysylltiedig. Bydd potensial hefyd i gyfuno swyddogaethau gweinyddol ehangach a'r staff sydd yn eu lle i gefnogi swyddogaeth y prif weithredwr.
- Darparu Gwasanaethau'n well ar draws y Cynghorau: Gall cydweithio ar draws cynghorau arwain at ddarparu gwasanaethau mewn modd mwy cydlynol. Mae'n rhoi mwy o gyfle i gyfuno adnoddau ac arbenigedd sy'n gwella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer y cyhoedd. Byddai hyn yn cynnwys rhannu arferion gorau, technoleg a systemau na fydd un sefydliad ar ei ben ei hun yn gallu eu fforddio na'u rheoli.
- Darbodion Maint: Mae dwyn ynghyd sefydliadau sy'n rhannu cyfrifoldebau, amcanion a heriau cyffredin yn cynnig y potensial i ledaenu costau, negodi telerau gwell a phrisiau sy'n is ar y cyfan (comisiynu a chaffael er enghraifft), gan elwa o ddarbodion maint.
- Gwell Arloesi a Rhannu Gwybodaeth: Mae cydweithio'n agosach ar heriau cyffredin yn rhoi cyfle i rannu syniadau a datrysiadau arloesol. Gall hyn greu'r amgylchedd cywir i feithrin diwylliant o wella'n barhaus a chreadigrwydd, gan arwain at wasanaethau cyhoeddus mwy effeithiol ac effeithlon.
- Cynllunio Strategol Cryfach: Mae arweinyddiaeth unedig ar draws cynghorau'n creu cyfle ar gyfer cynllunio strategol mwy cydgysylltiedig, cysoni nodau a rhannu adnoddau gan arwain at gyflawni canlyniadau hirdymor mewn modd mwy effeithiol.
- Mwy o Gydnerthedd a Hyblygrwydd: Gall gweithrediadau ar y cyd gynnig mwy o gydnerthedd a hyblygrwydd yn y modd y dyrennir adnoddau ac y rheolir argyfwng yn enwedig yn ystod adegau o straen economaidd neu amgylcheddol.
- Canfyddiad ac Ymddiriedolaeth y Cyhoedd: Trwy ddangos cyfrifoldeb cyllidol a bod yn fwyfwy arloesol, gellir gwella'r ymddiriedaeth mewn llywodraeth leol.
- Gwell Datblygiad a Llwybrau Gyrfaol ar gyfer Staff: Mae creu cronfeydd mwy o staff cyfunol a swyddogaethau mwy amrywiol yn creu mwy o gyfleoedd i ddatblygu a symud staff o fewn y sefydliad. Gall hyn wella boddhad yn y swydd, gwella cyfraddau cadw, a chreu amgylchedd mwy deniadol ar gyfer recriwtio i'r sefydliadau.
- Mwy o Ddylanwad yn Rhanbarthol ac yn Genedlaethol: Fel dau awdurdod sy'n cydweithio a chanddynt boblogaeth gyfunol sy'n agos at faint Casnewydd, gallwn gynyddu ein dylanwad yn rhanbarthol ac yn genedlaethol gyda phroffil uwch.

Bydd 'cyfnod darganfod' y cynnig hwn yn ceisio cyflawni'r uchod a nodi cynllun hirdymor newydd ar gyfer Blaenau Gwent.

- Rhai meysydd datblygu allweddol trwy gydol y cyfnod 'darganfod' fydd:
  - Sefydlu set o Nodweddion y bydd y Cyngor yn eu dilyn er mwyn i swyddogion ac aelodau weithio gyda'i gilydd i drawsnewid y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau;
  - Cysoni nifer o brosesau llywodraethu ar draws y ddau gyngor;
  - Datblygu Uwchgynllun Marmot ar gyfer Blaenau Gwent; a
  - Datblygu Dull Cymunedau i alluogi mwy o gydnerthedd o fewn ein cymunedau.



# Ein dealltwriaeth am Flaenau Gwent

## Ardal Blaenau Gwent

Mae ardal Blaenau Gwent yn gymharol fach yn ddaearyddol. Mae'n 42.09 milltir sgwâr gan fod, ar y mwyaf, 15 milltir o'r gogledd i'r de ac 8 milltir o'r dwyrain i'r gorllewin. Diffinnir Blaenau Gwent yn ffisegol gan lethrau uchel sy'n hollti'r tri phrif gwm. Mae'r cymoedd hyn yn gartref i drefi a phentrefi sydd fel pe baent yn uno'n un. Fodd bynnag, mae pob cymuned yn falch o gynnal ei chymeriad a'i thraddodiadau ei hun. Er bod y trefi'n rhoi ymdeimlad prysur, trefol i'r ardal, mae Blaenau Gwent mewn gwirionedd yn ardal wledig gan mwyaf. Lle bynnag yr ydych chi, nid yw cefn gwlad hardd byth yn bell i ffwrdd.



## Poblogaeth Blaenau Gwent

Mae canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn dangos bod poblogaeth breswyl Blaenau Gwent yn 66,900, sy'n ostyngiad o 4.2% o'i gymharu â Chyfrifiad 2011 pan oedd y boblogaeth yn 69,800. Yn 2021, Blaenau Gwent oedd y chweched fwyaf poblog o'r 22 ardal awdurdod lleol, gyda 615 o bobl am bob cilomedr sgwâr, sy'n cyfateb i tua phedwar o bobl yn byw ar bob darn o dir maint cae pêl-droed. Mae'r newid yn y boblogaeth yn ôl grŵp oedran ym Mlaenau Gwent yn dangos bod cynnydd o 9.0% wedi bod yn y bobl 65 oed a throsodd, gostyngiad o 7.5% yn y bobl rhwng 15 a 64 oed, a gostyngiad o 5.4% mewn plant o dan 15 oed. Os bydd y ffigyrau hyn yn parhau, rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i ostwng, gan gynnwys gostyngiad o 9.9% yn nifer y plant, gostyngiad o 6.1% yn nifer y bobl o oedran gweithio a chynnydd o 24.2% yn nifer y bobl 65 oed a throsodd (Ffynhonnell: StatsCymru).

Mae canran y trigolion 16 oed a throsodd sy'n economaidd weithgar ac mewn cyflogaeth ym Mlaenau Gwent yn 52.2% sy'n gynnydd o 2.7% ers 2011. Dangosodd Cyfrifiad 2021 mai Blaenau Gwent oedd â'r gyfran uchaf o drigolion rhwng 16 a 64 oed a oedd yn economaidd anweithgar ac â salwch hirdymor neu'n anabl ledled Cymru a Lloegr gyfan, sef 36.1%. Roedd 49% o fenywod a 55.7% o ddynion 16 oed a throsodd mewn cyflogaeth. Roedd 2.7% o fenywod a 4.1% o ddynion ym Mlaenau Gwent yn ddi-waith.

Roedd 21% o'r Oedolion ag anabledd ym Mlaenau Gwent yn economaidd weithgar ac yn gyflogedig. Fodd bynnag, mewn cyferbyniad, Castell-nedd Port Talbot a Blaenau Gwent ar y cyd sydd â'r drydedd gyfradd uchaf o drigolion anabl economaidd anweithgar (76.9%) ledled Cymru a Lloegr, a'r uchaf yng Nghymru.

Nododd Cyfrifiad 2021 fod 4,035 o siaradwyr Cymraeg yn byw ym Mlaenau Gwent, sy'n cyfateb i 6.2% o'r boblogaeth. Mae nodau Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg Blaenau Gwent 2022/27 yn gysylltiedig â gweledigaeth Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr yng Nghymru erbyn 2050. Er mwyn cyrraedd y nod hwn, byddai ar Flaenau Gwent angen cynnydd o 46% mewn siaradwyr Cymraeg sy'n cyfateb i 1,856 o bobl.

Mae Blaenau Gwent yn cynnwys pum tref: Abertyleri; Y Blaenau, Brynmawr, Glyn Ebwy; a Thredegar. Mae'r trefi hyn wedi'u rhannu'n bedwar cwm: Ebwy Fach Isaf; Ebwy Fach Uchaf; Ebwy Fawr; a Sirhywi. Gellir dod o hyd i ragor o ddata a gwybodaeth am Gymoedd Blaenau Gwent gan ddefnyddio'r dolenni canlynol:

- Cwm Ebwy Fach Isaf – Asesiad Llesiant Ebwy Fach Isaf (gwentpsb.org)
- Cwm Ebwy Fach Uchaf – Asesiad Llesiant Ebwy Uchaf (gwentpsb.org)
- Cwm Ebwy Fawr - Asesiad Llesiant Ebwy Fawr (gwentpsb.org)
- Cwm Sirhywi - Asesiad Llesiant Sirhywi (gwentpsb.org)



## Cyngor Blaenau Gwent

Y Cyngor yw'r cyflogwr mwyaf o hyd yn y fwrdeistref, ac yntau'n cyflogi 1,731 o bobl ac eithrio staff mewn ysgolion neu 3,030 wrth gynnwys staff mewn ysgolion. Mae 73% o weithlu'r Cyngor mewn rolau parhaol sy'n darparu sefydlogrwydd o fewn y sefydliad. Mae hyn yn ostyngiad o'i gymharu â'r llynedd pan oedd bron i 80% mewn rolau parhaol. Mae 12% o staff mewn swyddi am gyfnod penodedig ac mae 10% mewn swyddi llanw. Mae'r rhan fwyaf o'r swyddi llanw ym maes Arlwyo a Glanhau ac yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n gyson â'r hyn y byddai rhywun yn ei ddisgwyl o ystyried natur y gweithlu yn y meysydd hyn. Mae swyddi gwag wedi aros yn gyson, gyda thros 90% o'r rolau wedi'u llenwi ym mhob cyfarwyddiaeth, ac eithrio Addysg lle ceir cyfradd swyddi gwag o 21%. Mae dros hanner y gweithlu'n dal i fod 'wedi'u lleoli mewn wasanaethau' gyda'r staff sy'n weddill wedi'u rhannu rhwng gweithwyr cartref ar 7%, a gweithwyr ystwyth ar 36%. Mae gan fwy na hanner y gweithlu fwy na 10 mlynedd o wasanaeth.

Mae gan y Cyngor lefel isel o amrywiaeth ymhlith y gweithlu. Mae 67% (o'r rhai sydd wedi darparu'r wybodaeth) wedi dynodi eu bod yn uniaethu fel Prydeinwyr, Cymry, Saeson, Albanwyr, a Gwyddelod Gogledd Iwerddon. (Mae hyn yn adlewyrchu'r gymuned). Bydd hybu amrywiaeth yn y gweithlu'n dal i fod yn flaenoriaeth allweddol fel rhan o Strategaeth Gweithlu'r Cyngor. Mae gan y Cyngor weithlu sy'n heneiddio lle mae 55% o'r gweithlu dros 46 oed, gyda 10% o'r gweithlu'n 29 oed ac iau.

## Strwythur Gwleidyddol

Sefydlwyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol ar 1 Ebrill 1996. Yn 2021, fe wnaeth Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ddiwygio ffiniau wardiau Blaenau Gwent. Arweiniodd y newidiadau at ostyngiad o 9 yn nifer cynghorwyr Blaenau Gwent, gan fynd â'r cyngor o 42 i 33 o aelodau. Mae hyn yn cyfateb i 1,545 etholwr ar gyfartaledd am bob cynghorydd. Gostyngodd nifer y wardiau hefyd o 16 i 14, gyda phob ward yn ethol mwy nag un cynghorydd. Mae gan 9 ward 2 gynghorydd, tra bod gan 5 ward 3 chynghorydd, ac ni fu unrhyw newid mewn 5 ward o ganlyniad i ddiwygio'r ffiniau. Daeth y newidiadau hyn i rym o fis Mai 2022, fel rhan o'r etholiad llywodraeth leol. Yn dilyn yr etholiad bu newid i gyfansoddiad gwleidyddol Cyngor Blaenau Gwent, gan newid o fod yn Annibynnol i fod yn Llafur. Mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor ar hyn o bryd fel a ganlyn:

- Llafur 21;
- Annibynnol 10;
- Annibynnol Lleiafrifol (Ward Cwm) 1; a
- Annibynnol Lleiafrifol (De Glyn Ebwy) 1.

## Y Broses Ddemocrataidd

Mae pwyllgorau'r Cyngor yn rhan hanfodol o'r broses ddemocrataidd o fewn yr Awdurdod. Maent yn galluogi aelodau etholedig i arfer eu pwerau penderfynu, craffu ar berfformiad a pholisïau'r Cyngor, a chynrychioli barn a buddiannau eu hetholwyr. Mae pwyllgorau'r Cyngor hefyd yn darparu fforwm ar gyfer cyfranogiad gan y cyhoedd ac ymgysylltu â'r cyhoedd, lle gall dinasyddion a rhanddeiliaid leisio eu barn, eu pryderon a'u hawgrymiadau ynglŷn â materion sy'n effeithio arnynt hwy a'u cymunedau.

Nod pwyllgorau'r Cyngor yw cynnal eu busnes mewn modd agored, tryloyw ac atebol, a chynnal egwyddorion llywodraethu a gwasanaeth cyhoeddus da.

Y Cabinet i bob pwrpas yw corff penderfynu'r Cyngor. Mae'n gyfrifol am wneud penderfyniadau sy'n unol â pholisïau a chyllideb y Cyngor ar y cyfan. Os yw'n dymuno gwneud penderfyniad nad yw'n cyd-fynd â'r gyllideb neu'r fframwaith polisi, rhaid cyfeirio hwn at y Cyngor cyfan. Mae gan Aelodau gyfrifoldeb i sicrhau bod busnes angenrheidiol y Cyngor yn cael ei gynnal yn effeithlon, yn effeithiol, ac mewn modd sy'n briodol ar gyfer cynnal busnes cyhoeddus yn briodol. Mae'r Cabinet yn cyflawni holl swyddogaethau'r Awdurdod Lleol nad ydynt yn gyfrifoldeb i unrhyw ran arall o'r Awdurdod, boed hynny yn ôl y gyfraith neu o dan y Cyfansoddiad.



Gyda'i gilydd, 33 aelod etholedig Blaenau Gwent yw'r corff yw corff penderfynu’r Awdurdod. Ategir hyn gan strwythur swyddogion o bobl hyfforddedig a phrofiadol.  Mae'r rhan fwyaf o benderfyniadau polisi’n cael eu datblygu gan y Cabinet, sy'n cynnwys Arweinydd y Cyngor a phedwar Aelod Cabinet â chyfrifoldebau am bortffolios unigol:



**Y Cyngh. Steve Thomas**
**Arweinydd y Cyngor**
**Aelod Cabinet Corfforaethol a Pherfformiad**



**Y Cyngh. Helen Cunningham**
**Dirprwy Arweinydd y Cyngor**
**Aelod Cabinet Lle a'r Amgylchedd**



**Y Cyngh. John C Morgan**
**Aelod Cabinet Lle ac Adfywio**




**Y Cyngh. Sue Edmunds**
**Aelod Cabinet Pobl ac Addysg**



**Y Cyngh. Hadyn Trollope**
**Aelod Cabinet Pobl a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Yn ogystal â'r Cabinet, mae strwythur Pwyllgorau’r Awdurdod hefyd yn cynnwys tri Phwyllgor Penderfynu: 1 x Cynllunio a 2 x Trwyddedu; pedwar Pwyllgor Craffu; Pwyllgor Safonau; Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd; a Phwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Mae craffu’n cynnwys Aelodau nad ydynt yn rhan o’r Cabinet a benodir i eistedd ar y Pwyllgorau i gefnogi gwaith y Cabinet a'r Cyngor yn ei gyfanrwydd ac i ddwyn y Cabinet i gyfrif. Nid oes gan y Pwyllgorau unrhyw bwerau penderfynu; fodd bynnag, maent yn gweithredu fel rhwystrau a gwrthbwysau ar y pwerau a arferir a’r penderfyniadau a wneir gan y Cabinet. Mae craffu’n galluogi Aelodau nad ydynt yn rhan o’r Cabinet i fod â mwy o lais ym materion y Cyngor. Mae Cyfarfodydd a phapurau Pwyllgorau i’w cael yma: [blaenau-gwentintranet.moderngov.co.uk/ieDocHome.aspx?Categories=](blaenau-gwentintranet.moderngov.co.uk/ieDocHome.aspx?Categories=)






## Cydbwyllgorau Corfforedig

Mae Cyngor Blaenau Gwent yn un o ddeg awdurdod lleol ledled De Ddwyrain Cymru sy'n rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn un o bedwar Cydbwyllgor Corfforedig ledled Cymru a sefydlwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i helpu cydweithredu rhanbarthol rhwng awdurdodau gan arwain at ffordd symlach o weithio. Rhoddwyd sawl swyddogaeth i'r Cydbwyllgorau Corfforedig a oedd yn cynnwys datblygu polisïau trafnidiaeth, paratoi cynllun datblygu strategol ac ystyried beth sy'n debygol o wella llesiant economaidd ei ardal.

Ym mis Tachwedd 2023 cynhyrchodd Archwilio Cymru adroddiad a oedd yn rhoi sylwebaeth ar y cynnydd a wnaed ar sefydlu Cydbwyllgorau Corfforedig rhanbarthol, ac yn y crynodeb oedd pum argymhelliad. Mae’r adroddiad llawn i’w gael yma. Bydd Cyngor Blaenau Gwent fel rhan o'r Cydbwyllgor Corfforedig yn gweithio tuag at yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad gydag adroddiadau ar y cynnydd yn cael eu cyflwyno trwy gyfarfodydd y Cabinet Rhanbarthol.

## Cydbwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent (BGCG)

Mae Cyngor Blaenau Gwent wedi cael ei benodi fel yr awdurdod lletyol i gyflawni'r trefniadau gweinyddol a darparu cymorth ac ymgynghorwyr pwrpasol ar gyfer Cydbwyllgor Craffu BGCG. Nod y Pwyllgor yw craffu ar effeithiolrwydd BGCG trwy adolygu'r penderfyniadau a wneir, neu'r camau gweithredu a gymerir, gan y Bwrdd; craffu ar drefniadau llywodraethu'r Bwrdd; a chyflwyno argymhellion yn seiliedig ar hyn i'r Bwrdd. Mae'r Pwyllgor wedi cwrdd bedair gwaith ers ei sefydlu ym mis Mawrth 2023, ac wedi gwneud gwaith fel adolygu Cynllun Llesiant cyntaf Gwent a rhoi adborth ar fframwaith rheoli perfformiad BGC Gwent. Bydd y Pwyllgor yn parhau i gefnogi BGC Gwent yn ogystal â gwaith Grŵp Cyflawni Lleol Blaenau Gwent.

## Tîm Arwain Corfforaethol

Mae gan y Cyngor strwythur i roi cymorth i ddarparu gwasanaethau a gwneud penderfyniadau trwy ei Dîm Arwain Corfforaethol (TAC). Mae’r TAC wedi gweithredu gyda threfniadau interim ers dros flwyddyn gan gynnwys Prif Weithredwr interim, Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfarwyddwr Corfforaethol Addysg. Bydd y trefniadau hyn yn cael eu gwneud yn barhaol yn ystod 2024/25 pan fydd trefniadau hefyd yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer gweithredu Cyd-Brif Weithredwr gyda Chyngor Torfaen. Ers mis Ebrill 2024, mae'r Cyngor hefyd wedi creu swydd newydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, a benodwyd ym mis Medi 2024 ac wedi sicrhau bod swydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg yn un barhaol. Mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu Tîm Arwain Corfforaethol Ehangach (TACE) sy'n cefnogi’r TAC yn ei rôl o ran rhoi cyfeiriad strategol i'r sefydliad. Fforwm i ledaenu gwybodaeth a chyfleu negeseuon ydyw, gan sicrhau dull 'un cyngor'.

## Archwilio Mewnol ac Allanol

Mae'r Cyngor yn cael nifer o archwiliadau mewnol ac allanol ac adolygiadau rheoleiddiol bob blwyddyn. Cyflawnir y rhain i sicrhau bod y Cyngor yn darparu gwerth am arian, bod gwasanaethau'n cael eu rhedeg yn effeithlon ac yn effeithiol, a bod gwasanaethau gwell yn cael eu darparu. Caiff y Cyngor ei fonitro gan nifer o gyrff rheoleiddio allanol, a'r prif rai yw: Archwilio Cymru; Arolygiaeth Gofal Cymru; ac Estyn.

### Archwilio Cymru

Mae trefniadau ymgysylltu ag Archwilio Cymru ar waith gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda'r Pennaeth Llywodraethu a Phartneriaethau, gyda'r Swyddog Adran 151 a'r Prif Weithredwr hefyd. Cynhelir cyfarfodydd chwarterol hefyd gyda'r Arweinyddiaeth.



Mae Adroddiadau Archwilio Cymru yn ystod 2023/24 yn cynnwys:

| **Adroddiadau Lleol** | **Adroddiadau Cenedlaethol Archwilio Cymru** | **Adroddiadau Archwilio Cymru sy'n dal ar y Gweill (gan ddisgwyl canlyniad pob un yn 2023/24)** |
|---|---|---|
| • Archwiliad o Bennu Amcanion Llesiant<br>• Adolygiad o'r Gwasanaeth Cynllunio<br>• Adolygiad o'r Strategaeth Ddigidol<br>• Defnyddio Gwybodaeth am Berfformiad – Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaethau a Deilliannau | • Prosiect Gofal Heb ei Drefnu<br>• Safleoedd Tir Llwyd<br>• Galwadau Tân Diangen<br>• Cydbwyllgorau Corfforedig – sylwebaeth ar eu cynnydd<br>• Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol | • Prosiect Gofal Heb ei Drefnu<br>• Comisiynu<br>• Cynaliadwyedd Ariannol<br>• Gwaith Dilynol ar yr Adolygiad o Ddiogelu<br>• Astudiaeth Genedlaethol o Lety Dros Dro |

Disgwylir y Crynodeb Archwilio Blynyddol ar gyfer 2023 gan Archwilio Cymru yn dilyn cymeradwyo cyfrifon Blaenau Gwent yn 2023. Bydd yr adroddiad yn cynnwys crynodeb o bob adolygiad a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru dros y flwyddyn.

## Estyn

Mae Gwasanaethau Addysg yr Awdurdod yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Arolygydd Cyswllt Awdurdod Lleol (ACALl) a gynullir gydag Estyn yn unol â gofynion yr arolygiaeth. Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y fframwaith Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol (GALlL) wrth y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet. Mae'r Awdurdod yn cael cyfarfodydd diweddaru rhwng y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg, Aelodau, a swyddogion Llywodraeth Cymru yn ôl yr angen, ac mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) hefyd yn darparu diweddariadau am yr agenda gwella ysgolion i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu.

## Arolygiaeth Gofal Cymru

Mae'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei harchwilio, ei harolygu a'i hadolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Yn chwarterol, mae Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Phenaethiaid y Gwasanaethau Oedolion a Phlant yn cwrdd ag AGC i drafod cyflawniadau, perfformiad a heriau allweddol.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd Blaenau Gwent y canlynol gan AGC:

- Llythyr Gwirio Sicrwydd – Tîm Cymunedol Oedolion ym Mlaenau Gwent gyda ffocws ar oedolion ag anabledd dysgu.
- Adolygiadau cenedlaethol o'r canlynol:
    - Defnyddio'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yng Nghymru 2022-23 – daeth i law ym mis Chwefror 2024;
    - Adolygiad Cyflym o Drefniadau Amddiffyn Plant;
    - Cartrefi gofal ar gyfer Cartrefi Gofal sy'n Gweithredu Heb Gofrestriad; a hefyd
    - Yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yng Nghymru.

## Archwilio mewnol

Mae adroddiad blynyddol, sy'n amlinellu meysydd sydd wedi cael asesiad trwy'r tîm Archwilio Mewnol, yn cael ei ddarparu i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor ac mae hefyd yn cael ei gynnwys yn adolygiad gwrthrychol y Rheolwr



Archwilio a Risg o system rheolaeth fewnol yr Awdurdod.

Cyhoeddodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol 33 adroddiad archwilio terfynol yn ystod y flwyddyn:

| Gradd Archwilio | Nifer yr archwiliadau |
|---|---|
| Sicrwydd Llawn | 10 |
| Sicrwydd Rhesymol | 14 |
| Sicrwydd Cyfyngedig | 8 |
| Dim Sicrwydd | 1 |

Mae system rheolaeth fewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24 yn gweithredu i lefel sy'n rhoi 'sicrwydd rhesymol' ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y sefydliad ar y cyfan. Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd bod angen mwy o sylw i systemau sy'n gysylltiedig â chontractau, a systemau corfforaethol yn ystod 2024/25 i sicrhau nad yw'r canfyddiadau sy'n ymwneud â'r meysydd hyn yn fwy cyffredin.

## Asesiad Panel o Berfformiad 2024

Ym mis Tachwedd 2024, bydd Cyngor Blaenau Gwent yn cynnal ei Asesiad Panel o Berfformiad cyntaf fel rhan o'r gofynion o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r ystyriaeth yn y Ddeddf i hunanasesu effeithiol yn hanfodol i alluogi'r Cyngor i ddeall sut yr ydym yn perfformio a ble y gallem wneud yn well, ac mae hyn yn cyd-fynd yn fawr â'n daliadau sydd wedi bod yn sail i ddatblygu ein systemau a'n prosesau newydd.

## Ffocws yr Asesiad Panel

Mae Blaenau Gwent wedi ymrwymo i gytundeb cydweithio arloesol gyda Chyngor Torfaen, gyda'r swydd Cyd-Brif Weithredwr gyntaf yng Nghymru.  Fel rhan o'r cyfnod darganfod cychwynnol o naw mis, rydym wedi comisiynu'r Panel Asesu Perfformiad i'n helpu i lywio'r opsiynau yn y dyfodol a darparu asesiad gonest, tryloyw a diduedd o iechyd corfforaethol cyfredol y sefydliad.  Bydd hyn yn helpu i oleuo a darparu mewnwelediad gwerthfawr ar adeg dyngedfennol yn y cyfnod darganfod, ac mae hefyd yn arwydd o'n hymrwymiad i wella a bydd canlyniad yr asesiad, gobeithio, yn ategu'r gwaith sy'n cael ei gyflawni.  Bydd hefyd yn helpu Blaenau Gwent i'w roi ei hun yn y sefyllfa orau i fynd i'r afael â'r heriau sydd o'n blaenau ar gyfer llywodraeth leol o ran cynaliadwyedd ariannol, capasiti a gallu, i helpu i drawsnewid a gwella'r modd y darperir gwasanaethau a'r deilliannau i'n preswylwyr, a'r gallu i helpu i oleuo a dylanwadu ar strwythur llywodraeth leol yng Nghymru yn y dyfodol.

Ar ddiwedd y cyfnod darganfod, a fydd y Cyngor yn parhau â'r trefniadau ar y cyd ac, os felly, beth ddylai'r meysydd ffocws fod?

Rydym yn awyddus i'r Asesiad Panel ystyried:

- Cyflawni – sut mae'r Cyngor yn dangos ei fod yn defnyddio ei gapasiti a'i allu mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol i gyflawni ymrwymiadau polisi craidd a heriol
- Trawsnewid/Newid – sut mae'r Cyngor yn galluogi ac yn cefnogi newid diwylliannol a sefydliadol trwy'r fframwaith perfformiad a llywodraethu sydd ar waith
- Llywodraethu – a yw'r trefniadau llywodraethu'n effeithiol ac yn dryloyw o ran trefniadau a chynlluniau mewnol a'u cadernid a'u gallu i roi cymorth i newid a chyflawni
- Arweinyddiaeth – beth yw effeithiolrwydd y berthynas rhwng yr arweinyddiaeth wleidyddol ac uwch swyddogion yn y sefydliad i herio ei hun i wella'n barhaus sut y mae'n cyflawni canlyniadau gwell i drigolion
- Ffocws penodol ar ddiwylliant y sefydliad a'r fframwaith penderfynu. A yw ein gwleidyddion yn gallu gwneud penderfyniadau strategol gwybodus sy'n cefnogi cynaliadwyedd hirdymor y Cyngor?
- Profi a herio gallu'r gweithlu i ddatblygu dyluniad sefydliadol blaengar a chadarnhaol a diwylliant cysylltiedig – a gefnogir gan y polisïau a'r strategaethau sydd yn eu lle ar gyfer y gweithlu.



**Ymgysylltiad a Chyfranogiad fel rhan o'r Asesiad Panel o Berfformiad**
Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn amlinellu bod rhaid i banel ymgynghori â'r canlynol wrth ystyried i ba raddau y mae'r cyngor yn ateb ei ofynion o ran perfformiad:

- pobl leol;
- personau eraill sy'n cynnal busnes yn ardal y Cyngor;
- staff y cyngor, a hefyd;
- pob undeb llafur a gydnabyddir (o fewn ystyr Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (c. 52)) gan y cyngor.

Mae Cynllun Ymgysylltu Llawn wedi cael ei baratoi ar gyfer yr Asesiad Panel o Berfformiad. Mae hyn yn cynnwys:

- **Arolwg Cenedlaethol o Drigolion ar gyfer Blaenau Gwent** – Bydd y Cyngor yn hwyluso'r broses Byw ym Mlaenau Gwent o ddydd Llun 23 Medi 2024 am chwe wythnos hyd at ddydd Sul 3 Tachwedd (amserlen safonol genedlaethol). Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i ganlyniadau dangosol yr arolwg fod ar gael i'r Asesiad Panel o Berfformiad yn dilyn yr Ymarferion Dilysu Data gan Data Cymru.
- **Grwpiau Ffocws Dinasyddion/Defnyddwyr Gwasanaethau** - I bwyso a mesur safbwynt defnyddwyr gwasanaethau, bydd y Cyngor yn cynnal 3 grŵp ffocws a fydd yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau/dinasyddion a'r rhai sy'n chwarae rhan weithredol mewn prosesau cyfranogol a weithredir gan y Cyngor.
    - Grŵp Ffocws 1: Wedi'i anelu at ddefnyddwyr gwasanaethau ymgysylltiol sy'n cyfranogi'n weithredol mewn mecanweithiau presennol, i ddod â chymysgedd o bobl o wahanol rwydweithiau a chymunedau ym Mlaenau Gwent.
    - Grŵp Ffocws 2: Gan adeiladu ar strategaeth y Cyngor ar gyfer newid i ddulliau digidol, bydd y grŵp ffocws hwn yn cynnwys cyfuniad o ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n rhyngweithio â'r Cyngor trwy sianeli digidol yn bennaf.
    - Grŵp Ffocws 3: Wedi'i anelu at blant a phobl ifanc (PPhI), yn cael ei hwyluso trwy Fforwm Ieuenctid Blaenau Gwent i ystyried blaenoriaethau thematig ar gyfer y Cyngor o'r Cynllun Corfforaethol. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi hefyd i gynrychiolaeth PPhI o fforymau perthnasol eraill e.e. Uwch Gyngor Plant a'r Ddarpariaeth Gwasanaethau Ieuenctid.
- **Busnesau Lleol** – Amcanu at ymgysylltu â thrawstoriad o fusnesau a chwmnïau lleol sy'n gweithredu yn yr ardal, gyda chynrychiolwyr posibl o fecanweithiau sefydledig
- **Partneriaethau** – Ymgysylltu ag Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin, AWEN, Cyngor Ar Bopeth, y Gwasanaeth Rhannu Adnoddau a chynrychiolwyr o'r Bartneriaeth Gyflawni Leol.

- **Staff y Cyngor** – i ddeall barn staff y Cyngor.
    - Grŵp Ffocws 1: Grŵp ffocws cyffredinol gyda thrawstoriad o staff o'r sefydliad sy'n cwmpasu categorïau eang fel Rhywedd, Gradd a Chyfarwyddiaeth, gyda ffocws hefyd ar gael cynrychiolwyr sy'n ymwneud â rhaglenni allweddol fel y Rhwydwaith Profiad Personol Cydraddoldeb, a'r Hyrwyddwyr Digidol.
    - Grŵp Ffocws 2: Staff darparu gwasanaethau rheng flaen.
- **Undebau Llafur** – O leiaf un cynrychiolydd o bob Undeb Llafur a gydnabyddir gan y Cyngor a fydd yn cynnwys Unsain, Unite, GMB, ac undebau ar gyfer staff addysgu e.e. NAHT, NEU a NASUWT.

Fel a amlinellir drwy'r Hunanasesiad hwn, mae'r Cyngor yn mynd ati'n frwd i ymgysylltu a chyfranogi gyda staff a'r gymuned leol er mwyn siapio'r modd y darperir gwasanaethau a deall anghenion. Bydd y gwaith hwn yn parhau i mewn i 2024/25 a bydd yn cael ei wella ymhellach trwy gytuno ar Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad y Cyngor a'i rhoi ar waith. Bydd yr holl weithgarwch a amlinellir uchod hefyd yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol ar gyfer darparu gwasanaethau a bydd hefyd yn goleuo ein Hunanasesiad nesaf.



# Cynllun Corfforaethol 2022/27

Mae Cynllun Corfforaethol 2022/27 yn disgrifio rhaglen uchelgeisiol o weithgarwch ar gyfer y Cyngor dros y pum mlynedd nesaf a’r tu hwnt i hynny. Mae'r blaenoriaethau, y cyfeirir atynt hefyd fel Amcanion Llesiant, wedi cael eu datblygu er mwyn cynorthwyo cymunedau i ffynnu. Y Cynllun Corfforaethol yw ymrwymiad y Cyngor i gymunedau Blaenau Gwent, i ddarparu gwasanaethau modern o ansawdd da sy'n cefnogi twf economaidd a llesiant.

Mae'r Cynllun yn amlinellu pedair blaenoriaeth lefel uchel, y maent i gyd yn cael eu tanategu gan gynlluniau busnes cadarn a chynaliadwy, sy'n disgrifio'r gweithgarwch sydd i'w gyflawni gan bob maes gwasanaeth yn y Cyngor, gan sicrhau y gellir dwyn y Cyngor i gyfrif am yr hyn y mae wedi addo ei gyflawni. Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol 2022/27 yw:

- **Cynyddu dysgu a sgiliau i bawb er mwyn creu Blaenau Gwent lewyrchus, ffyniannus a chadarn;**
- **Ymateb i’r argyfwng natur a hinsawdd a galluogi cymunedau cysylltiedig;**
- **Cyngor uchelgeisiol ac arloesol sy’n darparu gwasanaethau o safon ar yr amser iawn ac yn y lle iawn; a**
- **Grymuso a chefnogi cymunedau i fod yn ddiogel, annibynnol a gwydn.**

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb tuag at bobl Blaenau Gwent i helpu i wella llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr ardal. Bydd pennu nifer fach o flaenoriaethau strategol o fewn y Cynllun Corfforaethol yn ei gwneud yn bosibl canolbwyntio ymdrechion ar gyflawni yn y meysydd hyn ac, yn y pen draw, yn helpu i wella ansawdd bywydau trigolion.

Mae'r Cynllun Corfforaethol hefyd yn amlinellu Gweledigaeth y Cyngor:

***‘Blaenau Gwent – lle sy’n deg ac agored ac yn groesawgar i bawb drwy weithio gyda’n cymunedau ac ar eu cyfer ’.***

Mae set graidd o Werthoedd y Cyngor wedi cael ei chynnwys yn y Cynllun hefyd i'r holl staff ac Aelodau eu dilyn:

- Parchus
- Cynhwysol
- Cydweithredol
- Atebol
- Cefnogol

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn ddogfen strategol bwysig iawn i'r Cyngor sy'n nodi'n glir y blaenoriaethau, a elwir yn Amcanion Llesiant, a sut y byddwn yn targedu ein hadnoddau cyfyngedig er mwyn rhoi cymorth i roi’r rhain ar waith. Datblygwyd yr Amcanion gan ddefnyddio ymchwil helaeth a dealltwriaeth am anghenion cymunedau lleol yn dilyn gweithgareddau ymgysylltu amrywiol. Oherwydd amseriad datblygu Cynllun Llesiant Gwent a datblygu Cynllun Corfforaethol y Cyngor, defnyddiwyd tystiolaeth o'r Asesiad o Anghenion ar gyfer y Cynllun Llesiant a'r Ymgynghoriad Cyhoeddus fel tystiolaeth ar gyfer Cynllun y Cyngor. Y prif feysydd blaenoriaeth a ddaeth i'r amlwg oedd:

- Lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yn ein cymunedau – mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol - Cynyddu dysgu a sgiliau i bawb er mwyn creu Blaenau Gwent lewyrchus, ffyniannus a chadarn yn ogystal â'r gwaith wedi'i dargedu sy'n cael ei wneud gan weithgor Costau Byw y Cyngor.
- Creu cymunedau diogel – mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol - Grymuso a chefnogi cymunedau i fod yn ddiogel, annibynnol a gwydn.
- Diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol - mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol - Ymateb i’r argyfwng natur a hinsawdd a galluogi cymunedau cysylltiedig.
- Er mwyn gweithio tuag at gyflawni'r blaenoriaethau mae angen i'r Cyngor allu gwneud hyn yn effeithiol ac o fewn adnoddau, felly, mae pedwerydd blaenoriaeth wedi cael ei datblygu'n benodol ar gyfer y Cyngor - Cyngor uchelgeisiol ac arloesol sy’n darparu



gwasanaethau o safon ar yr amser iawn ac yn y lle iawn.

Mae fersiwn lawn o'n Cynllun Corfforaethol ar gael i'w lawrlwytho yma [cynllun-corfforaethol-2022-2027.pdf (blaenau-gwent.gov.uk)]

Yn eistedd o fewn ein Cynllun Corfforaethol mae ein Datganiad Llesiant statudol sy'n esbonio'n fanylach sut yr ydym wedi deillio ein hamcanion a sut y byddant yn cyfrannu at 7 nod llesiant cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae ein Datganiad Llesiant hefyd yn gweithredu fel ysgogydd allweddol ar gyfer gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Blaenau Gwent trwy geisio sicrhau 'bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu, heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.

Ym mis Mawrth 2024, fe gymeradwyodd y Cyngor gynllun gweithredu a set o ddangosyddion perfformiad allweddol i'w defnyddio i ddarparu gwybodaeth am y cynnydd yn erbyn y Cynllun Corfforaethol. Ceir trosolwg o'r cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu isod, a cheir manylion y cynnydd yn erbyn y dangosyddion ar ddiwedd pob Amcan Llesiant. Mae'r cynllun gweithredu llawn i'w weld ar dudalen 77.

| **Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol 2023/24** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Glas *(cam gweithredu wedi'i gwblhau)*** | **Gwyrdd *(cam gweithredu ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed)*** | **Ambr *(cam gweithredu ddim ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed gyda llwybr yn ôl at wyrdd)*** | **Coch *(cam gweithredu ddim ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed gyda phryderon sylweddol)*** |
| **Cynyddu dysgu a sgiliau i bawb er mwyn creu Blaenau Gwent lewyrchus, ffyniannus a chadarn** | 1 | 9 | 2 | 0 |
| **Ymateb i'r argyfwng natur a hinsawdd a galluogi cymunedau cysylltiedig** | 0 | 4 | 1 | 0 |
| **Grymuso a chefnogi cymunedau i fod yn ddiogel, annibynnol a gwydn** | 0 | 6 | 0 | 0 |
| **Cyngor uchelgeisiol ac arloesol sy'n darparu gwasanaethau o safon ar yr amser iawn ac yn y lle iawn** | 5 | 3 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **6** | **22** | **3** | **0** |

Yn ogystal â'n Cynllun Corfforaethol, ceir ystod o ddogfennau allweddol eraill sy'n darparu cyfeiriad a gweledigaeth eglur ar gyfer y dyfodol, yn seiliedig ar anghenion a dyheadau'r cymunedau lleol. Mae'r rhain yn cyd-fynd ag amcanion ein Cynllun Corfforaethol a'n gweledigaeth sefydliadol i sicrhau y gallwn ddarparu gwasanaethau a gwneud gwelliannau. Mae'r rhain yn cynnwys ein Cynllun Datgarboneiddio a Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg sydd wedi'u hymgorffori yng nghynlluniau busnes y Cyngor, gan sicrhau bod monitro'r dogfennau hyn yn digwydd mewn un lle. Bydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig y Cyngor a Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad 2024/28 yn cael eu cytuno yn 2024 a byddant hefyd yn cael eu hymgorffori mewn cynlluniau busnes yn y dyfodol.



- Cynllun Datgarboneiddio 2020 - 2030 | CBS Blaenau Gwent (blaenau-gwent.gov.uk)
- strategaeth-hyrwyddo'r-gymraeg-2022-2027.pdf (blaenau-gwent.gov.uk)
- 2-cynllun-cydraddoldeb-strategol-2428.pdf (blaenau-gwent.gov.uk)
- Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Blaenau Gwent - Chwilio (bing.com)

## Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent

Partneriaeth statudol sy'n dwyn ynghyd wasanaethau cyhoeddus o bob rhan o Went i wella llesiant, yn awr ac yn y tymor hir yw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwent. Mae'n ofynnol i BGCau asesu llesiant yr ardal y maent yn ei gwmpasu a ffurfio cynlluniau llesiant ar gylch pum mlynedd. Gellir gweld aelodaeth BGC Gwent **yma**.

Mabwysiadodd BGC Gwent ei **Gynllun Llesiant cyntaf** ym mis Gorffennaf 2023, gan nodi sut y bydd gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio i ymateb i rai o heriau llesiant allweddol Gwent**.** Mae'r cynllun yn rhedeg o 2023-25 ac mae'n nodi dau amcan llesiant cydgysylltiedig a phum cam tanategol i'w cyflawni dros gyfnod cyflawni o bum mlynedd. Amcanion Llesiant BGC Gwent yw:

1. *Rydyn ni am greu Gwent tecach, mwy cyfiawn a chynhwysol i bawb.*
2. *Rydym ni am weld Gwent sy'n barod ar gyfer yr hinsawdd, lle mae ein hamgylchedd yn cael ei werthfawrogi a'i ddiogelu, gan fod o fudd i'n lles nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol..*

Pum cam allweddol:

- *Gweithredu i leihau'r argyfwng costau byw yn y tymor hwy.*
- *Darparu a galluogi cyflenwi cartrefi o ansawdd da, fforddiadwy, priodol.*
- *Cymryd camau i leihau ein hallyriadau carbon, helpu Gwent i addasu i newid hinsawdd, a diogelu ac adfer ein hamgylchedd naturiol.*
- *Galluogi a chefnogi pobl, cymdogaethau, a chymunedau i fod yn wydn, wedi'u cysylltu, yn ffyniannus ac yn ddiogel.*
- *Gweithredu i fynd i'r afael ag annhegwch, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd, trwy fframwaith* Egwyddorion Marmot.

I gynorthwyo'r BGC i fynd i'r afael â'r lefelau uchel o anghydraddoldeb ledled Gwent, mae wedi dechrau gweithio gyda'r Sefydliad Tegwch Iechyd, gan ddefnyddio egwyddorion arweiniol a nodwyd yn adolygiad yr Athro Marmot, ***Fair Society, Healthy Lives***, er mwyn sicrhau mwy o degwch iechyd. Ers yr adolygiad gwreiddiol, mae dwy egwyddor arall wedi cael eu nodi, fel rhai sy'n bwysig i wella iechyd.

8 Egwyddor Marmot:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1. Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn** | **2. Galluogi'r holl blant, pobl ifanc, ac oedolion i gynyddu eu galluoedd i'r eithaf a bod â rheolaeth dros eu bywydau.** | **3. Creu cyflogaeth deg a gwaith da i bawb.** | **4. Sicrhau safon byw iach i bawb.** |
| **5. Creu a datblygu lleoedd a chymunedau iach a chynaliadwy.** | **6. Cryfhau rôl ac effaith gwaith i atal afiechyd.** | **7. Mynd i'r afael â hiliaeth, gwahaniaethu, a'u deilliannau.** | **8. Mynd ar drywydd cynaliadwyedd amgylcheddol a thegwch iechyd gyda'i gilydd.** |



Cynhaliwyd dau weithdy wedi'u hwyluso ar gyfer rhanddeiliaid yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth i adnabod, a gwirio synnwyr y dulliau gorau i alluogi proses o weithredu newid ac i wneud y gorau o adnoddau cyhoeddus, er mwyn cyflawni'r deilliannau llesiant gorau posibl ar gyfer cymunedau Gwent. Mae arweinwyr partneriaid ar gyfer grwpiau llywio cydweithredol hefyd wedi cael eu hadnabod i oruchwylio gwaith y BGC ac arwain meysydd ffocws penodol.

Er mwyn cefnogi amcanion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent ar lefel leol, mae grwpiau Cyflawni Lleol wedi cael eu ffurfio yn ardaloedd pob un o'r pum awdurdod lleol. Mae Partneriaeth Llesiant Leol (PLlL) Blaenau Gwent yn cynnwys swyddogion sydd â gorchwyl i adnabod blaenoriaethau llesiant lleol ar gyfer Blaenau Gwent a mynd i'r afael â'r materion hyn trwy ymdrechion cydweithredol, yn unol â Chynllun Llesiant Gwent. Ar wahân i gynnal cyfarfodydd chwarterol, trefnwyd gweithdai ac is-grwpiau pwnc-benodol trwy gydol y flwyddyn.

Yn ystod 2023/24, cynhaliodd y Bartneriaeth Llesiant Leol nifer o weithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid i alluogi rhanddeiliaid lleol ac isranbarthol i weithio mewn partneriaeth i fyfyrio ar y llwyddiant, rhwystrau a heriau ar gyfer prosiectau a rhaglenni llesiant lleol presennol. Fe wnaeth y dystiolaeth a gasglwyd trwy'r gweithdai hyn, yn ogystal â dull deilliannau a arweinir gan ddata, alluogi'r Bartneriaeth Llesiant Leol i ddatblygu cynllun gweithredu llesiant lleol sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau rhanbarthol a ddaeth allan o'r gwaith i ddatblygu Cynllun Llesiant Gwent, yn seiliedig ar feysydd ffocws lleol gan gynnwys teithio a thrafnidiaeth, hinsawdd a natur, bwyd a lleihau anghydraddoldebau, a gwirfoddoli.

Mae gwaith bellach yn mynd rhagddo i adnabod arweinwyr i oruchwylio, monitro a chydlynu'r broses o gyflawni'n lleol yn erbyn y blaenoriaethau llesiant lleol. Mae hyn hefyd yn cynnwys parhau i adnabod cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd i lunio llesiant lleol a sicrhau bod meysydd ffocws yn ymateb i'r hyn sydd bwysicaf i'n cymunedau.

Mae hwn yn faes gwaith allweddol i Flaenau Gwent gan bod gan ein trigolion un o'r lefelau isaf o incwm gwario yn y wlad (dyna y mae ffigyrau 2022 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ei ddangos). Incwm gwario yw'r swm o arian sydd ar gael i bobl ei wario neu ei gynilo ar ôl trethi a chyfraniadau cymdeithasol. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif bod gan drigolion Blaenau Gwent oddeutu £15,568 yr un mewn incwm gwario yn 2022 - un o'r lefelau isaf yn y DU. Yn awr yn fwy nag erioed mae angen mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb a welir ledled y rhanbarth.



# Hunanasesiad Blynyddol Blaenau Gwent 2023/24

Mae Cyngor Blaenau Gwent yn amcanu at weithredu fel sefydliad sy'n hunanwella, lle cydnabyddir yr hyn sydd wedi mynd yn dda ond, ac yn bwysicaf oll, lle cydnabyddir lle mae gwelliannau i'w gwneud. Mae'r Cyngor yn gweithio i ymateb i'r cwestiynau canlynol yn y gwaith y mae'n ei wneud:

- **A yw'r Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol?**
- **A yw'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol?**
- **A yw trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn effeithiol ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus?**

Mae ein Hunanasesiad yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed trwy gydol 2023/24 ac fe'i hysgrifennwyd i ystyried:

- **Pa mor dda ydyn ni'n gwneud? Naratif o'r gweithgarwch sydd wedi digwydd;**
- **Sut ydyn ni'n gwybod? Darparu tystiolaeth ansoddol a meintiol; a**
- **Beth allwn ni ei wneud a sut allwn ni wneud yn well? Camau gweithredu i'w rhoi ar waith dros y blynyddoedd nesaf.**

Ffocws yr Hunanasesiad Blynyddol yw blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol Cyngor Blaenau Gwent, a elwir yn Amcanion Llesiant, a darparu asesiad o ba mor dda y mae'r Cyngor yn teimlo ei fod wedi cyflawni yn erbyn y rhain yn ystod 2023/24 a'r heriau i symud y rhain yn eu blaenau.

Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol 2022/27 yw:

- **Cynyddu dysgu a sgiliau i bawb er mwyn creu Blaenau Gwent lewyrchus, ffyniannus a chadarn;**
- **Ymateb i'r argyfwng natur a hinsawdd a galluogi cymunedau cysylltiedig;**
- **Cyngor uchelgeisiol ac arloesol sy'n darparu gwasanaethau o safon ar yr amser iawn ac yn y lle iawn; a**
- **Grymuso a chefnogi cymunedau i fod yn ddiogel, annibynnol a gwydn.**

Mae'r amcanion hyn yn rhai i'w cyflawni gan y Cyngor yn y tymor canolig a hir ac felly ni fyddant yn cael eu gweithredu'n llawn o fewn yr amserlen fer hon. Mae'r Hunanasesiad yn darparu asesiad o ddarparu gwasanaethau trwy gydol 2023/24 sy'n cyfrannu at yr amcanion hyn. Mae asesiadau manwl o ddarparu gwasanaethau wedi'u cynnwys drwy'r ddogfen ar dudalennau 20 i 68.

Cyhoeddir yr Hunanasesiad yn flynyddol i roi cyfrif am sut y mae'r Cyngor wedi gweithredu dros y flwyddyn gan gynnwys yr hyn yr ydym wedi'i wneud yn dda ac, yn bwysicach, ble y mae angen cynnydd pellach.

O dan bob Amcan Llesiant ceir cynllun cyflawni blynyddol a ategir gan gynlluniau busnes gweithredol. Ar y cyfan, ar gyfer 2023/24, mae'r rhan fwyaf o gamau gweithredu, sy'n cyfrannu at yr Amcanion Llesiant, wedi cael eu cyflawni; fodd bynnag, rydym yn cydnabod yn llawn bod gennym nifer o heriau y mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â hwy a bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i gyrraedd pob un o'n nodau hirdymor yn llawn.

## Cynyddu dysgu a sgiliau i bawb er mwyn creu Blaenau Gwent lewyrchus, ffyniannus a chadarn

Mae'r Amcan Llesiant hwn yn ceisio cynyddu cydnerthedd yn y gymuned trwy ddarparu addysg a sgiliau o ansawdd da i gefnogi economi ffyniannus o'r crud ymlaen, gan leihau dibyniaeth a chynyddu annibyniaeth i'r eithaf.

Trwy gydol 2023/24 mae'r Cyngor wedi cyflawni mewn nifer o feysydd allweddol gyda rhai gwendidau; fodd bynnag, mae'r Cyngor yn teimlo bod y cyflawniadau'n gorbwyso'r gwendidau.



Mae perfformiad ein pobl ifanc yng Nghyfnod Allweddol 4 yn dangos gwaith caled ein disgyblion ac ansawdd da’r dysgu a’r addysgu ar draws ysgolion yn glir. Adlewyrchwyd hyn hefyd yn arolygiadau Estyn o 6 o'n hysgolion yn ystod y cyfnod, lle chafodd yr un ysgol ei rhoi mewn categori statudol.

Mae'r niferoedd isel iawn o bobl ifanc Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) yn dangos bod bron pob un o'n dysgwyr wedi parhau mewn addysg uwch neu hyfforddiant, neu wedi mynd ymlaen i sicrhau cyflogaeth ar ôl gadael yr ysgol ar ddiwedd blwyddyn 11.

Mae'n braf iawn gweld bod Ysgol Sefydledig Brynmawr wedi parhau i fynd o nerth i nerth ac nad ydynt yn ysgol sy'n peri pryder mwyach; fodd bynnag, mae un ysgol yn dal i fod yn ysgol sy’n peri pryder, sef Canolfan yr Afon. Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i roi cymorth estynedig i Ganolfan yr Afon, er mwyn ei chynorthwyo i gael ei thynnu o gategori Estyn.

Bu cynnydd mewn presenoldeb eleni, ond mae’r ffigyrau’n dal heb ddychwelyd at y lefelau cyn y pandemig, felly bydd parhau i wella presenoldeb mewn ysgolion yn flaenoriaeth allweddol i'r Awdurdod Lleol ym mlwyddyn academaidd 2024/25. Byddwn yn cynnal ymgyrch #maepobdyddyncyfri.

Mae ysgolion wedi gweithio'n galed i sefydlu cymorth ar gyfer dysgwyr sydd mewn perygl o gael eu gwahardd, boed am gyfnod penodol neu’n barhaol, ac mae'r gwasanaeth ieuenctid hefyd wedi rhoi cymorth allweddol. Bu gostyngiad mewn gwaharddiadau, ond maent yn dal i fod yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig ac mae lleihau gwaharddiadau ymhellach yn dal i fod yn flaenoriaeth i'r Awdurdod Lleol.

Gwelwyd y fenter STEM yn cael ei hehangu yn yr ardal, a hithau’n rhoi cymorth ar draws nifer o ysgolion, gan godi dyhead a pharatoi plant ar gyfer eu taith i mewn i fyd gwaith.

Mae'r Cyngor wrthi'n gweithio’n frwd gyda'r sector preifat i ddarparu cyfleoedd i ddod â mwy o swyddi i’r ardal a’r rheiny’n swyddi sy'n talu'n dda. Mae denu cwmnïau a diwydiannau i Flaenau Gwent yn un o flaenoriaethau allweddol y Cyngor. Yn ystod y cyfnod agorodd y Cyngor hyb menter (Goldworks) ac mae'r mewnfuddsoddiad gan Ciner yn dal i fod yn brosiect targed ar gyfer yr ardal. Bu cynnydd hefyd yn incwm ein portffolio diwydiannol, ac mae hyn oll wedi cyfrannu at wella safle Blaenau Gwent ym Mynegai Cystadleuol y DU.

Yn 2023/24, dechreuodd y gwaith adeiladu ar y Safle Peirianneg Gwerth Uchel (HiVE) i greu cyfleuster addysg ôl-16 uwchdechnoleg newydd gwerth miliynau o bunnoedd yng Nglyn Ebwy. Bydd y cyfleuster yn darparu hyfforddiant ac addysg o'r radd flaenaf i bobl ifanc a busnesau ym meysydd roboteg, deunyddiau uwch, gweithgynhyrchu a digidol, a thechnolegau galluogi. Fodd bynnag, yn 2024/25 aeth y cwmni a oedd yn gyfrifol am addasu’r hen ffatri i greu’r cyfleuster i ddwylo'r gweinyddwyr gan arwain at derfynu'r contract sydd wedi effeithio ar ddyddiad cwblhau’r prosiect hwn a phrosiectau eraill.

### Ymateb i’r argyfwng natur a hinsawdd a galluogi cymunedau cysylltiedig

Mae’r Amcan Llesiant hwn wedi’i fwriadu i leihau allyriadau carbon, a darparu amgylchedd sy'n cefnogi twf a llesiant ac sy'n cysylltu cymunedau.

Trwy gydol 2023/24 bu'r Cyngor yn gweithio i fynd i'r afael â nifer o feysydd ond mae ganddo hefyd nifer o heriau i fynd i'r afael â hwy wrth edrych tua’r dyfodol.



Ers 2019 mae'r Cyngor wedi bod yn mynd y tu hwnt i darged Llywodraeth Cymru ar gyfer ailgylchu. Mae hwn wedi bod yn ddarlun sy'n gwella dros y blynyddoedd hyn ac mae'r data hwn yn dangos, o'n cymharu â chynghorau eraill yng Nghymru, ein bod yn perfformio'n dda. Fodd bynnag, y flwyddyn nesaf bydd y targed yn cynyddu i 70% a bydd cyrraedd hwn yn anodd iawn. Mae dadansoddiad wedi cael ei wneud ar faint o wastraff gweddilliol (mewn bagiau duon) a gesglir ac o ba ardaloedd ledled y fwrdeistref i gefnogi ymgyrch wedi'i dargedu ar draws y fwrdeistref i hybu lefelau ailgylchu uwch. Bydd ar y Cyngor angen cefnogaeth ac ymrwymiad  gan y gymuned a busnesau lleol fel y gellir cyflawni'r lefelau uwch o ailgylchu gyda'n gilydd. Os na fydd targed Llywodraeth Cymru yn cael ei gyrraedd, bydd cosbau ariannol yn cael eu rhoi a fydd yn eu tro yn effeithio ar gyllid y Cyngor.

Mae sut y mae'r Fwrdeistref yn edrych, a chyflwr ein hamgylchedd, yn faes allweddol sydd o ddiddordeb i'n cymunedau. Gwelwyd gostyngiad mewn tipio anghyfreithlon eleni o'i gymharu â'r llynedd a gellir priodoli hyn i'n gweithgarwch gorfodi cynyddol. Fodd bynnag, rydym yn dal i gael ein hysbysu am dros 900 o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon, y mae angen i'r Cyngor eu glanhau i gyd a'u gwaredu. Mae hyn eto yn cael effaith enfawr ar gyllideb y Cyngor.

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda'r gymuned i wneud yr amgylchedd yn lle pleserus a glân trwy annog pobl i waredu ac ailgylchu'n gywir.

Mae datgarboneiddio a gweithio tuag at allyriadau carbon isel yn faes allweddol i'r Cyngor. Mae'r gwaith o ran datgarboneiddio eiddo'r Cyngor yn her barhaus oherwydd oedran a chyflwr presennol llawer o'n heiddo a'r diffyg adnoddau i allu mynd i'r afael â'r meysydd hyn yn llawn. Mae newidiadau yn ein hallyriadau carbon a fesurir yn uniongyrchol yn dangos bod gostyngiad o 3% wedi bod yn yr allyriadau hyn o'i gymharu â'r llynedd a gostyngiad cronnus o 19% dros y pedair blynedd o'i gymharu â'n llinell sylfaen yn 2019/20. Mae'r Cyngor wedi datblygu Cynllun Datgarboneiddio 10 mlynedd ac mae nifer o fentrau a chamau gweithredu i'w cyflawni dros y blynyddoedd nesaf i gefnogi'r agenda hanfodol hon.

### Grymuso a chefnogi cymunedau i fod yn ddiogel, annibynnol a gwydn

Mae'r Amcan Llesiant hwn yn ceisio cynyddu cydnerthedd cymunedau, lle mae croeso i bawb a lle mae pawb yn ddiogel, ac sy'n lleihau dibyniaeth ac yn cynyddu annibyniaeth i'r eithaf.

Trwy gydol 2023/24 mae hwn wedi bod yn faes allweddol i'r Cyngor ac mae llawer o waith wedi cael ei wneud i fynd i'r afael â'r amcan hwn ond mae heriau sylweddol yn dal i fodoli yn y tymor hwy i fynd i'r afael â'r cynnydd a ragwelir yn y galw am wasanaethau, o ganlyniad i'r newidiadau demograffig a ragwelir.

Nod y cyngor yw defnyddio dull ataliol a datblygu strategaethau ymyrryd yn gynnar i sicrhau bod anghenion y gymuned yn cael eu diwallu ar y cyfle cynharaf, trwy ddarparu'r gwasanaethau cywir i atal anghenion rhag gwaethygu.

Bu cynnydd yn y galw ac mewn cymhlethdod ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r timau Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy wedi bod yn cael mwy o gysylltiadau ac atgyfeiriadau. Mae Blaenau Gwent hefyd yn profi cynnydd yn ei phoblogaeth sy'n heneiddio ochr yn ochr â gostyngiad yn y gyfradd genedigaethau a nifer y bobl o oedran gweithio. Mae'r ddemograffeg newidiol hon yn darparu sefyllfa anodd i'r Cyngor o ran rheoli angen a allai gynyddu dros y blynyddoedd sydd i ddod. Fodd bynnag, ar gyfer 2023/24 mae nifer yr oedolion agored i niwed a gefnogir gan wasanaethau ataliol ac nad oes angen cymorth tymor hwy arnynt wedi aros yn gymharol sefydlog ond cydnabyddir bod mwy i'w wneud yn y maes hwn wrth i ni ymdrechu i ddarparu mwy o ddatrysiadau ailalluogi ac ataliol i ddiwallu anghenion ein hoedolion agored i niwed mewn modd cymesur.



Mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad o'i wasanaethau Darparwyr mewnol gan gynnwys darpariaeth breswyl a byw â chymorth. Mae hyn wedi ymgorffori argymhellion o arolygiadau AGC yn ystod 2023/24 gyda'r nod o ddarparu mwy o ddarpariaeth sy'n canolbwyntio ar deilliannau a darpariaeth ailalluogi sydd wedi'i hintegreiddio'n well o fewn cymunedau lleol. Mae'r gwaith hwn yn parhau i mewn i 2024/25 wrth i strwythurau staffio, cyllidebau, costau, a'r potensial i optimeiddio datrysiadau digidol fel rhan o'r ddarpariaeth gofal gael eu hadolygu.

Bu cynnydd yn nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant yn yr ardal o'i gymharu â'r llynedd, felly bydd hwn yn faes ffocws wrth edrych tua'r dyfodol. Bydd gwaith yn cael ei wneud yn ystod 2024/25 i fynd ati'n well i reoli'r galw wrth y drws blaen, a bydd y deilliannau a gyflawnir gan ein gwasanaethau ataliol yn cael eu hasesu.

O'i gymharu â'r llynedd, rydym wedi gwella ar nifer y tai fforddiadwy a ddarparwyd, gan gynyddu'r nifer o 4 yn 2022/23 i 25 yn 2023/24 yn ogystal â lleihau'r nifer ar ein cofrestr tai cymdeithasol, a chyflawni gwelliant sylweddol o ran faint o waith mewn perthynas â'r grant cyfleusterau i'r anabl a gwblhawyd gennym. Fodd bynnag, mae'r ardal wedi gweld cynnydd ym maint digartrefedd o'i gymharu â'r llynedd. Mae hyn yn bryder cynyddol i'r ardal gan bod atal digartrefedd yn dal i fod yn anodd oherwydd diffyg parhaus llety symud ymlaen yn y sectorau tai preifat a chymdeithasol, ynghyd â'r ffaith bod cleientiaid yn dod at y Cyngor pan ydynt eisoes mewn argyfwng. Mae'n rhaid defnyddio llety gwely a brecwast a bu cynnydd yn hyn o beth a hynny y tu hwnt i darged y Cyngor. Mae hyn yn amlygu'r pwysau a'r diffyg tai cymdeithasol / preifat sydd ar gael i gefnogi teuluoedd. Bydd hwn yn faes gwaith allweddol yn 2024/25 a'r tu hwnt.

**Cyngor uchelgeisiol ac arloesol sy'n darparu gwasanaethau o safon ar yr amser iawn ac yn y lle iawn**

Mae'r Amcan Llesiant hwn yn rhoi ffocws i'r Cyngor weithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da i ddiwallu anghenion lleol, a gwella ansawdd bywyd a llesiant yn y gymuned.

Trwy gydol 2023/24 gwnaed cynnydd digonol yn erbyn yr Amcan Llesiant hwn gyda'r cyflawniadau'n gorbwyso'r heriau ond gan nodi bod rhai o'r camau gweithredu ar ei hôl hi o'i gymharu â'r amserlen neu'n methu â chyrraedd y nod.

Mae cyllid yn her allweddol a pharhaus i'r Cyngor. Dros y blynyddoedd mae cyllideb Blaenau Gwent wedi gostwng tua £40 miliwn, gyda gostyngiad ychwanegol o £8.5m yn ofynnol ar gyfer 2024/25 a £6m ar gyfer 2025/26, a gofyn dod o hyd i £25m o arbedion ychwanegol o bosibl dros y 4 blynedd nesaf. Er mwyn ymateb i'r heriau hyn, rhaid i ni feddwl am y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau i leihau costau, a sut y gallwn greu incwm. Gall hyn olygu bod yn rhaid i ni leihau, newid neu atal rhai gwasanaethau neu ystyried modelau darparu amgen.

Ochr yn ochr â hyn mae perygl y bydd balansau ysgolion yn cael eu disbyddu erbyn mis Mawrth 2025, ac y bydd llawer o'n hysgolion mewn diffyg. Bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gydag ysgolion i'w cynorthwyo i baratoi cynlluniau lleihau diffyg ac i adnabod arbedion effeithlonrwydd ariannol.


Bydd angen i'r Cyngor weithio'n fwy mewn partneriaeth gyda mwy o randdeiliaid (gan gynnwys ein cymunedau) yn y dyfodol gan ei bod yn debygol na fyddwn yn gallu darparu'r un faint o wasanaethau na darparu gwasanaethau ar yr un raddfa ag a wneir ar hyn o bryd, a bydd angen i ni weithio gyda phartneriaid er mwyn i wasanaethau gael eu darparu y tu allan i'r Cyngor.

Fel gyda phob sefydliad, mae llywodraethu'n allweddol ac yn sicrhau bod y Cyngor yn gweithio o fewn gofynion cyfreithiol ac yn unol â'i bolisïau ei hun. Mae gennym nifer o bolisïau, strategaethau a threfniadau sy'n sicrhau ein bod yn gwybod beth rydym yn ei wneud a pham, gan gynnal busnes mewn modd agored, tryloyw ac atebol, a chan gynnal egwyddorion llywodraethu a gwasanaeth cyhoeddus da. Mae'r adroddiadau archwilio allanol a gawsom dros y flwyddyn wedi cynnwys rhai argymhellion sy'n ymwneud â gwasanaethau ond, ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf wedi cydnabod ein bod wedi gwneud gwelliannau, ac rydym yn ymwybodol ble y mae angen gwneud newidiadau.



# Amcan Llesiant 1

## *Cynyddu dysgu a sgiliau i bawb er mwyn creu Blaenau Gwent lewyrchus, ffyniannus a chadarn*





**Pam Fod Hyn yn Bwysig fel Maes Ffocws -** Mae gwella ansawdd a darpariaeth dysgu ac addysgu'n hanfodol bwysig i sicrhau bod y gwasanaeth yn cyflawni deilliannau uchelgeisiol i bawb. Bydd y Cyngor yn parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau i gefnogi datblygu economaidd ac adfywio er mwyn darparu cyfleoedd i bobl a busnesau lleol.

**Yr Hyn yr Ydym yn Anelu at ei Gyflawni –** Cynnydd yng nghydnerthedd y gymuned, gan ddarparu cyfleoedd addysgol a sgiliau o ansawdd da i greu economi ffyniannus o'r crud ymlaen, gan leihau dibyniaeth a chynyddu annibyniaeth i'r eithaf. Mae'r awdurdod yn anelu at sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, gan eu galluogi i dyfu'n oedolion ffrwythlon sy'n byw bywyd iach a boddhaus a hwythau'n cyfrannu at gymdeithas ac yn dod yn rhan werthfawr o'u cymuned.

Mae'r naratif canlynol yn rhoi adlewyrchiad gwerthusol o'r gweithgarwch, a gyflawnwyd trwy gydol 2023/24, ar draws meysydd gwasanaeth sy'n cefnogi'r Amcan Llesiant hwn yn uniongyrchol. Mae'r naratif yn adlewyrchu'r hyn sydd wedi mynd yn dda ond hefyd, ac yn bwysicach na hynny, ble'r ydym yn profi heriau. Mae'r heriau hyn wedyn wedi cael eu coladu ar ddiwedd pob adran. Bydd y meysydd hyn yn cael eu nodi fel meysydd ffocws wrth edrych tua'r dyfodol a byddwn yn adrodd arnynt fel rhan o'n Hunanasesiad nesaf, yn ogystal â gwaith monitro perfformiad trwy gydol y flwyddyn.

### Addysg ac Ysgolion

Mae Blaenau Gwent yn ardal ddaearyddol gymharol fach, gydag uchelgeisiau mawr ar gyfer ein hysgolion a'n dysgwyr. Rydym yn benderfynol o chwarae ein rhan mewn gwneud system addysg Cymru'n un o'r radd flaenaf gydag uchelgais clir i gynyddu sgiliau a safonau addysg ledled y fwrdeistref. Rydym yn llwyr gefnogi ac yn ymrwymedig i genhadaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer trawsnewid addysgol, gan gynnwys diwygio'r Cwricwlwm ac ADY.




Mae gan Flaenau Gwent 25 o ysgolion ar draws 31 o safleoedd ysgolion ac ar hyn o bryd mae tua 9,000+ o ddisgyblion ar y gofrestr ar draws holl ysgolion Blaenau Gwent. Gweledigaeth y Gyfarwyddiaeth Addysg yw 'Grymuso ein cymunedau'. Mae'r ffocws ar gynorthwyo ein cymunedau i fod yn 'ddysgwyr gydol oes uchelgeisiol, egwyddorol a gwybodus, sy'n byw bywydau llawn ac iach'.


Mae Cynllun y Gweithlu Addysg 2021-26 yn cyfrannu at y datganiad o ddiben trwy flaenoriaethu gweithgarwch strategol a gweithredol allweddol i gefnogi'r gweithlu ar bob lefel. Mae'r cynllun yn ymdrin â'r tair prif agwedd ar y gwasanaethau craidd a ddarperir gan y Gyfarwyddiaeth, sef: Gwella Ysgolion a Chynhwysiant; Trawsnewid Addysg a Newid Busnes; a Phobl ifanc a Phartneriaid.


Rydym yn cynorthwyo plant a phobl ifanc i fod mewn sefyllfa dda i ddod o hyd i sgiliau a chyflogaeth ar yr adegau priodol ac mae ein ffigyrau ar gyfer y rhai Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant yn dangos ein cyflawniadau yn y maes hwn.





## Deilliannau Addysgol


Roedd canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 (CA4) Haf 2023 yn gadarnhaol ac yn unol â thargedau'r Cynlluniau Datblygu Ysgol a bennwyd gan y 4 lleoliad uwchradd. Roedd gwelliannau mewn 23 allan o 24 mesur allweddol ar draws y 4 lleoliad uwchradd. Mae rhai enghreifftiau i'w gweld isod:









*(Sylwer: dim ond ar gyfer 2019 a 2023 y dangosir data i'w gymharu oherwydd bod y broses reolaidd o gasglu data wedi cael ei hatal dros dro)*

## Presenoldeb a gwaharddiadau

Yn flynyddol mae presenoldeb mewn ysgolion yn dangos cynnydd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae'r ffigyrau presenoldeb ym Mlaenau Gwent yn adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol. Fe wnaeth achosion o waharddiadau a'r nifer a gafodd waharddiadau cyfnod penodol yn ystod y flwyddyn, a roddwyd mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal, ostwng o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Y prif reswm o hyd dros roi gwaharddiadau yw tarfu parhaus yn enwedig mewn perthynas â disgyblion oedran uwchradd. Mae'r data gwaharddiadau'n dangos gostyngiad, ond mae'r lefelau'n uwch nag oeddent cyn Covid. Fe wnaeth 16 ysgol gynradd roi gwaharddiadau eleni o'i gymharu ag 14 ysgol ar gyfer yr un cyfnod y llynedd. Er bod nifer y gwaharddiadau'n uwch mewn ysgolion cynradd eleni, bu gostyngiad yn nifer y diwrnodau a gollwyd, sy'n golygu bod ysgolion yn rhoi gwaharddiadau am gyfnodau byrrach. Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn cydweithio'n agos gyda'r ysgolion hynny i gefnogi ymyrraeth gynnar i leihau gwaharddiadau ymhellach.




| | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| secondary | 93.4 | 91.7 | 84.8 | 84.8 | 85.5 | 86.6 |
| primary | 94.3 | 93.5 | 93.5 | 90.8 | 90.4 | 90.7 |



| Dadansoddiad data | Nifer y Gwaharddiadau (gostyngiad) | Diwrnodau o Waharddiad (gostyngiad) | Gwaharddiadau Parhaol (cynnydd) |
|---|---|---|---|
| Uwchradd | -320 | -564 | 0 |
| Cynradd | 24 | -65.5 | 1 |
| Ysgolion Arbennig | 0 | -21.5 | 0 |
| **Cynnydd / Gostyngiad** | **-296** | **-651** | **1** |

Bu cynnydd yn nifer y gwaharddiadau mewn un Ysgol Arbennig ond gostyngiad yn y dyddiau a gollwyd. Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn gweithio gyda'r ysgol i ystyried pa gymorth ellir ei roi i fynd i'r afael â'r rhesymau y tu ôl i waharddiadau. Y 3 phrif reswm dros waharddiadau ar draws pob lleoliad yw tarfu’n barhaus (454), cam-drin geiriol/ymddygiad bygythiol yn erbyn oedolyn (244), ac ymosodiad corfforol yn erbyn disgybl (128). Wrth ddadansoddi data gwaharddiadau, byddai'n bwysig ystyried y gall ymwneud â nifer fach o ddysgwyr a waharddwyd fwy nag unwaith.

Mae gweithio gyda'n hysgolion a'n cymunedau i wella presenoldeb yn flaenoriaeth graidd i'r Gyfarwyddiaeth Addysg. Mae'r Cyngor yn cynnal ymgyrch yn y cyfryngau eleni #maepobdiwrnodyncyfri i amlygu pwysigrwydd presenoldeb da ac i gyfeirio teuluoedd at gymorth. Cyflwynodd y Cyngor lwybr presenoldeb ym mis Medi 2023 ac mae'r ysgolion hynny sydd wedi gweithredu pob agwedd ar y llwybr wedi gweld cynnydd yn eu cyfraddau presenoldeb. Bydd y Tîm Lles Addysg yn parhau i gynorthwyo pob ysgol i ddefnyddio'r Llwybr Presenoldeb yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Bydd y Tîm Lles Addysg hefyd yn parhau i weithio'n agos gydag ysgolion eleni, gan gyflawni gweithgareddau wedi'u cynllunio fel ymweld â theuluoedd i'w cefnogi lle ceir pryderon ynghylch presenoldeb.

### Ysgolion sy’n peri pryder

Ar ddechrau blwyddyn academaidd 2023/24, roedd dwy ysgol mewn categori, sef Ysgol Sefydledig Brynmawr a Chanolfan yr Afon. Yn dilyn ymweliad monitro llwyddiannus, tynnwyd Ysgol Sefydledig Brynmawr allan o gategori ym mis Rhagfyr 2023. Mae Canolfan yr Afon yn dal i fod mewn categori ac yn cael cymorth estynedig gan yr Awdurdod Lleol a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA).

Yn dilyn arolygiad yn nhymor yr haf, mae gweithredu dilynol gan Estyn yn ofynnol ar gyfer Ysgol Gynradd Bryn Bach. Nid yw hyn yn gosod yr ysgol mewn categori Estyn. Yn hytrach, bydd Estyn yn ailymweld â'r ysgol tua blwyddyn ar ôl yr arolygiad gwreiddiol er mwyn i'r ysgol ddarparu tystiolaeth a sicrwydd ar gyfer Estyn bod yr ysgol yn parhau i ddatblygu yn unol â'i blaenoriaethau gwella ysgol.

### Cymhwystra i gael Prydau Ysgol Am Ddim (cPYADd)

Mae Blaenau Gwent yn gyson wedi bod ymhlith yr Awdurdodau Lleol â’r niferoedd uchaf o ddisgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, o'i gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru. Roedd yn ymddangos bod y niferoedd wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod Covid, o ganlyniad i anomaledd yn y broses a ddefnyddid i gofnodi statws. Mae'r niferoedd wedi dychwelyd i'r lefelau cyn Covid.

| Dangosydd | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwystra i PYADd | 25.5% | 31.4% | 33.3% | 24.6% | 24.1% |

Mae lefelau cyfredol y disgyblion sy’n gymwys i gael PYADd yn golygu mai Blaenau Gwent sydd â’r 6ed lefel uchaf ymhlith yr awdurdodau yng Nghymru. Ymddengys fod hyn yn gwrthdaro â mesurau eraill o amddifadedd, sydd wedi arwain at drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch gwerth cPYADd fel mesur cywir o amddifadedd.



### Disgyblion sy'n Cael Addysg Ddewisol yn y Cartref

Bu cynnydd yn nifer y plant sy'n cael eu haddysgu gartref ym Mlaenau Gwent dros y blynyddoedd diwethaf. Mae disgyblion sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref yn parhau i gael eu cefnogi gan y Gwasanaeth Lles Addysg; fodd bynnag, mae angen monitro hyn yn fanwl yn y dyfodol i sicrhau bod nifer yr ymweliadau'n cynyddu yn unol â'r ffigyrau. Mae158 o ddisgyblion ar y gronfa ddata addysg ddewisol yn y cartref ar hyn o bryd (31/08/24) o'i gymharu â 143 ar gyfer yr un cyfnod y llynedd. Mae hyn yn gynnydd o 10.5%. Mae 27 o'r disgyblion hyn yn dod o'r Gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr (SRTh).

### Plant sy'n Derbyn Gofal (CLA)

Ar ddiwedd mis Mawrth 2024, roedd 203 o blant yn derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol. Er y bu gostyngiad bach dros y flwyddyn, mae'r nifer yn dal i fod yn uchel. Fe wnaeth cyfanswm o 17 (13%) o blant sy'n derbyn gofal (CLA) brofi o leiaf un symudiad ysgol nad oedd yn gysylltiedig â chyfnod pontio yn ystod 2022-2023. Mae hyn yn gynnydd o'i gymharu â'r flwyddyn academaidd flaenorol pan oedd y ffigwr yn 8 o blant. Mae cysondeb addysg yn dal i gael ei ystyried fel rhan o'r broses baru pan fydd plentyn sy'n derbyn gofal yn symud lleoliad. Darperir cludiant lle y bo angen er mwyn sicrhau sefydlogrwydd addysg. Pan fydd yn rhaid i blentyn symud ysgol, mae prosesau ar waith i sicrhau bod oedi cyn derbyn yn cael ei osgoi, lle bynnag y bo'n bosibl.

Ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2022/23:

- Roedd 136 o blant o oedran ysgol statudol yn derbyn gofal gan awdurdod lleol Blaenau Gwent. Mae hyn yn ostyngiad pellach o'i gymharu â'r flwyddyn academaidd flaenorol pan oedd 142 o blant;
- Mae'r mwyafrif o blant yn parhau i gael eu haddysgu ym Mlaenau Gwent ac yn mynychu ysgolion prif ffrwd gyda chyfran fechan yn mynychu lleoliadau addysg mwy arbenigol;
- Bu cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal sy'n cael mynediad at leoliadau mewn ysgolion arbennig a gynhelir gan yr awdurdod lleol; cyfanswm o 11 yn 2022/23, o'i gymharu â 9 yn 2021/22;
- Bu gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal sy'n mynychu ysgolion annibynnol y tu allan i Flaenau Gwent; cyfanswm o 3 yn 2022/23, o'i gymharu â 7 yn 2021/22;
- Enillodd bron pob dysgwr gymwysterau cydnabyddedig ar ddiwedd eu hastudiaethau ysgol statudol gyda'r mwyafrif bellach mewn cyfleoedd addysg a/neu hyfforddiant ôl-16; a hefyd
- Cychwynnwyd 88% o Gynlluniau Addysg Personol ar gyfer plant a letywyd o'r newydd o fewn amserlenni statudol. Mae hyn yn welliant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol pan oedd y ffigwr yn 54%. Ni chychwynnwyd 3 chynllun o fewn 10 diwrnod. Roedd hyn o ganlyniad i'r ffaith bod y dysgwyr yn Blant ar eu Pen eu Hunain yn Ceisio Lloches nad oeddent yn yr ysgol ar yr adeg a daethant yn blant sy'n derbyn gofal. Ers hynny, mae'r 3 dysgwr wedi cael eu derbyn i ysgolion ac mae ganddynt gynlluniau addysg.

### Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae'r Cyngor ar y trywydd iawn i gwblhau gwaith i roi'r newidiadau o ganlyniad i ddiwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar waith; Awst 2025 yw'r dyddiad terfyn, sy'n cynnwys y flwyddyn o estyniad a roddwyd gan y Gweinidog. Mae'r dyletswyddau ychwanegol a osodir ar Awdurdodau Lleol yn cynnwys ADY yn y Blynyddoedd Cynnar ac mewn addysg Ôl-16. Mae Polisi ADY newydd wedi cael ei roi ar waith ym Mlaenau Gwent ar gyfer 23/24, sy'n cynnwys dogfen Canllaw a Phroses ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar. Mae Swyddog y Blynyddoedd Cynnar yn gweithio ar y cyd ac ar draws cyfarwyddiaethau gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn allanol gyda'r Gwasanaeth Iechyd a lleoliadau'r Blynyddoedd Cynnar i sicrhau bod anghenion yn cael eu hadnabod mewn modd amserol a bod cymorth yn cael ei roi cyn gynted â phosibl.

Mae'r holl ganolfannau adnoddau ADY cyfredol, ac eithrio dwy, yn llawn hyd eithaf eu capasiti ac mae ganddynt restrau aros. Amlygodd arolwg diweddar Estyn (2022), *'(Wrth gynllunio) darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ni ddefnyddir data yn ddigon effeithiol bob amser i lywio cynllunio hirdymor'*. Felly, mae'r Timau Trawsnewid a Chynhwysiant Addysg yn cynnal adolygiadau rheolaidd o'r ddarpariaeth gyfredol ac yn defnyddio'r data diweddaraf i ragfynegi'r galw yn y dyfodol.



Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, ac er mwyn ateb y galw, mae'r Cyngor wedi cynyddu capasiti Canolfannau Adnoddau ADY ledled Blaenau Gwent, gan wneud lle i 83 o ddysgwyr mewn lleoliadau Cynradd a 73 mewn lleoliadau Uwchradd. Mae hyn yn cynnwys canolfan newydd, a agorwyd ym mis Medi 2023 yn Ysgol Gyfun Tredegar a chynnydd mewn capasiti yn lleoliad Uwchradd Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr. Mae cynllunio a datblygu wedi digwydd yn ystod 23/24 ar gyfer dwy Ganolfan Adnoddau ychwanegol â 10 lle mewn Ysgolion Cynradd, y mae un ohonynt yn ganolfan Cyfrwng Cymraeg mewn ymateb i'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae'r ddwy ganolfan ar y trywydd iawn i agor ym mis Medi 2024. Mae'r nod i gynyddu capasiti yn lleol yn cyd-fynd â'r Cod Ymarfer ADY a bydd hefyd yn ceisio lleihau nifer y lleoliadau addysg y tu allan i'r sir.

Cefnogir y weledigaeth ar gyfer cynhwysiant, sy'n cyd-fynd â'r Cod Ymarfer ADY, yn ein hysgolion prif ffrwd, gan y Swyddog Arweiniol Gweithredu ADY. Hefyd, mae'r Tîm Cynhwysiant wedi rhoi comisiwn i'r Gwasanaeth Ymarfer Cynhwysol i barhau i gefnogi ysgolion ar sail systemig a disgyblion unigol lle y bo angen.

Mae hyfforddiant, datblygu ac adolygu'n mynd rhagddynt yn barhaus o ran rhoi newidiadau ar waith o ganlyniad i ddiwygio ADY ac mae'r cymorth sydd ar gael gan yr Awdurdod Lleol i'r ysgolion yn gynhwysfawr ac yn fwyfwy ymatebol i ganlyniadau gwaith monitro a gwerthuso a wneir gan Swyddogion.

### Rhaglen Gwella Ysgolion

Rhwng mis Chwefror a mis Tachwedd 2023, bu llawer o'n penaethiaid a'n huwch arweinwyr yn Gweithredu'n Brin o Streic (ASOS). O ganlyniad nid oedd y mwyafrif o'n penaethiaid cynradd yn ymgysylltu â Thrafodaethau Proffesiynol gyda'r ALl yn ystod y cyfnod hwn. Mae Trafodaethau Proffesiynol yn ffordd bwysig i'r ALl ymgysylltu ag ysgolion ynghylch eu blaenoriaethau ar gyfer gwella, cynnydd gyda gweithredu newidiadau o ganlyniad i ddiwygio cenedlaethol, a chynnig cymorth priodol lle y bo'n berthnasol. Ers diwedd ASOS ym mis Tachwedd 2023 mae'r Awdurdod Lleol wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r GCA i drefnu a chynnal Trafodaethau Proffesiynol, gan flaenoriaethu'r ysgolion hynny a adnabuwyd fel y rhai a oedd fwyaf mewn angen i ddechrau, yn ôl ffactorau cytunedig a drafodwyd yn ystod ein cyfarfodydd partneriaeth. Ceir manylion llawn y Rhaglen Gwella Ysgolion yma - Report.pdf (moderngov.co.uk)

### TGCh a Digidol mewn Addysg

Datblygwyd Strategaeth Trawsnewid Digidol newydd ar gyfer ysgolion sy'n amlygu dyheadau ysgolion ynghylch taith y dysgwr digidol. Mae'r Strategaeth wedi'i halinio â Strategaeth Trawsnewid Digidol Cyngor Blaenau Gwent 2023/27 ac mae'n rhoi cymorth i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun Corfforaethol 2022/2027. Mae'r Strategaeth yn amlinellu'r nodau, amcanion a blaenoriaethau allweddol i wireddu gweledigaeth y Cyngor ar gyfer gwasanaethau digidol mewn ysgolion. Bydd yn gweithredu fel map ffordd i ysgolion ddod o hyd i'r ffordd wrth fynd ati'n barhaus i integreiddio technoleg Ddigidol o fewn Addysg trwy nodi'r adnoddau y mae eu hangen i hwyluso seilwaith, cysylltedd a dulliau dysgu effeithiol trwy ddefnyddio technolegau digidol ac, yn y pen draw, creu cenhedlaeth sy'n barod at y dyfodol. Bydd ein blaenoriaethau yn ein galluogi i wella profiad ein cwsmeriaid.

### Cyllid Addysg

Mae'r Cyngor yn anelu at ddarparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon o fewn y cyfyngiadau ariannol. Mae gan yr Awdurdod Lleol hanes o wario o fewn ei gyllideb addysg yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda thanwariannau cymharol fach dros y tair blynedd ddiwethaf yn erbyn y gyllideb addysg ar y cyfan.

Dyrannodd y Cyngor £52.562 miliwn i ysgolion yn 2023/24 trwy'r Gyllideb Ysgolion Unigol i ddarparu addysg o ansawdd da ac i wella deilliannau disgyblion. Hefyd, mae Blaenau Gwent yn parhau i wneud cyfraniad ariannol i drefniadau rhanbarthol y GCA, a oedd yn £326,668 ar gyfer y flwyddyn ariannol. Mae prosesau fel cyfarfodydd misol Partneriaeth yr Awdurdod Lleol/GCA ar waith i sicrhau bod yr ALl yn gallu dwyn y GCA i gyfrif am y cymorth a'r her y maent yn eu darparu i ysgolion a sicrhau gwerth am arian i'r Awdurdod Lleol.



Mae'r Gyllideb Ysgolion Unigol yn 2024/25 £1.42m yn uwch nag oedd yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn gynnydd o 2.17%. Mae'n cynnwys £864k o gyllid ar gyfer pwysau o ran costau a £278k a drosglwyddwyd i'r Gyllideb Ysgolion Unigol o Gyllidebau Addysg eraill. Defnyddiwyd y cynnydd hwn i ariannu cynnydd yn nifer y disgyblion a datblygiad canolfannau adnoddau newydd. Gan bod y Cyngor wedi cael setliad isel gan Lywodraeth Cymru, ni chafodd unrhyw gyllid ychwanegol ei ddirprwyo i ysgolion i ariannu cynnydd chwyddiannol fel codiadau cyflog. Dyfarnwyd cyfanswm o £406k i ariannu pwysau o ran costau ar gyfer cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol mewn perthynas â chynnydd yn y galw a phrisiau contractau hefyd. Ym mis Medi 2024, bydd yn ofynnol i'r mwyafrif o gontractau gael eu haildendro a rhagwelir y bydd y rhain yn cynyddu'n sylweddol o'i gymharu â'u cyfraddau cyfredol.

Gostyngodd balansau ysgolion o £4.821 miliwn ar ddiwedd 2022/23 i £1.348 miliwn ar ddiwedd 2023/24. Mae'r lefel ar y cyfan wedi gostwng bron i £3.5 miliwn, gyda phedair ysgol mewn diffyg.

- Mae balansau ysgolion cynradd wedi gostwng o £2.993 miliwn i £1.668 miliwn.
- Mae balansau ysgolion uwchradd wedi gostwng o £675,000 i £37,000.
- Mae balansau ysgolion pob oed wedi gostwng o £664,000 i ddiffyg o £451,000
- Mae balansau ysgolion arbennig wedi gostwng o £489,000 i £94,000.

Mae risg y bydd balansau ysgolion yn cael eu disbyddu erbyn mis Mawrth 2025 oherwydd y costau cynyddol y mae ysgolion yn eu hwynebu gan gynnwys dyfarniadau cyflog athrawon a chostau cyfleustodau. Efallai na fydd ysgolion yn gallu llunio cyllideb gytbwys ar gyfer 2024/2025 heb effeithio ar feintiau dosbarthiadau, deilliannau dysgwyr ac ati. Mae ysgolion yn cael eu cefnogi i gynhyrchu cynlluniau lleihau diffygion sy'n nodi effeithlonrwydd ariannol ac effaith yr arbedion effeithlonrwydd hynny. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu hystyried gan y Cyfarwyddwr Addysg Corfforaethol a'r Prif Swyddog Adnoddau. Bydd pwysau costau ysgolion yn cael eu hadrodd o fewn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

### Cydweithio gyda'r GCA

Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg yn cefnogi cyfleoedd dysgu addysgol plant a phobl ifanc gan gydweithio er mwyn ceisio sicrhau bod anghenion llesiant ac addysgol pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu diwallu. Fel rhan o hyn, mae'r Cyngor yn rhoi comisiwn i'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) i ddarparu ystod eang o wasanaethau gwella ysgolion i bob ysgol (pob cyfnod allweddol, gan gynnwys ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig), a lleoliadau meithrin nas cynhelir a gyllidir ar ran pob awdurdod lleol. Mae'r cynllun hwn yn cefnogi rôl y cyngor o ran cyflawni eu swyddogaeth statudol, mynd i'r afael â'u blaenoriaethau gwella unigol a hybu deilliannau gwell i ddisgyblion.


### Amddifadedd a Deilliannau Addysg

Mae llawer o gryfderau yng ngwaith yr awdurdod lleol i leihau'r effaith y mae amddifadedd yn ei chael ar ddeilliannau addysgol trwy roi cymorth i deuluoedd ac aelwydydd incwm isel. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys darparu prydau ysgol am ddim, tegwch misglwyf, cymorth i ddysgwyr agored i niwed, Gwasanaeth Ieuenctid a gwasanaethau cymorth ieuenctid, swyddogion ymgysylltu â theuluoedd, darpariaeth yn ystod gwyliau ysgol a chludiant ôl-16. Ceir hefyd nifer o gryfderau yn y gwasanaethau i gefnogi llesiant plant a phobl ifanc ac i hybu perthnasoedd cadarnhaol. Rhoddwyd cymorth i ysgolion i ddarparu amgylchedd lle mae iechyd a llesiant yn greiddiol i'r cwricwlwm, gan sicrhau bod cymorth ac ymyriadau priodol yn hygyrch, gyda phwyslais penodol ar gategorïau dysgwyr agored i niwed a difreintiedig. Mae cynllun peilot ar gyfer offeryn hunanwerthuso sy'n defnyddio dull ysgol gyfan wedi cael ei gyflwyno sy'n annog ysgolion i asesu'r rhwystrau allweddol i ddysgu ac i roi cymorth penodol sy'n ymwneud â llesiant emosiynol a meddyliol y plentyn. Mae'n annog ysgolion i gwestiynu sut y gall anghydraddoldeb effeithio ar ddeilliannau dysgu a bywyd plentyn ac mae'n meithrin amgylchedd cynhwysol a gofalgar.



## Estyn

Arolygwyd 6 ysgol yn ystod blwyddyn academaidd 2023 - 2024. Ni roddwyd yr un o'r ysgolion hyn mewn categori ac ni chafodd yr un ohonynt lythyr iechyd a diogelwch na llythyr diogelu dilynol gan Estyn. Yr ysgolion a arolygwyd oedd; Ysgol Gynradd yr Holl Saint, Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr (3-16), Ysgol Pen Y Cwm (3-18), Ysgol Gynradd Deighton ac Ysgol Gynradd Beaufort Hill.





## Gwasanaeth Ieuenctid

Mae Gwasanaeth Ieuenctid Blaenau Gwent yn cynnig ystod gynhwysfawr o wasanaethau i bobl ifanc 11-25 oed, sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu gwirfoddol a darparu dysgu anffurfiol. Mae'r dull hwn yn hybu datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol gan hefyd godi dyheadau trwy gyflawni deilliannau cadarnhaol.

Yn 2022/23 cyrhaeddodd Gwasanaeth Ieuenctid Blaenau Gwent 19% o'r boblogaeth ieuenctid 11-25 ac, yn gadarnhaol, mae 2023/24 yn dynodi cynnydd i 23%, sy'n adlewyrchu twf o 4%. Mae hyn yn cynnwys 2,410 o bobl ifanc unigol, gyda'r ymgysylltiad uchaf yn dod o'r ystod oedran 11-16, lle rydym yn denu bron i 45% o'r boblogaeth ieuenctid yn y grŵp oedran hwn, sy'n arwyddocaol.

Yn y cyfnod adrodd, mae Blaenau Gwent yn 2il (orau) ledled y rhanbarth ac yn gydradd 10fed ledled Cymru, yn uwch na chyfartaledd cenedlaethol Cymru (15%) ar gyfer cyrraedd y boblogaeth. Mae'n debygol bod y cynnydd mewn cyrhaeddiad i'w briodoli i ymdrech â ffocws i ehangu darpariaeth ieuenctid gyffredinol mynediad agored ledled yr Awdurdod. Cyn 2023, roedd y gwasanaeth yn gweithredu pedwar clwb ieuenctid cyffredinol. Fodd bynnag, yn dilyn proses ailstrwythuro a olygodd ei bod yn ofynnol i staff amser llawn weithio dwy noson, cynyddodd nifer y clybiau ieuenctid i naw, gan wella ymgysylltiad â'r boblogaeth ieuenctid.




Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn arwain ar weithredu Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (FfYDI) Llywodraeth Cymru ac mae hyn yn cael ei gefnogi gan y Grŵp Codi Dyheadau amlasiantaeth strategol a gweithredu'r Offeryn Adnabod yn Gynnar, sy'n darparu dull atal a chymorth ar gyfer pobl ifanc sy'n wynebu risg o ddod, neu sydd eisoes, yn rhai Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant a / neu'n ddigartref.



Yn 2022, roedd Blaenau Gwent yn wynebu cyfradd uwch na'r disgwyl o ran y rhai Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant o 5% (31 o bobl ifanc) sy'n adlewyrchu cynnydd o 3.4%. Cynhaliwyd gwerthusiad cynhwysfawr gyda phartneriaid allweddol i adnabod ffactorau a oedd yn cyfrannu a datblygu strategaethau i leihau'r ffigwr hwn. Profodd y gwerthusiad hwn yn effeithiol ac mae wedi hwyluso deilliannau gwell, gan leihau'r ffigwr ar gyfer y rhai Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant i 2.5% (14 o bobl ifanc) yn 2023/24. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn parhau i fod yn ganolfan achredu sefydledig; fodd bynnag, ceir gostyngiad yn nifer y bobl ifanc (11-25 oed) sy'n ennill cymwysterau achrededig yn 2023/24. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu adliniad strategol tuag at gefnogi grwpiau sydd ar wedi'u hymyleiddio a gwella'r cysylltiad rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid ac agendâu cynhwysiant a llesiant ehangach. Gwnaed ymdrechion i asesu anghenion pobl ifanc yn yr ardal, yn enwedig y rhai nad ydynt o bosibl yn ymgysylltu â'r awdurdod lleol neu sefydliadau partner ar hyn o bryd.

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cefnogi grwpiau amrywiol, gan gynnwys pobl ifanc sy'n wynebu risg o gael eu gwahardd, y rhai ag anableddau, y rhai o Gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a phobl ifanc sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref. Mae'r tîm FfYDI 11-25 wedi parhau i dargedu'r disgyblion ym Mlwyddyn 11 sy'n gadael yr ysgol ac sy'n wynebu'r risg fwyaf. Mae llawer o'r unigolion a dargedwyd ac a gefnogwyd wedi cael eu hadnabod yn flaenorol gan y gwasanaethau a phartneriaid oherwydd, yn hanesyddol, nid yw'r unigolion hyn wedi bod yn cael mynediad at yr un lefel o gymorth, gwybodaeth neu gyngor â'r rhai mewn addysg brif ffrwd.  Yn 2023/24, roedd 114 o atgyfeiriadau am y flwyddyn, ac fe adnabuwyd fod 36 o'r rhain yn rhai a oedd yn cael addysg ddewisol yn y cartref.

Mae dau grŵp cymdeithasol yn darparu'n benodol ar gyfer pobl ifanc sydd wedi'u hymyleiddio, gan gynnig gweithgareddau anffurfiol, sydd wedi'u bwriadu i leihau unigedd cymdeithasol a hybu llesiant. I lawer o gyfranogwyr, y sesiynau hyn yw eu hunig gyfle ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol â chyfoedion.

**Gwasanaeth Addysg y Gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr**

Mae'r Gwasanaeth Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cynnwys swyddog cyswllt â theuluoedd ac athro cymorth addysg a gomisiynwyd.  Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddarparu cymorth un-i-un, ac mewn grwpiau bychain. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi plant a phobl ifanc yn academaidd o fewn gwersi a thrwy eu tynnu allan o wersi, ac mae'r cymorth hwn yn cael ei dargedu'n briodol ar gyfer pob disgybl unigol. Mae'r gwersi penodol hyn yn cael eu hadolygu o fewn cyfarfodydd rhwng staff dynodedig yr ysgolion a'r Tîm SRTh. Yn ystod cyfarfodydd, adolygir data asesu a meysydd eraill o fewn addysg y plentyn/person ifanc, megis presenoldeb a gwaharddiadau.

Mewn cydweithrediad gydag ysgolion, plant a'u teuluoedd, mae gwersi penodol wedi'u targedu'n seiliedig ar lefel y cymorth y mae ei angen. Trwy gymorth effeithiol, mae'r canlyniadau dros 2023/24 yn dynodi bod y mwyafrif (76%) o'r plant a'r bobl ifanc wedi gwella ym meysydd gallu darllen a 65% wedi gwella mewn sillafu.

Yn ystod Tymor y Gwanwyn 2023/24 trosglwyddodd sesiynau'r Clwb Addysg yn llwyddiannus i Ysgol Sefydledig Brynmawr o'r safle Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r sesiynau hyn ar gyfer dysgwyr SRTh sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref. Mae'r Clwb Addysg yn canolbwyntio ar lythrennedd a rhifedd, ac mae hefyd yn hyrwyddo addysg uwchradd trwy roi cyfle i dreulio amser mewn lleoliad ysgol. Mynychodd 14 disgybl yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24 a'r bwriad yw cynyddu'r niferoedd y flwyddyn nesaf gyda'r gefnogaeth gan deuluoedd. Mae'r Clwb Addysg wedi codi pwysigrwydd addysg uwchradd i deuluoedd ac wedi galluogi dysgwyr a rhieni i deimlo'n hyderus mewn ysgol uwchradd ffurfiol. Yn gadarnhaol, mae 4 o'n dysgwyr sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref wedi dewis mabwysiadu'r model ysgol hyblyg yn Ysgol Sefydledig Brynmawr ym mis Medi 2024, a gefnogwyd ac a gymeradwywyd yn llawn gan y Pennaeth. Mae hyn yn dangos yr effaith y mae'r clwb wedi'i chael o symud i safle ysgol gyda chynnydd yn nifer y dysgwyr SRTh sy'n mynychu addysg uwchradd, gan gynyddu eu siawns o sicrhau cyflawniadau yn y dyfodol.



Yn ystod mis Tachwedd 2023, cymerodd dysgwyr SRTh oed uwchradd ran mewn datblygu'r cynllun cydraddoldeb strategol newydd ym Mlaenau Gwent trwy rannu eu profiadau personol o fod yn rhan o'r gymuned SRTh. Rhoddwyd y cyfle iddynt rannu eu teimladau ynghylch eu canfyddiadau eu hunain am sut y cânt eu trin ac amlygu'r rhwystrau a wynebir yn yr ysgol ac yn y gymuned.

Yn ystod mis Medi 2023, cyfarfu'r Gwasanaeth SRTh a'r Swyddog Addysg Ddewisol yn y Cartref â theuluoedd dysgwyr SRTh, a rhoddodd hyn gyfle i drafod Canllawiau newydd Llywodraeth Cymru ar Addysg Ddewisol yn y Cartref, yn enwedig y disgwyliadau diwygiedig. Fe wnaeth y Gwasanaeth SRTh gynnwys nyrsys ysgol yn y drafodaeth hon hefyd gan ystyried y niferoedd a oedd wedi cael brechiadau, ac unrhyw bryderon oedd gan rieni mewn perthynas â hyn a phresenoldeb yn yr ysgol. Roedd ffocws penodol ar ddisgyblion uwchradd sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref yn colli brechiadau gan nad oeddent yn mynychu ysgol. Arweiniodd hyn at gynnydd mewn brechiadau ac mae rhieni'n darparu addysg addas, yn unol â Deddfwriaeth Llywodraeth Cymru.

Roedd cyfartaledd presenoldeb disgyblion SRTh, yn ystod blwyddyn academaidd 23/24 yn 73.15%, o'i gymharu â 71.1% y llynedd. Bydd y Gwasanaeth SRTh yn parhau i weithio gyda'r Gwasanaeth Lles Addysg i fonitro presenoldeb hanner tymhorol dysgwyr SRTh, ac yna'n cynnal ymweliadau ymateb cyntaf ac yn rhoi cynllun ar waith i gefnogi presenoldeb unigolion, gyda'r bwriad o wella presenoldeb ac ymgysylltiad ar y cyfan.

**Cymoedd Technoleg**

Mae gan Lyn Ebwy un o'r wyth Ardal Fenter yng Nghymru, gyda chymhellion ariannol y Banc Datblygu a phroses gynllunio ar y llwybr carlam. Mae Blaenau Gwent yn rhan o ardal ehangach Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sy'n buddsoddi £1.2bn o arian cyhoeddus i drosoli £4bn arall o fuddsoddiad preifat ledled De-ddwyrain Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n buddsoddi £100m ym Mlaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd dros 10 mlynedd i greu 1,500 o swyddi a mwy ac mae'n gweithio gyda'r Cyngor i gyflawni hyn o dan y faner Cymoedd Technoleg.

Yn 2023 cynhaliodd Menter y Cymoedd Technoleg y rhaglenni canlynol:

- Rhoddwyd cymorth ychwanegol i Brosiect Peirianneg Cymoedd Cymru a Phrosiect Hwyluso Stem Blaenau Gwent i gynyddu'r ystod o weithgareddau mewn ysgolion;
- Dechreuodd y gwaith adeiladu ar y Safle Peirianneg Gwerth Uchel (HiVE) i greu cyfleuster addysg ôl-16 uwchdechnoleg newydd gwerth miliynau o bunnoedd yng Nglyn Ebwy. Bydd y safle HiVE 21,808 troedfedd sgwâr newydd yn darparu hyfforddiant ac addysg o'r radd flaenaf i bobl ifanc a busnesau ym meysydd roboteg, deunyddiau uwch, gweithgynhyrchu a digidol, a thechnolegau galluogi. Mewn partneriaeth gyda Choleg Gwent, a phartneriaid ym myd diwydiant, sicrhaodd y Cyngor dros £12 miliwn o raglen Cymoedd Technoleg Llywodraeth Cymru a chan Lywodraeth y DU i addasu'r ffatri segur, safle hen Adeilad Monwel Hankinson, i'w defnyddio unwaith eto.  Yn agos at ganol tref Glyn Ebwy a Choleg Gwent, Parth Dysgu Blaenau Gwent, bydd lle addysgu o ansawdd da gyda lle i hyd at 600 o fyfyrwyr, ynghyd ag ystafelloedd dosbarth, ardaloedd astudio ac ystod o fannau ar gyfer gweithdai. Bydd y lle'n cael ei gyfarparu ag offer roboteg a gweithgynhyrchu o'r radd flaenaf a fydd ar gael i'w defnyddio gan fyfyrwyr ôl-16 a busnesau sy'n ymgymryd â thechnolegau newydd; cafodd disgyblion ym Mlaenau Gwent ddigwyddiad 'Cychwyn Arni' i roi blas ar fywyd prifysgol er mwyn ystyried opsiynau addysgol yn y dyfodol;
- Ymwelodd y Prif Swyddog Gwyddonol ag Ysgol Gyfun Tredegar a Hyb HiVE. Mae Ysgol Gyfun Tredegar yn un o sawl ysgol yn y sir sy'n cynnal gweithdai HiVE i ddisgyblion;
- Er mwyn cynorthwyo i wella ac ysgogi mwy o entrepreneuriaeth ym Mlaenau Gwent, cafodd cyfleuster o'r enw Goldworks ei gwblhau'n llwyddiannus gan ddarparu Canolfan Menter Busnes sy'n ymestyn dros 10,000 troedfedd sgwâr ar gyfer busnesau technoleg newydd; a busnesau newydd twf uchel. Bwriedir cynnal y lansiad yn ystod yr Wythnos Entrepreneuriaeth Fyd-eang ym mis Tachwedd 2024.



- Mae'r gwaith yn parhau gyda'r Rhyngrwyd Pethau ac arddangoswr LoRaWaN gan gynnwys:
  - Monitro Tymheredd a Lleithder Archifau Gwent;
  - Monitro Ynni ac Effeithlonrwydd Canolfan Hamdden Glynebwy; a
  - Monitro Teithio Llesol ym Mharc Abertyleri.

Mae'r Cyngor yn parhau i gydweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i'n busnesau cynhenid a'n prosiectau mewnfuddsoddi. Mae hyn yn cynnwys pecynnau ariannu lle y bo'n briodol a chymorth arall, fel Cymoedd Technoleg a thrwy gynlluniau ariannu mwy strategol fel y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF).

**Prosiect Gwella Cynhyrchiant Busnesau (BPEP) Llywodraeth Cymru**

Ers ei lansio, mae Prosiect Gwella Cynhyrchiant Busnesau'r Cymoedd Technoleg wedi cefnogi 12 o gwmnïau ledled Blaenau Gwent. O ganlyniad, mae'r prosiect wedi cael ei estyn ar draws Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Torfaen a Rhondda Cynon Taf a, hyd yma, mae 53 o gwmnïau wedi cael asesiad diagnostig o gynhyrchiant a dylunio ac wedi penderfynu gweithredu argymhellion gyda chymorth grant BPEP.

**Cyngor Blaenau Gwent – Prosiect Hwyluso STEM**

Rhaglen gydgysylltiedig o gymorth a grëwyd o ganlyniad i'r Cymoedd Technoleg yw'r Prosiect Hwyluso STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg), sy'n canolbwyntio ar 'ddiwydiant mewn ysgolion' o fewn clwstwr o ysgolion Blaenau Gwent, gan godi dyhead a pharatoi plant ar gyfer eu taith i fyd gwaith, gan ategu cwricwlwm yr ysgol yr un pryd. Mae'r prosiect hefyd yn ceisio cefnogi a datblygu perthynas gynaliadwy rhwng busnesau lleol ac ysgolion, trwy elfen cyswllt diwydiant y rôl. Gall cyflogwyr ddarparu cyd-destun byd go iawn ar gyfer ystod eang o brofiadau dysgu ar draws y cwricwlwm, gan arddangos cyfleoedd cyflogaeth a chyfeirio pobl ifanc at y mathau o sgiliau y mae galw amdanynt yn awr ac y bydd mwy byth o alw amdanynt yn y dyfodol. Mae'r cysylltiadau rhwng busnesau ac addysg yn allweddol i sicrhau gweithlu'r dyfodol, er mwyn cysylltu plant â'r ystod lawn o lwybrau gyrfa galwedigaethol ac academaidd.

Cafodd cam peilot Prosiect Hwyluso STEM Blaenau Gwent ei lansio'n wreiddiol yn 2021 tan fis Mawrth 2023 ar gyfer clwstwr ysgolion Ebwy Fawr yn unig. Oherwydd llwyddiant y cyfnod peilot, dyfarnodd y Cymoedd Technoleg gyllid ychwanegol i estyn y prosiect hyd at fis Mawrth 2025, ac i ehangu'r arlwy i bob ysgol ledled Blaenau Gwent. Mae tîm Prosiect Hwyluso STEM BG yn gweithio gydag ysgolion, darparwyr a diwydiant i godi proffil STEM yn y gymuned ehangach a chydag ysgolion i ymgysylltu â dysgwyr er mwyn paratoi pobl ifanc â'r sgiliau y bydd eu hangen yn y maes hwn yn y dyfodol ar gyfer swyddi gwerth uchel â lefelau sgiliau uchel. I gael rhagor o wybodaeth a'r newyddion diweddaraf, gweler ein Padlet ar gyfer Prosiect STEM BG y gellir ei gyrchu trwy'r ddolen hon - https://padlet.com/BGSTEMPROJECT/stem-facilitation-project-jjw368i31d79ypnh

Cyrhaeddodd Prosiect Hwyluso STEM Cyngor Blaenau Gwent rownd derfynol Gwobrau STEM Cymru 2023 ac fe'i henwyd yn un o'r 55 o gwmnïau ac unigolyn ar y rhestr fer yn y Gwobrau, a noddir gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd. Cydnabuwyd Blaenau Gwent o ganlyniad i'w ymrwymiad i wneud gwahaniaeth i'r agenda STEM yng Nghymru ac fe gyrhaeddodd y rhestr fer yn y categori Rhaglen Addysgol STEM y Flwyddyn (Sector Cyhoeddus) ochr yn ochr â Thŷ'r Cwmnïau, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Wrecsam.



### Thales

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r cwmni technoleg byd-eang Thales i sefydlu canolfan seiber werth £20M yng nghanol y Cymoedd Technoleg. Sefydlwyd y Ganolfan Ecsbloetio Ddigidol Genedlaethol (NDEC) yn 2019, yn ei chartref pwrpasol newydd. Dyma'r cyfleuster Ymchwil a Datblygu cyntaf o'i fath yng Nghymru, ac mae'n darparu'r lleoliad perffaith i Fentrau Bach a Chanolig a microfusnesau brofi a datblygu eu cysyniadau digidol. Ers ei lansio yn 2019, mae Thales Glynebwy wedi tyfu o un prosiect yn gampws seiber gan gynnwys sefydlu'r Ganolfan Gymhwysedd Technoleg Weithredol Fyd-eang. Mae'r cyfleuster tra modern hwn yn gartref i faes ymarfer seiber, rigiau profi a chyfeirio, gweithdai cerbydau ymreolaethol a thrac profi Thales UK, yn ogystal â chanolfan profiad ymgolli i gwsmeriaid a chyfleusterau cynadledda o'r radd flaenaf.

### Mynegai Cystadleuol y DU

Mae'r cyngor yn gweithio i wella ei statws cystadleuol ar y cyfan ac mae'n monitro data economaidd yn fanwl gyda Phrifysgol Caerdydd. Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i sicrhau dau fuddsoddiad mawr i gwmnïau ym Mlaenau Gwent fel rhan o'n nod i wella ein cystadleurwydd. Mae Mynegai Cystadleuol y DU 2023 wedi dangos nad Blaenau Gwent bellach yw'r ardal leiaf cystadleuol ym Mhrydain gyda'r sgôr UKCI yn cynyddu rhwng 2019 a 2023. Bellach mae Blaenau Gwent yn safle 361 allan o 362 o ran cyfartaledd cystadleurwydd ledled Prydain, ac er na fyddem yn anelu at gymharu ein hunain ag e.e. Bwrdeistrefi Canol Llundain mae yna hen ardaloedd diwydiannol ledled y DU y dylem allu cymharu ein hunain â hwy. Mae Blaenau Gwent yn parhau i wella a monitro ein mewnbynnau UKCI fel busnesau newydd a chwmnïau technoleg newydd, ac o ystyried y ffaith bod y taflwybr cystadleurwydd yn un tuag i fyny ym Mlaenau Gwent, ni fyddai'n ymddangos bod hyn yn adlewyrchiad o unrhyw gamystumiadau byrdymor yn y data ar ôl Pandemig COVID-19 ym Mlaenau Gwent ac ardaloedd eraill.

### CychwynCyflym

Sefydlwyd Rhaglen CychwynCyflym ym mis Ebrill 2023 ac fe ddisodlodd yr hen raglen Kickstart. Mae CychwynCyflym yn cynnig lleoliadau gwaith â thâl am 6 mis ym Mlaenau Gwent i unrhyw un 16+ oed sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar, i gael profiad gwerthfawr a gwella sgiliau cyflogadwyedd i gynyddu eu siawns o ddod o hyd i waith amser llawn unwaith y mae'r lleoliad wedi dod i ben. Mae llu o gyflogwyr ym Mlaenau Gwent yn cynnig lleoliadau CychwynCyflym ystyrlon mewn amrywiaeth o sectorau sy'n addas ar gyfer diddordebau unigol. Bydd cyfranogwyr yn cael eu cynorthwyo trwy gydol eu lleoliad i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy, cael hyfforddiant perthnasol a chynyddu eu hyder i sicrhau cyflogaeth hirdymor yn y dyfodol.

### Cronfa Fusnes Effaith BG

Sefydlwyd cronfa fusnes Effaith BG i helpu busnesau newydd Blaenau Gwent sydd â dyheadau ar gyfer twf posibl. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyngor a chymorth arbenigol i ddatblygu syniad busnes, darparu'r adnoddau neu'r offer angenrheidiol i ddechrau busnes a helpu i ariannu costau lleoliad busnes neu ffioedd proffesiynol ac ati. Pwrpas y gronfa yw hybu amodau i gynorthwyo'r rhai sy'n dymuno dechrau eu busnes neu fenter eu hunain. Gall hyn gynnwys rhoi cyngor a chymorth arbenigol i ddatblygu syniad busnes, darparu'r adnoddau neu'r offer angenrheidiol i ddechrau busnes a helpu i ariannu costau lleoliad busnes, ac ati.

### CiNER Glass Property

Yn 2022, rhoddodd y Pwyllgor Cynllunio gymeradwyaeth i ddatblygu cyfleuster gweithgynhyrchu poteli gwydr yng Nglyn Ebwy, sy'n anelu at ddod â thua 600 o swyddi i'r ardal leol pan fydd yn agor. Rhoddwyd caniatâd ffurfiol i CiNER Glass Property Ltd, sydd eisoes yn gweithredu cyfleuster yn Nhwrci, adeiladu a gweithredu cyfleuster gweithgynhyrchu gwydr pwrpasol, a datblygiad cysylltiedig yn Ystâd Ddiwydiannol Rassau.



Yr argoel yw y bydd y prosiect hwn yn un o'r buddsoddiadau mwyaf yn Ne Cymru ers degawdau, ac yn un o'r 25 o fuddsoddiadau mwyaf yn y DU ar gyfer y flwyddyn nesaf, gan ddod â miloedd o swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol i'r ardal leol. Ers cymeradwyo'r cais cynllunio, mae gwaith wedi cael ei wneud i weithredu amodau'r Cytundeb Adran 106 a nodwyd gan y Cyngor. Mae CiNER Glass Property Ltd hefyd wedi mireinio a symleiddio dyluniad y cyfleuster gan gynnwys ailwerthusiad i wneud y gwaith yn fwy effeithlon yn amgylcheddol ac yn weithredol, gan hefyd leihau cost y gwaith adeiladu ar y cyfan. Ar hyn o bryd mae'r cwmni'n siarad gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am y pecyn cymorth y gellir cytuno arno. Mae CiNER Glass Property Ltd yn dymuno gweithio gydag ysgolion a chanolfannau hyfforddi lleol ac ymgysylltu â hwy, er mwyn helpu i hysbysu pobl leol, graddedigion ysgol ifanc, a'r rhai sy'n chwilio am yrfa newydd, am rai o'r cyfleoedd gwaith a hyfforddiant a ddaw i'r ardal er mwyn helpu i feithrin sgiliau ac arbenigedd ym Mlaenau Gwent,  gan gefnogi'r sector fel cyflogwr hirdymor yn yr ardal. Mae gwaith eisoes wedi digwydd gyda cholegau, prifysgolion a darparwyr hyfforddiant lleol fel y gellir darparu cyfleoedd addysg a hyfforddiant addas yn yr ardal dros y flwyddyn nesaf. Gall yr ystafell ddosbarth 360° yng Nglyn Ebwy ddangos i bobl sut beth yw gweithio yn y ffatri bresennol yn Nhwrci. Mae trafodaethau hefyd wedi cael eu cynnal gyda chwmnïau lleol a rhanbarthol i ddarparu hanfodion ar gyfer y gwaith ar draws y broses cadwyn gyflenwi.

### Y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF)

Mae rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael ei defnyddio i roi cymorth i gyflawni nifer o brosiectau allweddol ar draws y Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys cymorth i gymunedau, trefi, grwpiau cymunedol (trwy GAVO), cymorth i fusnesau a MBCh a'r Rhaglen Cyflogaeth a Sgiliau, gan weithio gydag adrannau mewnol a sefydliadau partner i gyflawni prosiectau a gefnogwyd yn flaenorol trwy ESF a rhaglenni cyllido eraill yr UE. Mae'r cyllid a ddyrannwyd i Flaenau Gwent o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin dros y rhaglen 3 blynedd (2022 i 2025) yn erbyn pob blaenoriaeth fel a ganlyn:

- Cymuned a Lle - £7,837,618
- Cefnogi Busnesau Lleol - £6,682,246
- Pobl a Sgiliau - £8,599,836
- Lluosi - £3,874,171

**Cyfanswm - £26,993,871**

Defnyddiwyd arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin i gefnogi nifer fawr o swyddi ar draws y Cyngor. Mae'r swyddi hyn yn cefnogi meysydd anstatudol ac yn gweithio i gefnogi busnesau lleol a grwpiau cymunedol, yn ogystal â darparu arian grant i gefnogi MBChau a mudiadau lleol. Gan bod arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin i fod i ddod i ben ym mis Mawrth 2025, mae'r Cyngor mewn sefyllfa fregus o ran sut y bydd yn parhau i gynnig yr un lefel o wasanaethau gyda llai o gapasiti. Bydd angen gwneud gwaith i asesu pwysigrwydd pob rôl a chanfod a oes unrhyw ffordd arall o gefnogi parhad y rolau hyn. Mae swyddi a ariennir â grantiau, gan gynnwys y Gronfa Ffyniant Gyffredin, wedi cael eu hamlygu gan y Cyngor fel risg sydd i'w hystyried fel maes blaenoriaeth wrth edrych tua'r dyfodol.

### Y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)

Bu amrywiaeth o weithgareddau cydweithredol ac ymgysylltu gan gynnwys yr ymgynghoriad ar ein Cynllun Datblygu Lleol a'n Cynlluniau Creu Lleoedd. Mae'r adolygiad o'r CDLl presennol wrthi'n mynd rhagddo. Cafwyd cymeradwyaeth i gytundeb cyflawni arfaethedig i ffurfio'r CDLl wedi'i ddiweddaru gan Lywodraeth Cymru ynghyd ag amserlen ddiwygiedig ar gyfer cyflawni oherwydd oedi nas rhagwelwyd. Mae'r CDLl yn parhau i ddarparu fframwaith hirdymor ar gyfer datblygu cynaliadwy ledled Blaenau Gwent, gan gael ei ategu gan ddogfennau allweddol fel y Cynlluniau Creu Lleoedd a fydd, pan fyddant wedi'u cwblhau, yn cefnogi penderfyniadau cynllunio yn y trefi yn y dyfodol. Y bwriad yw y bydd Cynlluniau Creu Lleoedd i gyd wedi'u cwblhau neu wedi eu cwblhau'n sylweddol cyn i'r CDLl gael ei gwblhau.



### Canol Trefi

Yn ystod 'Blwyddyn Trefi Smart', mynychodd y Cyngor nifer o weithdai, datblygodd gynllun gweithredu digidol a rhoddodd brosiectau peilot ar waith. Mae'r rhain wedi cael eu datblygu'n astudiaethau achos sydd wedi cael eu rhannu o fewn y Gymuned Trefi Smart. Mae'r rhaglen yn cynorthwyo busnesau, cynghorau a chymunedau i ddefnyddio technoleg ddigidol a data i adfywio strydoedd mawr, yn unol â'r agenda Trawsnewid Trefi. Mae hyn yn golygu helpu busnesau i ddefnyddio data i weithio'n ddoethach ac nid yn galetach, ac i adnabod cyfleoedd ar gyfer twf; gan ddefnyddio data i gyfiawnhau a goleuo buddsoddiad, ac i fesur llwyddiant unrhyw ymyriad. Mae Rhaglen Trefi Smart Llywodraeth Cymru'n rhedeg tan 2025. Mae'r cynnydd o ran Cynlluniau Creu Lleoedd yn cynnwys:

- Glyn Ebwy – mae gwaith yn parhau ar y cynllun cyflawni creu lleoedd. Mae peth o'r gwaith ar opsiynau datblygu ar gyfer safleoedd allweddol wedi dechrau. Bwriedir ymgysylltu ymhellach â Chomisiwn Dylunio Cymru;
- Brynmawr - mae'r cynllun creu lleoedd wedi cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar ddatblygu'r cynllun cyflawni;
- Tredegar - cymeradwywyd y cynllun creu lleoedd yn 2022. Mae'r cynllun cyflawni drafft wedi dod i law ac yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Bydd y cynllun cyflawni'n cynnwys y rhestr o brosiectau y mae angen eu cyflawni i wireddu'r weledigaeth ar y cyfan ar gyfer y dref;
- Abertyleri – mae'r cynllun creu lleoedd wedi bod trwy'r broses ddemocrataidd ac wedi amlygu'r weledigaeth strategol ar gyfer ailddatblygu canol tref Abertyleri; ac
- Mae cais am gyllid wedi cael ei baratoi ar gyfer datblygu Cynllun Creu Lleoedd y Blaenau.

### Nifer yr Ymwelwyr â Chanol Trefi

Mae nifer yr ymwelwyr yn ffactor pwysig sy'n dylanwadu ar fywiogrwydd a hyfywedd canol trefi. Mae synwyryddion yn cyfrif nifer y siopwyr sy'n ymweld â chanol ein trefi ac yn darparu data dadansoddol ar sut y mae canol trefi unigol yn perfformio a sut y mae siopwyr yn eu defnyddio. Mae'r data o fonitro nifer yr ymwelwyr yn galluogi'r Cyngor i fod wedi'i arfogi'n well i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth ynglŷn â phoblogrwydd ac effeithiolrwydd prosiectau cyfredol ac yn y dyfodol yng Nghanol Trefi.

Defnyddir cyfrifwyr ymwelwyr ledled y trefi ym Mlaenau Gwent i fesur nifer y bobl sy'n mynd i mewn i ardal, siop neu adeilad. Mae'r dechnoleg yn monitro cerddwyr a cherbydau mewn unrhyw fath o amgylchedd, yn barhaus 24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos. Dadansoddir niferoedd ymwelwyr gan ddefnyddio'r data tracio cyfrif-benodol diweddaraf, sy'n seiliedig ar symudiad ar draws ardal a ddiffiniwyd ymlaen llaw.

Mae'r Swyddog Datblygu Busnesau Canol Trefi wedi bod yn gweithio gyda busnesau a rhanddeiliaid eraill i drefnu digwyddiadau a fydd yn helpu i ddenu ymwelwyr a chynyddu nifer yr ymwelwyr. Bydd rhaglen ddigwyddiadau'n cael ei datblygu, ochr yn ochr â cheisiadau am gyllid fel y arian o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a Trawsnewid Trefi. Mae adnoddau ychwanegol wedi cael eu hadnabod hefyd i roi cymorth i weithredu ar lawr gwlad, yn ogystal â chydweithio a chyd-gyflawni gydag ystod o bartneriaid yn enwedig o fewn y colofnau Pobl a Sgiliau a Chymuned a Lle.

### Rhaglen Rhannu Prentisiaethau Anelu'n Uchel

Mae Rhaglen Rhannu Prentisiaethau Anelu'n Uchel ym Mlaenau Gwent yn brosiect strategol gyda nifer o bartneriaid; Ardal Fenter Glyn Ebwy, Addysg, Diwydiannau a Sir Blaenau Gwent. Disgwylir i'r rhaglen wella datblygiad sgiliau o fewn y cwmnïau gweithgynhyrchu a pheirianneg i ddatblygu twf busnes; gan hefyd fynd i'r afael â diweithdra a darparu cyfleoedd sy'n galluogi pobl ifanc ledled yr awdurdod lleol i anelu'n uchel. Y flwyddyn nesaf fydd y 10fed flwyddyn i'r rhaglen arobryn gael ei rhedeg yn llwyddiannus.



**Prentisiaid Allanol Anelu'n Uchel -**

- Cyfanswm Prentisiaid allanol 102 (16-24 oed)
- Ar hyn o bryd mae 20 o brentisiaid ar y rhaglen
- Defnyddiwyd dros 22 o gwmnïau lletyol ym Mlaenau Gwent
- Prentisiaid sy'n byw yn BG ar 44%
- Y canrannau yw 90% o brentisiaid gwrywaidd a 10% o rai benywaidd
- Llwybrau Prentisiaethau Amrywiol – o fewn lleoliad gweithgynhyrchu Uwch

**Prentisiaid Mewnol -**

- Hwyluswyd 29 o brentisiaid Mewnol – Proffil oedran 17-42 oherwydd y gallem letya prentisiaethau ar gyfer pobl o unrhyw oedran.
- 18 o Brentisiaid ar y rhaglen ar hyn o bryd.
- 60% Gwrywaidd 40% Benywaidd
- 63% yn byw ym Mlaenau Gwent
- dros 10 o adrannau gwahanol gan gynnwys cymorth Busnes, trafnidiaeth, gwasanaethau cymdeithasol, addysg ac ati.
- 8 prentis wedi camu ymlaen at gyflogaeth

**Plant sy'n Derbyn Gofal sy'n rhan o Anelu'n Uwch -**

- 43 o atgyfeiriadau o 14+
- Wedi ymateb i 31- gan roi cymorth gydag:
  - Opsiynau gyrfa
  - Gweithdai CV
  - Ceisiadau am swyddi/ datgeliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- 18 lleoliad gwaith/hyfforddeiaeth wedi'u hwyluso. 7 o'r rhain bellach mewn cyflogaeth

**Heriau Allweddol a Adnabuwyd ar gyfer Gweithredu yn 2024/25**

- Gweithredu cynlluniau i wella presenoldeb a lleihau gwaharddiadau i lefelau cyn Covid, gan gynnwys mynd i'r afael â'r rhesymau dros waharddiadau
- Gweithio gyda Chanolfan yr Afon i roi cymorth iddi gael ei thynnu allan o Gategori Estyn
- Gweithio gydag Ysgol Gynradd Bryn Bach fel rhan o'i Gwaith Dilynol gan Estyn
- Defnyddio data ADY yn fwy effeithiol i oleuo'r broses gynllunio hirdymor
- Gweithio i leihau nifer y rhai sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref
- Gweithio gyda Choleg Gwent i gynorthwyo disgyblion i berfformio yng Nghyfnod Allweddol 5
- Mynd i'r afael â'r pwysau ariannol o fewn y gyllideb addysg fel cludiant rhwng y cartref a'r ysgol ac ysgolion mewn diffyg
- Datblygu un prosiect allweddol ym mhob cynllun creu lleoedd ar gyfer tref gydag adnoddau cyfyngedig
- Gweithio gyda data Mynegai Cystadleurwydd y DU i wella safle BG am ail flwyddyn.
- Parhau i sicrhau bod y portffolio diwydiannol yn addas i'w osod i fusnesau lleol
- Agor Goldworks a dechrau meithrin galluoedd entrepreneuriaeth yn BG
- Dathlu 10 mlynedd o gynllun prentisiaethau Anelu'n Uwch
- Gweithio i wneud yr Unedau Hybrid ar Lime Avenue yn weithredol
- Sicrhau ein bod yn bwrw ymlaen â chytundeb cyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol,
- Mynd i'r afael â'r capasiti staffio presennol a'r prosiectau sy'n dibynnu ar gyllid grant, yn benodol y Gronfa Ffyniant Gyffredin sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2025 heb unrhyw gyllid yn ei lle hyd y gellir rhagweld.
- Cynyddu nifer y prentisiaethau, gan gynnwys Prentisiaethau'r Awdurdodau Lleol



| Dangosydd Perfformiad | Data | | | | | Sylw a Sgôr CAG |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | |
| % y disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim (cPYADd) BG<br>% y disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim (cPYADd) Cymru | 25.5<br>19.9 | 31.4<br>22.9 | 33.3<br>23.3 | 24.6<br>22.2 | 24.1<br>21.3 | Dirywiad bach |
| % presenoldeb – Cynradd<br>% Presenoldeb – Uwchradd | AMH | 89.9%<br>84.8% | 89.0%<br>84.8% | 90.4%<br>85.8% | 90.7%<br>86.6%<br>(heb ei wirio) | Cynnydd bach mewn presenoldeb, mae ffigwr uwch yn well |
| Nifer y disgyblion sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref | 70 | 89 | 132 | 143 | 158 | Cynnydd yn nifer y rhai sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref, mae ffigwr is yn well |
| Nifer yr Ysgolion yn y categori Peri Pryder | 4 | 2 | 2 | 2 | 1 | 1 (allan o gyfanswm o 25) |
| Nifer y disgyblion mewn ysgolion a gynhelir gan yr ALl (ar draws 25 o ysgolion) | 9,378 | 9,527 | 8,828 | 9,392 | 9,485 | Cynnydd yn y ffigwr, mae ffigwr uwch yn Well |
| % o ddisgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) | 19.2 | 17.9 | 15.7 | 13.8 | 10.1 | % wedi gostwng, mae ffigwr is yn well |
| % Cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 5:<br>• Cyfradd lwyddo ar y cyfan<br>• Graddau A* i C<br>• Graddau A* i A | <br>98<br>76<br>29 | <br>99<br>82<br>31 | <br>97.8<br>80.5<br>26 | <br>97.8<br>76.5<br>27.2 | <br>94.7<br>64.8<br>18.9 | Dirywiad yng nghanlyniadau CA5, mae ffigwr uwch yn well |
| Nifer a % y bobl ifanc Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant<br>*Data'n cael ei gasglu ym mis Mehefin a'i gwirio ym mis Hydref* | 1.9% | 1.5%<br>9 | 1.6%<br>9 | 5%<br>31 | 2.5%<br>14<br>(heb ei wirio) | Mae'r niferoedd Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant wedi lleihau, mae ffigwr is yn well |
| Prentisiaid Mewnol Anelu'n Uwch – Prentisiaethau'r ALl | AMH | 5 | 10 | 12 | 8 | Gostyngiad yn nifer y Prentisiaethau ALl, mae ffigwr uwch yn well |
| Prentisiaid Allanol Anelu'n Uwch - Prentisiaeth a gynigir mewn diwydiant | 13 | 9 | 8 | 17 | 16 | Dirywiad bach, mae ffigwr uwch yn well |
| % Meddiannaeth Unedau Diwydiannol Blaenau Gwent | 89% | 88% | 87% | 85% | 89% | Wedi mynd y tu hwnt i'r targed o 70%<br>Mae ffigwr uwch yn well |
| % Meddiannaeth arwynebedd llawr Unedau Diwydiannol Blaenau Gwent | 81% | 92% | 93% | 93% | 93% | Wedi mynd y tu hwnt i'r targed o 70%<br>Mae ffigwr uwch yn well |


*Nodyn – Nid yw data addysg 2023/24 yn cael ei ddilysu tan fis Rhagfyr 2024*



# Amcan Llesiant 2

## *Ymateb i'r argyfwng natur a hinsawdd a galluogi cymunedau cysylltiedig*

**Pam Fod Hyn Yn Bwysig fel Maes Ffocws:**
Mae gan Flaenau Gwent dreftadaeth gyfoethog, a'i adeiladau a chefn gwlad yw'r hyn sy'n ei wneud yn lle deniadol i fyw, gweithio ac ymweld ag ef. Dylid defnyddio'r amgylchedd lleol i helpu i wella iechyd a llesiant ar gyfer teuluoedd a chymunedau a dylid ei wella er mwyn i genedlaethau'r dyfodol barhau i'w fwynhau. Ceir gwir awydd i weld y cymunedau lle mae pobl yn byw yn cael eu cadw'n lân, yn daclus ac yn ddefnyddiadwy, gan greu ardaloedd y gall pobl fod yn falch ohonynt.




**Yr Hyn yr Ydym yn Anelu at ei Gyflawni –** Bod Cyngor Blaenau Gwent yn lleihau ei allyriadau carbon yn helaeth, ac yn darparu amgylchedd sy'n cefnogi twf a llesiant ac sy'n cysylltu cymunedau.

Mae'r naratif canlynol yn rhoi adlewyrchiad gwerthusol o'r gweithgarwch, a gyflawnwyd trwy gydol 2023/24, ar draws meysydd gwasanaeth sy'n cefnogi'r Amcan Llesiant hwn yn uniongyrchol. Mae'r naratif yn adlewyrchu'r hyn sydd wedi mynd yn dda ond hefyd, ac yn bwysicach na hynny, ble'r ydym yn profi heriau. Mae'r heriau hyn wedyn wedi cael eu coladu ar ddiwedd pob adran. Bydd y meysydd hyn yn cael eu nodi fel meysydd ffocws wrth edrych tua'r dyfodol a byddwn yn adrodd arnynt fel rhan o'n Hunanasesiad nesaf, yn ogystal â gwaith monitro perfformiad trwy gydol y flwyddyn.

**Gwastraff ac Ailgylchu**
Rhwng 2019/20 a 2022/23, aeth Blaenau Gwent y tu hwnt i darged ailgylchu statudol Llywodraeth Cymru o 64%, gan gyrraedd
- 2019/20 – 65.31%
- 2020/21 –64.29%
- 2021/22 - 64.94%
- 2022/23 - 66.78%.


Ar gyfer 2023/24, mae'r llwyddiant hwnnw wedi cael ei gynnal ac fe aethpwyd y tu hwnt i'r targed o 64% eto, gan gyrraedd 66.18%. Mae cyrraedd targed Llywodraeth Cymru o 70% erbyn diwedd 2024/25 yn mynd i fod yn her enfawr; y nod yw lleihau faint o wastraff gweddilliol [bagiau duon] sy'n cael ei gasglu, a chynyddu cyfranogiad mewn ailgylchu ledled y Fwrdeistref. Gan dybio bod cyfanswm y gwastraff trefol yn aros yn gyson, er mwyn cyrraedd 70%, byddai angen i'r Cyngor leihau gwastraff gweddilliol a chynyddu ailgylchu o 1,218.56 tunnell. Am bob cynnydd o 1% byddai angen dargyfeirio 319.01 tunnell o'r tunelledd gweddilliol i dunelleddau ailgylchu/compostio.  Mae hyn yn cael ei wneud yn anos gan bethau fel gerddi llai yn yr ardal ar y cyfan felly mae ffigyrau gwastraff gwyrdd fel rheol yn is nag ardaloedd eraill. Rhaid i'r Cyngor gynnal a gwella ei dargedau ailgylchu gan bod cosb ariannol yn cael ei rhoi gan Lywodraeth Cymru os na chyrhaeddir y rhain. Y ddirwy ar hyn o bryd am beidio â chyrraedd y targed yw £200 y dunnell am bob tunnell o dan y swm sy'n ofynnol i gyrraedd y targed. Felly, pe bai'r gyfradd ailgylchu bresennol o 66.18% yn aros yr un fath yn 2024/25 gallai Blaenau Gwent gael dirwyon o £243,712.



Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, trwy Bartneriaethau Lleol a Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau, i ddatblygu Strategaeth Wastraff newydd a fydd yn nodi'r heriau yr ydym yn eu hwynebu a'r camau gweithredu strategol y bydd angen i ni eu cymryd i gynyddu ein cyfradd ailgylchu i 70% a'r tu hwnt a lleihau ein gwastraff ar y cyfan.

| Dadansoddiad o Berfformiad yn 2023/24 | | |
|---|---|---|
| **Chwarter** | **2022/23** | **2023/24** |
| Chwarter 1 (Ebrill – Meh) | 67.76% | 70.11% |
| Chwarter 2 (Gorff – Medi) | 68.29% | 66.99% |
| Chwarter 3 (Hyd – Rhag) | 64.66% | 61.91% |
| Chwarter 4 (Ion – Mawrth) | 66.32% | 65.42% |
| **Blynyddol (yn ôl y sefyllfa ar 31 Mawrth sydd heb ei gwirio eto gan Cyfoeth Naturiol Cymru)** | 66.78% | 66.18% |

Wrth edrych ar y dadansoddiad o ffigyrau tunelledd ar gyfer 2023/24, o'i gymharu â 2022/23, mae'n dangos bod gwastraff gweddilliol, gwastraff bwyd a gwastraff Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref wedi cynyddu, tra bo gwastraff gerddi ac ailgylchu wrth ymyl y ffordd wedi gostwng.




- Mae gwastraff gweddilliol wedi cynyddu 300.91 tunnell (2.52%)
- Mae gwastraff bwyd wedi cynyddu 26.24 tunnell (0.73%)
- Mae ailgylchu wrth ymyl y ffordd wedi gostwng 389.27 tunnell (7.24%)
- Mae gwastraff gerddi wedi gostwng 198.54 tunnell (11.79%)
- Mae ailgylchu mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref wedi cynyddu 1103.79 tunnell (24.06%)

**Gorfodi ar Wastraff Ochr** – Trwy ddefnyddio dyfeisiau 'yn y cab', mae criwiau sbwriel ac ailgylchu bellach yn cofnodi materion halogi sy'n ymwneud â gwastraff ochr a deunyddiau i'w hailgylchu sydd dros ben ar gyfer eu cyfeirio at Wardeiniaid Gorfodi'r Awdurdod, sy'n gwneud gwaith dilynol mewn ymateb i'r atgyfeiriadau hyn ar ffurf camau gorfodi neu ymweliadau cynghori fel y bo'n briodol. Mae hyn yn rhyddhau amser swyddogion i'w gwneud yn bosibl cynnal mentrau mwy rhagweithiol, fel y fenter 'Cystadlu â'r Cymdogion' gyfredol, a'r Ymgyrch Bwyd.

**Cystadlu â'r Cymdogion** – Mae'r ymgyrch, sy'n ceisio lleihau faint o ddeunydd ailgylchadwy a roddir allan gan ddeiliaid tai yn eu gwastraff gweddilliol, wedi cael ei gwblhau yn 2023/24 sy'n golygu bod pob eiddo domestig yn y Fwrdeistref Sirol, dros 30,000 o gartrefi, wedi cael ymweliad ers i'r ymgyrch ddechrau. Mae'r Tîm Gorfodi Rheng Flaen bellach wedi'i raglennu i gwblhau ailymweliadau yn 2024/25, gan ddefnyddio'r ymgyrch Cystadlu â'r Cymdogion, â thros 6000 o gartrefi sydd wedi dangos diffyg cydymffurfio hanesyddol â rheolau ailgylchu'r Awdurdod.

**Ymgyrch Bwyd** - Yn dadansoddi gwastraff diweddar, a ganfu fod

dilyn ymarfer

23% o



gynnwys bagiau sbwriel duon yn ystod y cyfnod samplu'n wastraff bwyd, mae'r Awdurdod yn cynnal ymarfer monitro ac ymgysylltu ar draws yr 14 rownd ailgylchu i adnabod yr aelwydydd hynny nad ydynt yn rhoi gwastraff bwyd allan i'w ailgylchu ar hyn o bryd. Mae'r aelwydydd hynny'n cael ymweliad gan swyddog i sicrhau bod ganddynt y cynwysyddion ailgylchu priodol a'u bod yn deall y gwasanaeth a gynigir gan yr Awdurdod i hybu mwy o gyfranogiad. Yn ystod 2023/24 cwblhawyd yr ymarfer cyn-fonitro, ymgysylltu ac ôl-fonitro hwn ar draws 12 rownd, cyfanswm o 28,824 eiddo, ac mae wedi arwain at gynnydd o 15.4% yn y cartrefi hynny sy'n cymryd rhan mewn ailgylchu gwastraff bwyd. Mae'r ymgyrch wedi'i raglennu i gael ei gwblhau yn gynnar yn 2024/25.

**Caffi Atgyweirio** – Oherwydd llwyddiant y caffi atgyweirio cyntaf yng Nglyn Ebwy, a lansiwyd ym mis Chwefror 2023, agorodd caffi atgyweirio pellach ym mis Ionawr 2024 yng nghanolfan adnoddau Rassau. Mae'r ddwy ganolfan gyda'i gilydd wedi atgyweirio dros 200 o eitemau i breswylwyr ac maent yn parhau i gynnig gwasanaeth atgyweirio unwaith y mis.


**Siop Ailddefnyddio** - Mae Wastesavers yn rheoli'r siop ailddefnyddio sydd wedi'i lleoli yng Nghanolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref Roseheyworth a, hyd yma, maent wedi ailddefnyddio 106 tunnell o wahanol eitemau. I roi hwb ac anogaeth i ailddefnyddio, crëwyd postiadau rheolaidd ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn cymell pobl i roi a phrynu eitemau. Hefyd, roedd gwisg ysgol i'w hailddefnyddio a teganau Nadolig a gyflwynwyd yn rhodd ar gael am ddim i deuluoedd.




**Cewynnau Amldro** – Mae Wastesavers wedi gosod cewynnau amldro ym mhob llyfrgell ledled y Fwrdeistref, ac maent ar gael am ddim. Maent i gyd yn dod gyda chyfarwyddiadau golchi wedi'u hargraffu a chod QR i gael rhagor o wybodaeth. I ddechrau, dosbarthwyd tua 30 o gewynnau amldro i lyfrgelloedd ac roedd y nifer a fanteisiodd arnynt yn llwyddiannus, sydd wedi arwain at ddosbarthu rhagor o gewynnau brethyn amldro i'r llyfrgelloedd. Unwaith y mis yn y Ganolfan Addysg yn Roseheyworth, trefnwyd sesiynau galw heibio i ddangos i unigolion sut i ddefnyddio'r cewynnau amldro'n gywir.

**Tipio Anghyfreithlon a Glanhau Strydoedd**

Mae defnyddio unedau teledu cylch cyfyng ledled Blaenau Gwent yn parhau i dargedu cilfannau ar briffyrdd a lleoliadau gwledig lle ceir digwyddiadau tipio anghyfreithlon toreithiog. Rhoddodd Blaenau Gwent y trydydd nifer uchaf o hysbysiadau cosb benodedig am dipio yng Nghymru am dipio anghyfreithlon yn ystod 2022/23, gyda 79 o hysbysiadau cosb benodedig wedi'u rhoi ac mae wedi mynd y tu hwnt i'r nifer hwn eleni, gyda 110 o hysbysiadau cosb benodedig wedi'u rhoi rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024.




Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd cyfanswm o 50 o hysbysiadau cosb benodedig £300 dan y Ddyletswydd Gofal Gwastraff Masnachol i fusnesau nad oedd ganddynt drefniadau gwaredu gwastraff priodol ac fe gafodd 9 unigolyn eu herlyn am gyfanswm o 43 o droseddau gwastraff a arweiniodd at roi £25,639 mewn dirwyon a chostau gan y Llysoedd. O'i gymharu â'r llynedd, bu gostyngiad o 21% mewn digwyddiadau tipio anghyfreithlon ar gyfer 2023/2024.

| 2023/2024 | Nifer a gofnodwyd |
|---|---|
| Nifer y digwyddiadau tipio anghyfreithlon | 950 |
| Nifer yr hysbysiadau cosb benodedig am Adael Sbwriel a roddwyd | 316 |
| Nifer yr hysbysiadau cosb benodedig Rheoli Cŵn a roddwyd | 65 |
| Dyletswydd Gofal Gwastraff Masnachol | 50 |

**Datgarboneiddio**




Mae'r Cyngor yn ymroddedig i ysgogi ymdrechion datgarboneiddio ledled Blaenau Gwent ac mae'n gweithio'n frwd i gyfrannu at nod Llywodraeth Cymru i wneud Sector Cyhoeddus Cymru’n Sero Net erbyn 2030, yn ogystal â chyflawni Sero Net i Gymru gyfan erbyn 2050. Er mwyn cefnogi'r amcanion hyn, mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun Datgarboneiddio 10 mlynedd. Mae taith y Cyngor tuag at y targedau Sero Net hyn yn cael ei goruchwylio gan ein Grŵp Hinsawdd, y mae ei aelodaeth graidd yn cynnwys yr Aelod Cabinet a'r Hyrwyddwr Hinsawdd, tri aelod o'n huwch dîm arwain a chynrychiolydd undeb llafur.  Mae'r grŵp yn cwrdd bob chwe wythnos gyda ffocws bob yn ail ar Sero Net 2030 mewn un cyfarfod a Sero Net 2050 yn y nesaf.

Rydym wedi gwneud rhywfaint o gynnydd tuag at gyflawni Sero Net 2030 yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys gostyngiad o 3% yn ein hallyriadau uniongyrchol y llynedd, a gostyngiad cronnus o 19% dros y pedair blynedd ddiwethaf o'n llinell sylfaen yn 2019/20.

| tunnell o CO2e y flwyddyn | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | Newid o'r Flwyddyn Sylfaen | Newid ers y Llynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Allyriadau Carbon Uniongyrchol | 14,783 | 11,818 | 13,100 | 12,353 | 11,949 | -19% | -3% |

Yn ystod y flwyddyn, dyfarnwyd cyllid penodol i'r Cyngor i helpu i oresgyn rhwystrau systemig annhechnegol i fabwysiadu datrysiadau sero net ac addasu eu maint yn unol â’r anghenion. Defnyddiwyd peth o'r cyllid hwn i weithio gyda thrigolion ar dreial gwefru stryd ar raddfa fach. Cynhaliwyd digwyddiad a oedd yn gwahodd darparwyr datrysiadau i ddangos pa ddatrysiadau oedd ganddynt i oresgyn y rhwystrau hyn. Defnyddiwyd dau o'r datrysiadau hyn yn y treial y cymerodd 13 eiddo ledled y Fwrdeistref ran ynddo. Rydym wedi cryfhau ein hymdrechion tuag at Sero Net 2050 trwy ein Fframwaith Sero Net 2050 a'n Cynllun Ynni Ardal Leol, sy'n nodi'r hyn y mae angen i Flaenau Gwent ei wneud i gyrraedd Sero-Net. Er bod prosiectau ar raddfa fach yn helpu i wneud gwahaniaeth bach ar gyfer cyrraedd targedau, ni all Blaenau Gwent gyrraedd Sero Net trwy fentrau lleol yn unig; rydym hefyd yn dibynnu ar ymdrechion ehangach, adnoddau ychwanegol, a chymorth allanol i gyrraedd y nodau hyn.




Mae ymrwymiad Cyngor Blaenau Gwent i gynyddu nifer y mannau gwefru Cerbydau Trydan (EV) ar hyd a lled y Fwrdeistref wedi bod ar y gweill ers tro byd. Rydym yn gweld cynnydd cyson mewn cerbydau allyriadau isel iawn sydd wedi'u trwyddedu ledled Blaenau Gwent ac mae cyllid wedi cael ei gadarnhau ar gyfer ail gam y cynllun cyflawni. Mae'r rhestr lawn o fannau gwefru cerbydau trydan ledled Blaenau Gwent i'w gweld yma

Mae gweithio integredig effeithiol wedi galluogi gwasanaeth Prydau Cymunedol y Gwasanaethau Cymdeithasol i ddod yn fwy cynaliadwy, gan gefnogi strategaeth y cyngor i leihau allyriadau carbon. Yn ystod y cyfnod adrodd, fe lansiwyd y Gwasanaeth Prydau Cymunedol wedi'i ailfrandio. Roedd hyn yn cynnwys dadorchuddio eu cerbydau trydan newydd a ariannwyd yn rhannol trwy gyllid grant Llywodraeth Cymru. Greenhouse gas emissions in Blaenau Gwent fall – as new Government ramps up action towards net zero (msn.com)



## Comisiynu a Chaffael

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a CLlLC trwy'r Rhwydwaith Caffael Cenedlaethol i ddatblygu dull cyffredin o ddefnyddio Cynlluniau Lleihau Carbon yn ein prosesau caffael. Datblygwyd y dull hwn gan 10 Cyngor ar draws Rhwydwaith Caffael De Ddwyrain Cymru, i sicrhau bod dull cyson o wneud cais am Gynlluniau Lleihau Carbon ar draws y rhanbarth, ac i roi cymorth i gyrraedd ein priod dargedau Sero Net 2030.

Mae lleihau carbon yn cael ei ystyried ym mhob strategaeth cyrchu unigol. Gan ddibynnu ar natur a chwmpas pob gofyniad, gall hyn ymwneud â manylebau cynnyrch, methodolegau gweithredu a/neu olion traed carbon cyflenwyr, lle mae cwmnïau'n darparu Cynlluniau Lleihau Carbon sefydliadol fel rhan o'u ceisiadau tendro.

Mae perfformiad ein Hôl Troed Carbon, sy'n gysylltiedig â gweithgareddau Comisiynu a Chaffael y Cyngor, oddeutu 75% - 80%, sy'n gyson ar draws awdurdodau lleol eraill Cymru.

## Ansawdd aer

Datgenir ardal rheoli ansawdd aer pan geir gormodiant y tu hwnt i safonau ansawdd aer, a bod rhaid i'r awdurdod lleol gymryd camau cyfreithiol i wella'r sefyllfa. Ym Mlaenau Gwent mae gennym lefelau ansawdd aer da, felly nid ydym wedi datgan unrhyw ardaloedd rheoli ansawdd aer.

## Tai ac Ynni

Mae pob un o'r pedwar landlord cymdeithasol cofrestredig ym Mlaenau Gwent (Tai Calon, Linc Cymru, United Welsh a Melin) yn parhau i gyflawni cynlluniau tai a gefnogir gan y dyraniad cyllid a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru i gyflawni gweithgarwch graddol y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio. Prif thema'r rhaglen yw gwres fforddiadwy a datgarboneiddio a gyflawnir trwy'r llwybr gorau ar gyfer pob cartref unigol.

Rhagwelir y bydd 90% o stoc dai gyfredol Cymru'n dal i gael ei defnyddio erbyn 2050. Y brif her fydd ôl-osod ein stoc dai bresennol, sy'n arbennig o hen; cafodd traean o gartrefi Cymru eu hadeiladu cyn 1919 a dim ond 6% gafodd eu hadeiladu yn ystod y 30 mlynedd ddiwethaf. Dyfeisir dull ffabrig cyfan o ôl-osod gyda'r nod o sicrhau bod eiddo'n gweithredu mewn modd mor effeithlon o ran ynni â phosibl, gyda phob agwedd ar yr adeilad yn ategu ei gilydd. Mae'n rhaid i ôl-osod ddigwydd yn lleol i raddau helaeth. Mae hyn yn her ac yn gyfle sylweddol i Flaenau Gwent. Mae'r sgiliau a'r gofynion o ran y gadwyn gyflenwi ar gyfer ôl-osod ar y raddfa sy'n ofynnol gan Sero Net 2050 ymhell y tu hwnt i'r capasitïau cyfredol yn lleol ac yn genedlaethol. Fodd bynnag, maent hefyd yn cyflwyno cyfleoedd ar raddfa fawr ar gyfer swyddi a busnesau y mae'n rhaid iddyn fod wedi'u lleoli ym Mlaenau Gwent, ac mae potensial sylweddol i'r manteision hyn gael eu cadw mewn busnesau a chymunedau lleol. Mae'r Cabinet wedi cymeradwyo ei gyfranogiad mewn cynllun rhanbarthol gyda'r nod o wella effeithlonrwydd ynni yng nghartrefi'r trigolion mwyaf tlawd o ran tanwydd yn y fwrdeistref.

Bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r cyflenwr ynni EDF, fel rhan o'r Cynllun Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO4 Flex), i adnabod unedau eiddo domestig ac arnynt angen mesurau gwella ynni. Bydd cartrefi cymwys yn cael eu hôl-osod ag ystod o fesurau insiwleiddio a gwella ynni fel rhan o ddull 'tŷ cyfan'. Mewn cynllun blaenorol, gwelwyd 134 o aelwydydd ym Mlaenau Gwent yn elwa o fesurau gan gynnwys amnewid boeleri ac inswleiddio waliau ceudod, waliau mewnol ac atigau, gosod gwresogi canolog am y tro cyntaf, uwchraddio gwresogyddion trydan a gosod paneli solar. Mae elfen hyblyg o'r cynllun newydd yn galluogi cynghorau i deilwra cynlluniau effeithlonrwydd ynni i'w hardal. O dan ECO4 Flex, gall cynghorau atgyfeirio aelwydydd mewn deiliadaeth breifat y maent yn ystyried eu bod yn byw mewn tlodi tanwydd neu ar incwm isel ac yn agored i niwed o ganlyniad i effeithiau byw mewn cartref oer.

Mae datgarboneiddio'r system drydan wedi gwneud cynnydd cryf, mae allyriadau o drydan wedi gostwng 50% ers 2013 a 64% ers 1990, ac mae gan Lywodraeth y DU siawns dda o gyflawni ei hymrwymiad i ddatgarboneiddio'r cyflenwad trydan erbyn 2035. Ond cyflawnwyd hyn i raddau helaeth gan nifer fach o sefydliadau cenedlaethol. Er mwyn lleihau allyriadau mewn meysydd eraill bydd yn rhaid wrth gamau gweithredu gan ystod ehangach o lawer o sefydliadau, gan gynnwys ar lefel leol.



### Cynllun Ynni Ardal Leol

Mae Cynllunio Ynni Ardal Leol yn system ynni gyfan, sy'n bwrw golwg ar ynni o'r Sector Domestig, Diwydiannol, Masnachol, Cyhoeddus, Amaethyddiaeth a Thrafnidiaeth ar draws ardal gyfan yr awdurdod lleol. Mae'n seiliedig ar ddata ac yn canolbwyntio ar asedau ynni lleol a thueddiadau'r galw am ynni ledled Blaenau Gwent. Gwneir gwaith modelu senarios hefyd, gan fapio'r galw disgwyliedig am ynni, hyd at 2050, gan ganolbwyntio ar asedau ynni lleol a thueddiadau'r galw am ynni, gan ystyried targedau ac amodau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gyflawni Sero-Net. Arweinir y Cynllun Ynni Ardal Leol gan y Cyngor ond mae'n cynnwys rhanddeiliaid a chynghorau ar draws ffiniau i gael cefnogaeth ac ymrwymiad er mwyn dod â llwyddiant. Bydd y Cynllun Ynni Ardal Leol yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a bydd yn cynnwys:

- Map Llwybr - A fydd yn nodi'r llwybr mwyaf effeithiol ar gyfer yr ardal leol i gyfrannu at ynni sero net erbyn 2050 gan ystyried y galw am ynni yn y dyfodol;
- Cynllun Gweithredu – sy’n disgrifio'r camau gweithredu y mae eu hangen dros y pum mlynedd nesaf - i ateb y galw am ynni yn y dyfodol yn ôl y gwahanol ffynonellau a thechnolegau ynni adnewyddadwy; a hefyd
- Canlyniad: Cynllun gofodol, wedi’i gostio sy'n nodi'r newid y mae ei angen i'r system ynni leol a'r amgylchedd adeiledig, gan fanylu ar beth, ble, pryd a chan bwy. Mae'n darparu lefel y manylder ar gyfer ardal sy'n cyfateb i ddyluniad amlinellol neu uwchgynllun; mae angen gwaith dylunio manwl ychwanegol er mwyn i brosiectau a adnabuwyd fynd ymlaen i gael eu gweithredu.

Rydym yn parhau i ymchwilio i gyfleoedd sy'n ymwneud â charbon sero o fewn y portffolio Landlord Corfforaethol ac yn cynorthwyo eraill i ddatblygu cynlluniau ynni. Mae gwaith mewn perthynas â datblygu Prosiectau Ynni’n parhau gyda chynnydd yn cael ei wneud ar Dyrbin Gwynt Silent Valley. Mae hyn bellach wedi cael caniatâd cynllunio a bydd yn symud ymlaen i’r cam caffael pan fydd yr achos dros fuddsoddi’n cael ei ail-benderfynu. Mae gwaith yn parhau ar ddatblygu seilwaith ar gyfer fflyd, ysgolion ac adeiladau Cyngor Blaenau Gwent.

### Bioamrywiaeth

Mae adran 6 Deddf yr Amgylchedd yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth' i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol. Wrth wneud hynny, rhaid i'r Awdurdod Lleol hefyd geisio 'hybu cydnerthedd ecosystemau'. Er mwyn helpu i gyflawni'r ddyletswydd hon, mae gan y Cyngor Flaengynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (2022-2025). Mae gan y cynllun chwe nod a fydd yn helpu i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hybu cydnerthedd ecosystemau ym Mlaenau Gwent erbyn 2025. Mae'r nodau hyn yn cynnwys lleihau'r defnydd o adnoddau ar y cyfan, a chynyddu’r ddealltwriaeth am fioamrywiaeth ac ecosystemau ymhlith staff ac Aelodau Etholedig.

Yn ystod y flwyddyn, parhawyd i ddefnyddio’r Grant Cyfalaf Lleoedd Lleol ar gyfer Natur i helpu i wella mannau gwyrdd ledled y Fwrdeistref, gan gynnwys gwelliannau i randiroedd, perllannau cymunedol a chreu Dolydd Blodau Gwyllt. Cynhaliwyd nifer o weithdai a digwyddiadau hefyd i ymgysylltu â'r gymuned leol a rhoi cyngor, arweiniad a helpu'r gymuned leol i ddarganfod natur.

Er mwyn helpu i roi hwb i greu cynefinoedd sy'n gyfeillgar i beillwyr ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor, mae Polisi Peillwyr newydd wedi cael ei ddatblygu ac mae'n nodi ystod o gamau gweithredu. Mae'r berthynas rhwng bioamrywiaeth a datgarboneiddio yn un o atgyfnerthu ei gilydd, lle mae llwyddiant un yn aml yn hybu llwyddiant y llall. Wrth gynllunio prosiectau unigol, mae ystyried yr agenda datgarboneiddio a bioamrywiaeth yn sicrhau bod y manteision i'r amgylchedd yn cael eu cynyddu i’r eithaf. Mae rhai o'r prosiectau hyn ar gyfer 2023/2024 yn cynnwys:

- Adnewyddu hen gamau sy'n arwain at Faes Parcio Rhiw Wen i mewn gyda gosod sianel olwyn ac arwyddion newydd i gynorthwyo beicwyr i gludo eu beiciau i fyny ac i lawr y grisiau i hyrwyddo teithio llesol;
- Llwybrau mynediad a mynedfeydd i'r safle yn Garden City gwella gan agor y warchodfa i bobl a grwpiau lleol; a
- Cefnogi partneriaid Pentref Tyleri, i gyflawni Prosiect Creu Tir Gwlyb.



Mae'r dull cyfannol hwn nid yn unig yn mynd i'r afael â phryderon amgylcheddol uniongyrchol ond hefyd yn adeiladu fframwaith cynaliadwy ar gyfer gwytnwch yn y dyfodol.

**Cludiant Cyhoeddus**

Yn dilyn buddsoddiad o £70 miliwn trwy'r Cyngor a Llywodraeth Cymru, mae Trafnidiaeth Cymru a Network Work Wales bellach yn darparu gwasanaethau uniongyrchol rhwng Glyn Ebwy a Chasnewydd, gyda 2 drên yr awr o Lyn Ebwy. Mae cyfanswm o 60 o wasanaethau trenau'n rhedeg bob dydd. Mae'r prosiect hefyd wedi arwain at adeiladu pont droed gwbl hygyrch yn Llanhiledd a phlatfformau newydd yn Llanhiledd a Threcelyn, sy'n golygu bod mynediad heb risiau bellach at bob platfform ar y lein.

Er mwyn galluogi'r gwasanaethau i redeg, adeiladwyd dolen basio 7 milltir newydd rhwng Crosskeys ac Aberbeeg ochr yn ochr â chloddwaith a draenio newydd, a adeiladwyd i ddarparu ar gyfer y trac newydd. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae'r Adran Drafnidiaeth a Network Rail wedi darparu £17m arall o gyllid i gyflawni'r gwaith uwchraddio signalau ym mhen deheuol y lein.

**Priffyrdd**

Gwnaed cynnydd sylweddol dros y 10 mlynedd ddiwethaf ar wella'r rhwydwaith priffyrdd; fodd bynnag, mae'r diffyg cyllid gan Lywodraethu Cymru ar gyfer 2023/24, a diwedd y Rhaglen Benthyca Darbodus wedi cwtogi buddsoddiadau cyfalaf yn y rhwydwaith priffyrdd. Bydd cwblhau'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd 2023/28 a'i fabwysiadu'n ffurfiol yn cefnogi ac yn llywio dull cynnal a chadw'r Awdurdod dros y 5 mlynedd nesaf. Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd, a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 21 Medi 2023, yn disgrifio sut y bydd y Cyngor yn cynnal y rhwydwaith ffyrdd sydd o dan ei reolaeth. Mae'n manylu ar y gweithdrefnau a ddefnyddir i gynllunio a gweithredu'r holl waith a swyddogaethau sy'n gysylltiedig â rheoli, gweithredu a chynnal a chadw asedau priffyrdd gan gynnwys sut mae'r gweithgareddau'n cael eu monitro i sicrhau y cydymffurfir â pholisïau'r cyngor.

Bydd y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd yn tywys y Cyngor, ac yntau'n gweithredu fel yr Awdurdod Priffyrdd, wrth reoli'r rhwydwaith priffyrdd mabwysiedig i sicrhau:

- Bod yr holl asedau'n parhau i ddarparu gwasanaeth i'r gymuned a defnyddwyr priffyrdd ar lefel y cytunwyd arni;
- Bod cyfarwyddyd eglur i Aelodau Etholedig a staff y Cyngor i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch y rhwydwaith priffyrdd mabwysiedig;
- Bod gofynion deddfwriaethol yn cael eu bodloni;
- Bod amlygiad i risg o ran diogelwch yn cael ei liniaru i lefelau derbyniol y cytunwyd arnynt;
- Mai dim ond ar ôl i gostau a manteision oes gyfan gael eu hasesu a'u cytuno y rhoddir cymeradwyaeth i brynu asedau, eu cynyddu neu eu hadeiladu; ac
- Y cofnodir yn glir ac yn dryloyw sut y mae cyfrifoldebau am reoli asedau unigol wedi'i ddyrannu.

Mae'r cyngor wedi bod yn cynnal treial ar gyfer dull amgen o wneud atgyweiriadau i'r rhwydwaith priffyrdd gan gynnwys deunyddiau i lenwi tyllau. Defnyddiwyd dull bandio newydd ar gyfer selio clytiau / tyllau gyda'r nod o wneud i'r gorffeniad edrych yn fwy dymunol i'r llygad, ond yn bwysicach, estyn oes y briffordd wedi'i hatgyweirio ac atal ymweliadau dro ar ôl tro. Gan nad yw'r cynnyrch wedi'i ardystio eto, ni ellir ei ddefnyddio ar y briffordd ddosbarthedig ar hyn o bryd ond mae'n cael ei brofi ar ffyrdd di-ddosbarth i ystyried ei hirhoedledd wrth edrych tua'r dyfodol.

Mae copi o Gynllun Rheoli Asedau Priffyrdd Blaenau Gwent 2023/28 ar gael yma - CO2309D8 Appendix 1 - Highway Asset Management Plan.pdf (blaenau-gwent.gov.uk)



**Heriau Allweddol a Adnabuwyd ar gyfer Gweithredu yn 2024/25**

- Rhoi camau gweithredu ar waith i leihau faint o wastraff gweddilliol [bagiau duon] sy'n cael ei gasglu a chynyddu ailgylchu wrth ymyl y ffordd gyda'r nod o gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o 70%. Yn chwarter 1 yn 2024/25 rydym ar 69.4%
- Gweithio i fynd i'r afael â nifer y digwyddiadau tipio anghyfreithlon ledled y fwrdeistref a thargedu ardaloedd lle ceir nifer fawr o achosion
- Gweithio i adnabod sut y gall partneriaid ein cynorthwyo i gyrraedd Sero Net erbyn 2030
- Cynyddodd yr ôl troed carbon sy'n gysylltiedig â gweithgareddau Comisiynu a Chaffael y Cyngor (Tunelli o CO2) yn 2023/24. Parhau i weithio ar y maes hwn trwy weithredu'r Fframwaith Gwyrddach i gynorthwyo'r Cyngor i gyrraedd Sero Net.




| **Dangosydd Perfformiad** | **Data** | | | | | **Sylw a Sgôr CAG** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2019/20** | **2020/21** | **2021/22** | **2022/23** | **2023/24** | |
| Canran y gwastraff trefol wedi'i gasglu gan awdurdodau lleol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi | 0.3 | 0.6 | 1.3 | 0.31 | 0.17 | Mae'r Cyngor wedi lleihau % y gwastraff trefol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi<br>Mae ffigwr is yn well |
| Canran y gwastraff trefol wedi'i losgi gan adfer ynni | 44.3 | 46.7 | 45.2 | 44.20 | 44.0 | Gostyngiad bach<br>Mae ffigwr is yn well |
| Swm a fuddsoddir mewn llwybrau teithio llesol (£) | - | 234,000 | 295,000 | 766,154.73 | 756,296.62 | Gostyngiad yn y swm a fuddsoddwyd gan Lywodraeth Cymru o'i gymharu âr flwyddyn flaenorol<br>Mae ffigwr uwch yn well |
| % cyfartalog y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt ar amser (cyfartaledd cronnus dros flwyddyn) | - | 96% | 91% | 93% | 95% | Ffigwr wedi gwella<br>Mae ffigwr uwch yn well |
| % y prosesau caffael uwchlaw'r trothwy tendro sy'n ystyried amcanion Cymdeithasol a Llesiant (gan gynnwys Datgarboneiddio a'r Economi Sylfaenol) | - | - | - | 70 | 100 | % wedi cynyddu<br>Mae ffigwr uwch yn well |
| Ôl troed carbon sy'n gysylltiedig â gweithgareddau Comisiynu a Chaffael y Cyngor (Tunelli o $CO_2$) | - | - | - | 33548 | 39701 | Ffigwr wedi cynyddu<br>Mae ffigwr is yn well |



# Amcan Llesiant 3

## *Grymuso a chefnogi cymunedau i fod yn ddiogel, annibynnol a gwydn*





**Pam Fod Hyn yn Bwysig fel Maes Ffocws** – Mae ar y Cyngor eisiau annog a chynorthwyo pobl i wneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw er mwyn galluogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i ffynnu. Mae ymchwil wedi profi, os yw pobl yn dangos ymddygiadau iechyd cadarnhaol o'r adeg y cânt eu geni trwy gydol eu hoes, y bydd hynny'n arwain at fwy o annibyniaeth, ac yn golygu nad yw pobl yn byw gyda chyflyrau iechyd cymhleth yn ddiweddarach yn eu hoes. Gallai hyn yn ei dro leihau'r galw ar wasanaethau a sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn rhai o ansawdd da, yn effeithlon ac yn ymatebol i anghenion pobl leol. Gyda llai o gyllid a galw cynyddol ar wasanaethau, ni all y Cyngor wneud popeth y mae wedi'i wneud yn y gorffennol mwyach. Rhaid canolbwyntio ar y camau gweithredu hynny a fydd yn cael yr effaith fwyaf.
Mae diogelu'r bobl fwyaf agored i niwed yn y gymuned yn dal i fod yn brif flaenoriaeth i'r Cyngor ochr yn ochr â thrawsnewid dyheadau trigolion a gwerthfawrogi tegwch a chydraddoldeb ym mhopeth a wnawn.


**Yr Hyn yr Ydym yn Anelu at ei Gyflawni** - Cynnydd yng nghydnerthedd cymunedau, lle mae croeso i bawb a lle mae pawb yn ddiogel ac sy'n lleihau dibyniaeth ac yn cynyddu annibyniaeth i'r eithaf.

Mae'r naratif canlynol yn rhoi adlewyrchiad gwerthusol o'r gweithgarwch, a gyflawnwyd trwy gydol 2023/24, ar draws meysydd gwasanaeth sy'n cefnogi'r Amcan Llesiant hwn yn uniongyrchol. Mae'r naratif yn adlewyrchu'r hyn sydd wedi mynd yn dda ond hefyd, ac yn bwysicach na hynny, ble'r ydym yn profi heriau. Mae'r heriau hyn wedyn wedi cael eu coladu ar ddiwedd pob adran. Bydd y meysydd hyn yn cael eu nodi fel meysydd ffocws wrth edrych tua'r dyfodol a byddwn yn adrodd arnynt fel rhan o'n Hunanasesiad nesaf, yn ogystal â gwaith monitro perfformiad trwy gydol y flwyddyn.

**Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy**
Mae gan y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Dimau Cyngor a Chymorth Gwybodaeth (IAA) pwrpasol o hyd ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol Plant ac Oedolion sy'n gweithio fel y pwynt cyswllt cyntaf i'r cyhoedd sy'n dymuno cael cyngor a chymorth.  Mae'r timau'n cymryd dull ataliol a chryf i sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu cyn gynted â phosibl, drwy ddarparu'r gwasanaethau cywir i atal anghenion rhag gwaethygu.




Mae atgyfeiriadau at wasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy i Blant yn parhau i gynyddu. Mae'r niferoedd yn ystod 2023/24 yn sylweddol uwch gyda chynnydd o 1,372 o'i gymharu â 2022/23.  O'r 8,127 o atgyfeiriadau yn ystod 2023/24, atgyfeiriwyd 711 (8.7%) at wasanaethau ataliol (Teuluoedd yn Gyntaf), o'i gymharu â 6,755 o atgyfeiriadau yn 2022/23, gyda 772 (11%) o atgyfeiriadau at Teuluoedd yn Gyntaf.






Diwygiwyd y dull o goladu data’r atgyfeiriadau at wasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy i Oedolion ym mis Awst 2021; felly, dim ond ag un flwyddyn flaenorol y gellir cymharu data ac mae'n dangos cynnydd bach mewn cysylltiadau. O'r 4,656 o ymholiadau yn ystod y flwyddyn, datryswyd 2,506 (54%) wrth atgyfeirio, ac nid oedd angen asesiad cynhwysfawr gan y timau hirdymor. O’i gymharu, cafodd 60% eu datrys o fewn y tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy yn ystod 2022/23.

Cynhaliwyd adolygiad gan reolwyr gwasanaeth perthnasol ar wasanaethau ataliol gan ystyried sut y gallwn gefnogi ein plant a'n teuluoedd ym Mlaenau Gwent yn well ar lefel ataliol; roedd hyn yn cynnwys argymhellion ynglŷn â’r ffordd y mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf yn gweithio gyda'i gilydd, gan gynnwys datblygu un drws ffrynt / hyb cymorth cynnar. Bydd hyn yn sicrhau bod teuluoedd yn gallu cael mynediad hawdd at yr wybodaeth y mae ei hangen arnynt.

Mae'r Heddlu a Cyfannol (Cymorth Cam-drin Domestig) yn parhau i fod yn rhan o hybiau'r IAA i sicrhau bod atgyfeiriadau'n cael eu cefnogi'n gywir er mwyn osgoi'r angen i gynyddu ar gyfer asesiad statudol. Mae rheolwr gwasanaeth IAA a Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid (YOS) yn cyfateb yn rheolaidd i sicrhau bod atgyfeiriadau'n cael eu gwneud i REACH lle gellir cynnig cymorth ar gyfer cymorth atal i bobl ifanc sy'n troseddu.

## Diogelu


Mae trefniadau diogelu corfforaethol y Cyngor yn cael eu cryfhau'n barhaus gyda chydnabyddiaeth bod diogelu’n gyfrifoldeb i bawb. Rydym yn cydnabod ein dyletswyddau o ran amddiffyn a hybu lles plant, pobl ifanc ac oedolion sy’n wynebu risg. Mae hyn yn cynnwys cydweithio gyda sefydliadau eraill i helpu pob plentyn a pherson ifanc i wireddu eu llawn botensial gan hefyd barhau i ofalu am yr unigolion mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Mae adroddiad diogelu blynyddol yn cael ei lunio a'i gyflwyno i Uwch Reolwyr ac Aelodau Etholedig. Mae’r adroddiad diogelu diweddaraf i’w gael yma

Mae'r Tîm Diogelu Addysg yn parhau i gydweithio'n agos gyda sefydliadau addysgol i ddiwallu anghenion addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal (CLA). Mae'r tîm wedi penodi dau Weithiwr Cymorth Addysg, trwy'r Grant Ysgolion Rhithwir, i wella'r cymorth sydd ar gael i Blant sy’n Derbyn Gofal ymhellach. Mae'r ffordd y mae'r Cyngor yn cydweithio wedi cyfrannu'n dda at wella trefniadau gweithio amlasiantaeth a'r cymorth y mae ysgolion yn ei gael i reoli anghenion disgyblion a'u teuluoedd yn fwy effeithiol. Rydym yn cefnogi cyfleoedd dysgu addysgol plant a phobl ifanc gan hefyd gydweithio gydag Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin gyda'r nod o sicrhau bod anghenion llesiant ac addysgol pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu diwallu.

Mae Archwilio Cymru wedi cadarnhau y byddant yn dychwelyd i Flaenau Gwent ar ddiwedd 2024, i gynnal adolygiad dilynol o'n trefniadau diogelu corfforaethol.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd bod â Thimau Diogelu cadarn a chynaliadwy ar draws y Gwasanaethau Oedolion a Phlant i sicrhau ein bod nid yn unig yn ateb ein gofynion deddfwriaethol, ond ein bod hefyd yn gallu amddiffyn ein dinasyddion mwyaf agored i niwed.

Mae'r holl atgyfeiriadau diogelu’n dal i gael eu rheoli yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru a gofynion statudol. Mae llesiant pobl y mae angen ein gofal a'n cymorth ni arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt o’r pwys mwyaf i ddarparu gwasanaethau ac mae hyn yn cynnwys parchu eu diwylliant, eu credoau a'u nodweddion personol eraill, a pharchu eu dymuniadau a'u teimladau.







Mae'r Cyngor wedi gweld cynnydd mewn atgyfeiriadau diogelu oedolion o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, fel a ddangosir yn y graff uchod. Gallai'r cynnydd hwn fod yn adlewyrchu bod mwy o oedolion yn wynebu risg oherwydd tlodi cynyddol mewn perthynas â'r argyfwng costau byw sy'n effeithio ar bob cymuned leol. Roedd digwyddiad y rhwydwaith Diogelu a ddarparwyd ledled Gwent gan y Bwrdd Diogelu yn gynharach eleni'n canolbwyntio ar effaith tlodi ar y bobl fwyaf agored i niwed. Gallai'r cynnydd fod o ganlyniad i godi ymwybyddiaeth trwy'r hyfforddiant Diogelu rheolaidd yr ydym yn ei ddarparu ar y cyd gyda thîm diogelu Caerffili hefyd. Nododd adroddiadau Amddiffyn Plant fod 100% o'r Cynadleddau Amddiffyn Plant Cychwynnol yn cael eu cynnal o fewn y graddfeydd amser. O ran y sefyllfa ar ddiwedd 2024 roedd 103 o blant ar y gofrestr Amddiffyn Plant o'i gymharu â 62 o blant ar ddiwedd 2023.

Mae perfformiad diogelu'n dangos gostyngiad yng nghyfanswm yr ymweliadau â phlant ar y gofrestr amddiffyn plant a gwblhawyd o fewn graddfeydd amser statudol:

- 2023/24 – 1,270 (66.2%)
- 2022/23 – 1,516 (87.5%)




Cafodd 100 o blant eu tynnu oddi ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn. O'r rheiny, nifer cyfartalog y dyddiau yr oeddent wedi'u cofrestru ar eu cyfer oedd 209.7 diwrnod.

Mae'r holl staff newydd a benodir yn y Cyngor yn cael gwybod am drefniadau diogelu'r Cyngor fel rhan o'u rhaglen sefydlu ac mae'n ofynnol iddynt gwblhau'r lefel berthnasol o hyfforddiant diogelu.

Mae 203 o Blant sy'n Derbyn Gofal (CLA) sydd yr un nifer ag ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol. Mae cyfradd y derbyniadau i ofal wedi gostwng eleni gyda 63 o blant yn 2022/23 a 55 eleni.

Mae'r gwasanaeth cyfryngu wedi bod yn amhrisiadwy fel gwasanaeth ataliol, gan atal teuluoedd rhag chwalu a lleihau nifer y plant y mae arnynt angen lleoliadau y tu allan i'r cartref, naill ai trwy'r llwybr Plant sy'n Derbyn Gofal neu'r rhai sy'n profi digartrefedd. Mae'r ddwy swydd gyfryngu yn rhai am gyfnod penodol trwy gyllid Grant Cymorth Tai Cefnogi Pobl ac arian grant y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, ac fe gadarnhawyd bellach y bydd y gwasanaeth hwn yn parhau i gael ei ariannu am flwyddyn arall.

Mae fframwaith archwilio ar gyfer y Tîm Diogelu wedi cael ei sefydlu er mwyn asesu ymarfer ar draws y Gwasanaethau Plant. Mae'r Rheolwr Diogelu wedi datblygu cynllun gweithredu safonau arfer da Swyddogion Adolygu Annibynnol (IRO) yn ystod y cyfnod hwn i weithredu fel fframwaith ar gyfer meincnodi rolau a chyfrifoldebau Swyddogion Adolygu Annibynnol. Bydd adroddiad ar gynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu'n cael ei gynnwys gyda'r adroddiad Swyddogion Adolygu Annibynnol blynyddol.

Mae'r Cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda Cyfannol i gefnogi pobl sy'n profi cam-drin domestig. Rydym wedi comisiynu Gweithiwr Cymorth Cyfannol a neilltuir i'r rôl i fod wedi'i leoli yn y Tîm Diogelu Oedolion gan roi gwybodaeth, cyngor a chymorth i bobl sy'n profi cam-drin domestig.



Mae prosesau diogelu wedi'u hen sefydlu yn y Gwasanaeth Ieuenctid ac maent yn addas i'r diben. Mae polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith, gyda chofnodion cadarn yn cael eu cadw ar bob mater diogelu gan gynnwys atgyfeiriadau Dyletswydd i Adrodd (DTR) at y Gwasanaethau Cymdeithasol, adborth a hyfforddiant staff. Cynhelir cyfarfodydd tymhorol rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid a'r Swyddog Diogelu mewn Addysg, ac mae unrhyw feysydd sy'n peri pryder y tu allan i amddiffyn plant yn cael eu huwchgyfeirio trwy'r broses hon. Mae holl staff y Gwasanaeth Ieuenctid wedi cael hyfforddiant Prevent ac yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon yn weithredol i adnabod unrhyw bryderon mewn lleoliadau ieuenctid. Mae staff yn cael cyfleoedd rheolaidd i fynychu hyfforddiant arall i adnabod, cefnogi ac adrodd ar faterion diogelu sy'n cynnwys camfanteisio ar blant, cam-drin domestig, a chymorth gyda llesiant emosiynol. Mae gweithwyr ieuenctid yn parhau i gyfrannu'n effeithiol at gynlluniau gofal a chymorth ac yn mynychu cyfarfodydd amlasiantaeth amrywiol mewn perthynas â materion diogelu gan gynnwys cyfarfodydd Adran 115 a Chyfarfodydd Diogelwch Cymunedol.

### Gweithio mewn partneriaeth

Mae cydweithio a gweithio mewn partneriaeth mewn modd effeithiol yn ein cynorthwyo i adnabod anghenion presennol a llunio a chomisiynu gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Mae timau Comisiynu a Grant Cymorth Tai yn parhau i weithio ar y cyd gyda phresenoldeb a chyfranogiad mewn cyfarfodydd ar gyfer Comisiynwyr Rhanbarthol ledled Gwent gyfan; Gweminarau Cartrefi Gofal; Fforymau Gofal Cartref; Cyfarfodydd eiriolaeth DEWIS a gweminarau/cyfarfodydd cenedlaethol gydag Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae cydweithio ar gyfer gofal well gyda Chyngor Torfaen yn profi'n llwyddiannus, gydag arbenigwr Therapydd Galwedigaethol Gofal gan Unigolyn yn gweithio'n gyfartal rhwng Blaenau Gwent a Thorfaen, gan alluogi mwy o bwyslais ar y ffyrdd o weithio ar gyfer gofal gwell gan rannu gwybodaeth a chynnal trafodaethau a gwneud penderfyniadau ar y cyd. Dylai hyn yn ei dro leihau'r ddibyniaeth ar becynnau gofal cartref a ddarperir gan ddau unigolyn a hybu gwell canlyniadau i bobl sy'n cael gofal a chymorth.

Mae gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr cymorth Gwasanaethau Oedolion wedi dilyn rhaglen hyfforddi gynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar sgyrsiau cydweithredol a chydbwyso hawliau a chyfrifoldebau. Hefyd, rydym wedi creu partneriaeth mentoriaid staff gyda chydweithwyr o Gyngor Caerffili fel rhan o wreiddio'r dull hwn yn ein cymunedau.

Mae gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) yn rhoi cymorth i ddarparu gofal a chymorth ymatebol integredig ar draws y rhanbarth. Fodd bynnag, mae llawer o waith i'w wneud o hyd i sicrhau bod y Cynllun Gweithredu Ardal, a ddatblygwyd gan y BPRh, yn trosi'n weithgarwch i ddiwallu anghenion dinasyddion lleol. Y cerbyd i Flaenau Gwent wneud i hyn ddigwydd yw'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig (BPGI). Mae'r bwrdd hwn wedi pennu nifer fach o flaenoriaethau yn seiliedig ar y rhai a amlinellir yn y Cynllun Ardal. Mae nifer o grwpiau gorchwyl a gorffen wedi cael eu sefydlu i ganlyn arni â'r blaenoriaethau hyn. Un enghraifft yw'r ymgyrch i gynyddu cyfraddau bwydo ar y fron ym Mlaenau Gwent a gwella hylendid y geg ymhlith plant. Gwelwyd gweithgarwch sylweddol yn y ddwy ardal yn gynnar yn 2024, gyda'r disgwyliad y bydd tystiolaeth yn dilyn ar ôl 12 mis o'r gwahaniaeth a wnaed.

Mae manteision yn parhau i gael eu gwireddu ar gyfer a chan y gweithlu trwy raddfa'r cyfle sy'n bosibl oherwydd y model gwasanaeth datblygu'r gweithlu ar y cyd a letyir gan Flaenau Gwent mewn partneriaeth gyda Chaerffili. Wrth gymharu perfformiad y dull cydweithredol gyda gwasanaethau datblygu'r gweithlu eraill yng Ngwent mae rhai penawdau allweddol o 2023/24 yn cynnwys:

- Wedi cefnogi 56% o'r myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol a noddir yn fewnol yng Ngwent (44);
- Wedi cyflawni 64% o'r holl Weithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso yng Ngwent (29); ac
- Roedd gan y gweithlu gofal cymdeithasol yn yr ardal fynediad at yr arlwy hyfforddi fwyaf a ddarparwyd ledled Gwent, 85% o gyfanswm yr arlwy.



Datblygwyd Cynllun Gweithredu Dementia Gwent ac mae'n cyd-fynd â'r 20 safon yn Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan a fydd hefyd yn cynnwys mesurau perfformiad. Datblygwyd is-grwpiau ffrydiau gwaith i ganlyn arni â'r rhaglen hon o waith sy'n cynnwys y ffrydiau gwaith canlynol:

- Ymgysylltu;
- Gwasanaeth Asesu Cof / rôl Cysylltydd Dementia;
- Siarter Ysbytai Dementia Gyfeillgar; ac
- Addysg/Gweithlu a Mesur/Perfformiad.

**Gweithlu**

Ein gweithlu yw'r ased mwyaf o hyd i sicrhau ein bod yn darparu'r gofal a'r cymorth gorau sydd ar gael. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd arolwg ymhlith staff y Gwasanaethau Cymdeithasol gydag ymatebion yn cyfleu darlun cadarnhaol ar gyfer staff sy'n gweithio o fewn y gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol, yn enwedig am y ffordd yr oedd staff yn cael eu cefnogi yn eu swyddi. Datblygwyd cynllun gweithredu i weithio tuag at wneud y gwelliannau gofynnol a adnabuwyd yn yr arolwg. Bydd yr arolwg hwn yn cael ei ailadrodd y flwyddyn nesaf i fesur y cynnydd a wnaed.

Mae bod â gweithlu medrus a chryf ei gymhelliant yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaethau o ansawdd da. Fel rhan o hyn, mae gan y Cyngor Dîm Datblygu'r Gweithlu ar y Cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sydd â chyfrifoldeb am gyflawni strategaeth hyfforddi a datblygu sy'n cefnogi cyfleoedd datblygu ar gyfer staff ar bob lefel yn y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae sefydlogrwydd y gweithlu'n ystyriaeth allweddol o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol gan bod rhai timau'n wynebu prinder staffio; fodd bynnag, cydnabyddir bod hon yn sefyllfa ledled Cymru ac nad oes datrysiad syml. Mae'r adran yn parhau i chwilio am ffyrdd arloesol o reoli'r llwyth gwaith o fewn timau yn ogystal â datblygu strategaethau recriwtio a chadw i fynd i'r afael â phwysau o ran y gweithlu. Er gwaethaf y pwysau sylweddol hyn mae'r staff presennol a darparwyr gwasanaethau wedi parhau i sicrhau bod anghenion plant ac oedolion yn cael eu diwallu, bod risgiau'n cael eu rheoli, ac yr ymdrinnir â materion diogelu.

Yn ystod 2023/24 gwelsom ein gweithlu o fewn timau Gwaith Cymdeithasol Gofal Plant yn sefydlogi. Mae trosiant staff yn dal i ddigwydd; fodd bynnag, rydym wedi gallu llenwi'r swyddi gwag hyn. Gwelwyd y gweithlu'n sefydlogi o ran y lefelau staffio yn ein gwasanaethau darparwyr hefyd a gostyngiad yn y defnydd o staff asiantaeth. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad mewn salwch staff sydd, heb os, wedi arwain at well cysondeb o ran y gofal.

Mae'r ffordd mae ar y gweithlu eisiau dysgu wedi newid; maen nhw'n disgwyl dewis a hyblygrwydd. Ceir mentrau amrywiol o fewn y sefydliad i roi cymorth i wella hyder digidol a mynediad at ddysgu digidol. Mae'r awdurdod yn tanategu ei ddull trwy gydnabod y rhwystrau sy'n bodoli ar gyfer rhannau o'r gweithlu gofal cymdeithasol, felly mae'r arlwy'n cynnwys y llwybr ystafell ddosbarth traddodiadol.

Cefnogir nifer o swyddi o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol â chyllid grant. Ceir risg sylweddol y bydd y cyllid hwn yn dod i ben ym mis Mawrth 2025. Gydag atgyfeiriadau i mewn i'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynyddu, ceir perygl y bydd hyn yn effeithio ar ddarparu a chynaliadwyedd gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r gweithlu a chapasiti yn faes risg allweddol i Flaenau Gwent ac mae ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol sy'n cael ei monitro'n rheolaidd gan y Tîm Arwain Corfforaethol.

**Cyllideb**

Wrth edrych tua'r dyfodol, mae'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn archwilio cyfleoedd i greu incwm yn hytrach na chynnig toriadau pellach mewn cyllidebau/gwasanaethau. Hefyd, rydym wrthi'n edrych ar ffyrdd eraill o reoli'r galw trwy harneisio'r cryfder presennol yn ein



cymunedau ac, wrth wneud hynny, lleihau i'r eithaf y ddibyniaeth ar wasanaethau statudol. Rydym hefyd yn archwilio ac yn hyrwyddo technoleg gynorthwyol i gefnogi'r gweithlu ac ateb y galw o blith ein dinasyddion yn y dyfodol.

## Gwasanaethau Anabledd

Rydym yn amcanu at ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl mewn cartrefi preifat i roi cymorth i fyw'n annibynnol o fewn targed o 330 diwrnod, ac fe gyflawnwyd hyn o fewn 329 diwrnod ar gyfartaledd. Mae hyn yn ostyngiad sylweddol yn nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl. Yn ddiweddar mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi agor Caffi Cymunedol yn Sefydliad y Blaenau. Bydd y caffi'n cynorthwyo oedolion ag anableddau i gael lleoliadau fel rhan o'u harlwy gweithgareddau dydd gan roi cyfle i fyfyrwyr arlwyo ddatblygu sgiliau bywyd, cymdeithasol a gwaith amhrisiadwy ar gyfer y dyfodol ym myd arlwyo a lletygarwch.

## Gwasanaethau Plant

Trwy Grant Diwygio Radical Llywodraeth Cymru, rhoddwyd arian i'r Cyngor i brynu dau dŷ sengl â 5 ystafell wely, am gost o tua £900,000, ynghyd â £700,000 arall ar gyfer costau adnewyddu. Bydd y rhain yn darparu gofal diogel o ansawdd da er mwyn i'n plant lleol allu aros yn y Fwrdeistref. Roedd gan Flaenau Gwent 5 o blant wedi'u paru i'w mabwysiadu yn y cyfnod adrodd ac roedd eu deunydd taith bywyd ar gael i 100% o fewn yr amserlen. Mae recriwtio mabwysiadwyr yn faes y mae angen ei wella yn y gwasanaeth, ynghyd â gwaith pellach i gyrraedd ein targed bod pob plentyn yn cael llinell amser trawma ac anogaeth cyn ei fabwysiadu.

Bydd gofalwyr maeth Fy Nhîm Cymorth (MyST) generig yn cael eu recriwtio i weithredu fel opsiynau realistig ar gyfer lleoliadau camu i lawr i blant cymhleth neu fel lleoliadau osgoi ar gyfer y plant hynny y gallai eu hanghenion ddwysáu fel bod angen gofal mewn lleoliadau preswyl. Mae ein cyfradd tarfu'n isel ar gyfer lleoliadau Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig (GGA) gyda 5 lleoliad (plant) wedi methu yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf (2.8%) a hyd yn oed ar gyfer yr achosion hyn, oherwydd y gwaith a wnaed gan y tîm cymorth GGA, cafodd pob plentyn ei letya gydag aelodau eraill o'r teulu neu eu dychwelyd at eu rhieni biolegol heb i'r un ohonynt ddod yn ôl i mewn i ofal yr Awdurdod Lleol.

Mae sgyrsiau cynharach ar y cam paru i blant â mabwysiadwyr yn digwydd ynghylch cyswllt posibl ar ôl mabwysiadu gyda phwyslais ar hybu cyswllt â brodyr a chwiorydd. Mae cytundebau cyswllt yn adlewyrchu hyn bellach. Mae Gwasanaeth Mabwysiadu De Ddwyrain Cymru (SEWAS) yn parhau i ddefnyddio darpariaeth cymorth seicoleg fewnol ar gyfer unrhyw anghenion ychwanegol y tu allan i'r rhai y gall y tîm eu diwallu. Mae hyn, ynghyd ag atgyfeiriadau at ddarpariaeth Llwybrau, sy'n cael ei rhedeg gan Adoption UK a'i hariannu â Grant Buddsoddi Llywodraeth Cymru, yn galluogi teuluoedd i gael mynediad at gymorth arbenigol, gan osgoi angen i ddod o hyd i ddarpariaeth allanol lle bynnag y bo modd.

Mae adolygiad ffurfiol o wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf wedi cael ei gwblhau. Roedd yr adolygiad yn cynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid ym myd addysg ac yn ymgorffori adborth gan staff. Bydd argymhellion yr adolygiad yn cael eu rhoi ar waith ddechrau'r flwyddyn nesaf ond un brif flaenoriaeth yw'r cam gweithredu y mae ei angen i wella'r ffurflenni mewnol o fewn Teuluoedd yn Gyntaf i'w cysoni â'r arfer sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau sydd wedi cael ei wreiddio ym Mlaenau Gwent.

Mae adroddiad sy'n ymwneud â'r gweithgarwch blynyddol ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno trwy'r broses ddemocrataidd. Gellir gweld adroddiad 2023/24 yma: [C:\Users\morga_p2\AppData \ Local \ Temp\msoB597.tmp (moderngov.co.uk)]

## Digartrefedd

Yn ystod y cyfnod adrodd, cyrhaeddodd 76 o aelwydydd y trothwy ar gyfer bod dan fygythiad o ddigartrefedd. O'r rhain, cafodd 41 (54%) eu hatal yn llwyddiannus rhag colli eu



llety. Mae atal digartrefedd yn dal i fod yn anodd oherwydd diffyg parhaus llety symud ymlaen yn y sectorau tai preifat a chymdeithasol, yn ogystal â'r ffaith bod cleientiaid yn dod at y Cyngor pan ydynt eisoes mewn argyfwng. Mae'n dal i fod yn anodd i'r tîm atal digartrefedd a chyrraedd y targed a osodwyd.

Rydym yn parhau i weithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i adnabod unedau eiddo ar gyfer cynlluniau digartrefedd/ailsefydlu. Yn ystod y flwyddyn, mae 8 eiddo ychwanegol wedi cael eu cynnwys, ac mae 3 eiddo arall wedi cael eu hadnabod mewn partneriaeth gyda Tai Calon, i'w cynnwys yn y cynllun ac mae cais am gyllid wedi cael ei gyflwyno ar gyfer hyn.

Cafodd 15 o deuluoedd eu lleoli mewn llety gwely a brecwast yn 2023/24, sydd y tu hwnt i'r targed o 12. Mae hyn yn amlygu'r pwysau ar y gwasanaethau digartrefedd a'r diffyg tai cymdeithasol / preifat i symud y teuluoedd hyn i mewn iddynt ac sy'n arwain at leoli mewn llety anaddas i ddiwallu anghenion y teulu. Mae gwaith parhaus yn cael ei wneud gan y tîm i leihau hyn yn 2024/25.

Trwy ddull partneriaeth mae'r Tîm Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn parhau i gefnogi pobl ifanc i atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc ac i gefnogi llesiant emosiynol. Rhoddwyd cymorth hefyd ar gyfer yr ymateb lleol mewn perthynas â'r cynllun adsefydlu ar gyfer pobl o Wcráin.

## Budd-dal Tai

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn darparu arian Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai i'r Cyngor i gynorthwyo trigolion ar fudd-dal tai neu fudd-dal cynhwysol i 'wneud iawn' am unrhyw ddiffyg sydd ganddynt wrth dalu rhent a chostau cysylltiedig â thai. Mae rhenti ar draws y Fwrdeistref wedi bod yn cynyddu, sy'n sefyllfa debyg i'r hyn sydd wedi bod yn digwydd ledled Cymru a'r DU, ac mae'r gostyngiad mewn cyllid ers Covid yn effeithio ar y taliadau hyn. Mae'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio i atal preswylwyr rhag dod yn ddigartref ac mae'r nifer cynyddol ac arnynt angen cymorth yn rhoi pwysau ar y gwasanaeth. Gan bod prinder tai ledled y fwrdeistref, efallai y bydd ar lawer o'r rheiny sy'n dod ddigartref angen llety gwely a brecwast sy'n gostus ac nad yw'n ddatrysiad hirdymor priodol.

## Rhaglen Cydnerthedd Bwyd

Dyfarnwyd cyllid Cymunedau a Lle o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU i'r Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng 2023/24 a 2024/25 i feithrin Cydnerthedd Bwyd ledled y Fwrdeistref. Ffurfiwyd rhaglen cydnerthedd bwyd Blaenau Gwent mewn ymgynghoriad â Chyngor Torfaen i ddatblygu dull cydgysylltiedig o ymdrin â chydnerthedd bwyd gyda'r bwriad yn y tymor byr o roi cymorth gydag effaith yr argyfwng costau byw presennol, gan ddarparu cyfleoedd i fynd i'r afael â thlodi bwyd ac ymgysylltu â chynhyrchwyr bwyd i gynyddu cadwyni cyflenwi lleol a rhanbarthol.

Gan weithio mewn partneriaeth gyda Phartneriaeth Bwyd BG, gellir nodi'r blaenoriaethau cydnerthedd bwyd fel rhai sy'n gweithredu yn erbyn y materion canlynol:

1. Mynd i'r afael ag achosion sylfaenol Tlodi Bwyd a rhwystrau i gael gafael ar fwyd da;
2. Annog pobl i fwyta bwyd Iach, lleol a chynaliadwy;
3. Gwella'r amgylchedd, y gymuned a'r diwylliant bwyd lleol, gan gynyddu sgiliau, gwybodaeth ac adnoddau;
4. Rhoi anogaeth i ddefnyddio mannau gwyrdd ar gyfer mentrau tyfu bwyd lleol; a
5. Cefnogi busnesau bwyd a'r economi bwyd cynaliadwy.

Yn ystod y flwyddyn, mae swyddogion cydnerthedd bwyd wedi cael eu recriwtio i weithio mewn partneriaeth gyda chydlynydd Partneriaeth Bwyd BG i feithrin perthnasoedd ag amryw bartneriaid a rhanddeiliaid ledled y fwrdeistref, i ddangos llwyfan gweladwy a hygyrch ar gyfer newid yn ein system fwyd



leol. Mae ymgysylltu â busnesau a darparwyr bwyd cymunedol wedi bod yn offeryn hanfodol ar gyfer deall yr heriau y mae trigolion yn eu hwynebu o fewn cyd-destun lleol ac adnabod yr ysgogiadau allweddol ar gyfer newid sydd eisoes yn bresennol yn y fwrdeistref.
Mae ystod eang o weithgareddau wedi digwydd yn ystod 2023/24 trwy'r rhaglen cydnerthedd bwyd. Mae rhai o'r gweithgareddau hyn yn cynnwys:

- **Grantiau Cymorth Bwyd Brys Gaeaf 2023-24 -** dyfarnwyd cyfanswm o 23 o grantiau a ariannwyd gan Gronfa Cymorth Bwyd Uniongyrchol Llywodraeth Cymru i ddarparwyr gan gynnwys grwpiau cymunedol, hybiau'r blynyddoedd cynnar, ysgolion a sefydliadau. Mae darparwyr yn cynnig banciau bwyd, cymorth ymyrryd mewn argyfwng, caffis cymunedol, prosiectau tyfu cymunedol a Phantrïoedd Bwyd.
- **Gweithgareddau Bwyd yn ystod Gwyliau Ysgol – datblygwyd gwybodaeth hygyrch ryngweithiol i gyfeirio** rhieni at y cymorth, gan gynnwys gweithgareddau yn y gwyliau i blant ar draws BG lle'r oedd darpariaeth fwyd wedi'i chynnwys i helpu rhieni i ddygymod â chostau byw cynyddol yn ystod gwyliau ysgol.
- **Blas ar Natur -** prosiect partneriaeth peilot 18 wythnos rhwng Partneriaeth Bwyd BG a Head4Arts, a ariannwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Fe wnaeth y prosiect arloesol hwn brofi gweithgareddau'r celfyddydau creadigol a gweithgareddau a oedd yn seiliedig ar natur i hyrwyddo dewisiadau bwyd iachach ymhlith plant a theuluoedd. Cafodd y rhaglen ei gweithredu'n llwyddiannus yn Ysgol Gynradd Sant Illtud, mewn Hybiau Dechrau'n Deg, ac fel rhan o raglen haf Clwb Llan.

Ffocws y rhaglen cydnerthedd bwyd ar gyfer 2024/25 fydd ymgysylltu'n agosach â busnesau lleol i annog busnesau bwyd lleol i fabwysiadu arferion cynaliadwy trwy fyrhau cadwyni cyflenwi, gwella'r arlwy bwyd iach, lleihau effaith amgylcheddol, arallgyfeirio modelau busnes, a datblygu strategaeth bwyd cymunedol leol.

**Iechyd yr Amgylchedd**
Yn ystod 2023/24, cyflawnwyd cyfradd gydymffurfio o 100% â darparu ymyriadau hylendid bwyd mewn safleoedd risg uchel. Rydym yn parhau i weld gostyngiad yng nghanran gyffredinol y safleoedd sy'n cydymffurfio'n fras â gofynion hylendid bwyd. Mae hyn yn bryder gan y gallai gostyngiad mewn safonau arwain at gynnydd yn y risg i iechyd y cyhoedd. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu ymyriadau mewn safleoedd risg uchel ac archwilio opsiynau ar gyfer hybu gwell cydymffurfiaeth â gofynion hylendid bwyd. Yn ôl y data, a gasglwyd gan High Speed Training, Blaenau Gwent sydd â'r sgoriau hylendid bwyd gwaethaf ledled Cymru, gyda sgôr gyfartalog o 3.91 o 244 o safleoedd. Food Hygiene Report 2024 | UK Ratings | Towns, Cities & Regions (highspeedtraining.co.uk)

**Heriau Allweddol a Adnabuwyd ar gyfer Gweithredu yn 2024/25**

- Mae nifer yr oedolion yr amheuir eu bod yn wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso a nifer yr atgyfeiriadau diogelu oedolion wedi cynyddu'n sylweddol
- Mae perfformiad diogelu'n dangos gostyngiad yn nifer y plant a oedd newydd eu cofrestru yr ymwelwyd â hwy o fewn 10 diwrnod i gael eu cofrestru.
- Mae nifer cynyddol o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant
- Mae nifer cynyddol o Blant sy'n Derbyn Gofal yn cael eu lleoli y tu allan i Gymru sy'n anodd i'r plentyn ac yn gostus i'r Awdurdod Lleol
- Mae sefydlogrwydd y gweithlu'n risg i'r Gwasanaethau Cymdeithasol
- Mynd i'r afael â'r capasiti staffio presennol sy'n ddibynnol ar gyllid grant a'r effaith y gallai hyn ei chael
- Mae recriwtio mabwysiadwyr yn faes y mae angen ei wella ar gyfer y gwasanaeth



- Rhoi camau gweithredu ar waith o Arolwg Staff y Gwasanaethau Cymdeithasol ac ailadrodd yr arolwg y flwyddyn nesaf i asesu cynnydd
- Parhau i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl mewn cartrefi preifat sy'n gysylltiedig â'r gyllideb sydd ar gael a'r galw
- Adnabod y cyllid gofynnol i gefnogi pobl ar fudd-dal tai neu fudd-dal cynhwysol i atal pobl rhag dod yn ddigartref
- Mae atal digartrefedd yn parhau i fod yn her gyda'r ganran sy'n dod yn ddigartref yn cynyddu
- Anelu at ostwng nifer y teuluoedd sy'n cael eu lleoli mewn llety gwely a brecwast - lleolwyd 15 teulu mewn llety gwely a brecwast yn 2023/24, sydd y tu hwnt i'r targed o 12
- gostyngiad yng nghanran gyffredinol y safleoedd sy'n cydymffurfio'n fras â gofynion hylendid bwyd




| Dangosydd Perfformiad | Data | | | | | Sylw a Sgôr CAG |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | |
| Nifer yr oedolion y darparwyd technoleg gynorthwyol electronig ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn<br>*Gwaith i'w wneud i wella'r modd y dilysir y data ar gyfer y Dangosydd Perfformiad hwn* | 245 | 169 | 216 | 210 | 221 | Ffigwr wedi gwella<br>Mae ffigwr uwch yn well |
| Cyfanswm y cleientiaid sy'n oedolion sy'n cael technoleg gynorthwyol electronig ar hyn o bryd | 1264 | 1353 | 1527 | 1639 | 1768 | Ffigwr wedi gwella<br>Mae ffigwr uwch yn well |
| Nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | 61 | 52 | 64 | 62 | 103 | Cynnydd sylweddol<br>Mae ffigwr is yn well |
| Nifer y plant a ddaeth yn Blant sy'n Derbyn Gofal (CLA) yn ystod y flwyddyn | 62 | 38 | 47 | 63 | 54 | Ffigwr wedi gwella<br>Mae ffigwr is yn well |
| Cyfanswm y Plant sy'n Derbyn Gofal sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, ond y tu allan i'r ALl cyfrifol (ac eithrio'r rhai mewn lleoliadau mabwysiadu) (ar 31 Mawrth) | Ddim ar gael | 65 | 51 | 52 | 46 | Ffigwr wedi gwella<br>Mae ffigwr is yn well |
| Cyfanswm y Plant sy'n Derbyn Gofal ar ddiwedd y flwyddyn gasglu sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru (ar 31 Mawrth) | Ddim ar gael | 5 | 6 | 12 | 16 | Ffigwr wedi cynyddu<br>Mae ffigwr is yn well |
| % yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag digartrefedd (adran 66) | 72 | 59 | 75.2 | 63.5 | 55.2 | Ffigwr is a'r targed o 60 heb ei gyrraedd<br>Mae ffigwr uwch yn well |
| Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd<br>*Ffigyrau'n cynrychioli 'cartrefi â thenantiaid'* | 7 | 67 | 43 | 6 uned Cyfanswm | 25 uned Cyfanswm | Ffigwr wedi gwella<br>Mae ffigwr uwch yn well |
| Niferoedd sy'n aros ar y gofrestr tai cymdeithasol:<br>Cyfanswm<br>Ymgeiswyr Sengl | <br>2,151<br>1,051 | <br>1,218<br>592 | <br>4,191<br>1,742 | <br>4,688<br>2,592 | <br>2,562<br>1,185 | Ffigwr wedi gwella<br>Mae ffigwr is yn well |
| Nifer y grantiau cyfleusterau i'r anabl a gwblhawyd | AMH | 30 | 31 | 63 | 91 | Ffigwr wedi gwella<br>Mae ffigwr uwch yn well |
| Cynllun Cartrefi i Wcráin:<br>Gwesteion<br>Cyfran y boblogaeth | - | - | - | <br>57<br>74% | <br>72<br>91% | Ffigwr wedi gwella<br>Mae ffigwr uwch yn well |



# Amcan Llesiant 4

## *Cyngor uchelgeisiol ac arloesol sy'n darparu gwasanaethau o safon ar yr amser iawn ac yn y lle iawn*




**Pam Fod Hyn yn Bwysig fel Maes Ffocws -** Mae'r Cynllun Corfforaethol yn darparu'r ffocws ar gyfer cyflawni newid parhaol i'r ardal. Mae hefyd yn darparu'r llwyfan ar gyfer trawsnewid Blaenau Gwent yn Gyngor mwy hyderus a galluog. Yr uchelgais yw sicrhau deilliannau gwell i bobl Blaenau Gwent ac mae'r uchelgais hwnnw'n cael ei danategu gan gynlluniau cadarn a chynaliadwy, gan sicrhau y gellir dwyn y Cyngor i gyfrif am yr hyn y mae wedi addo ei gyflawni. Mae cynyddu i'r eithaf effaith adnoddau i gyflawni'r deilliannau hynny'n greiddiol i'r flaenoriaeth hon, gan gynnwys; deall costau, rheoli gwariant, cynyddu incwm i'r eithaf ac alinio adnoddau ag anghenion trigolion, busnesau ac ymwelwyr i adeiladu Blaenau Gwent ar gyfer y dyfodol.

**Yr Hyn yr Ydym yn Anelu at ei Gyflawni –** Mae Cyngor Blaenau Gwent yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da i ddiwallu anghenion lleol, a gwella ansawdd bywyd a llesiant o fewn y gymuned.

Mae'r naratif canlynol yn rhoi adlewyrchiad gwerthusol o'r gweithgarwch, a gyflawnwyd trwy gydol 2023/24, ar draws meysydd gwasanaeth sy'n cefnogi'r Amcan Llesiant hwn yn uniongyrchol. Mae'r naratif yn adlewyrchu'r hyn sydd wedi mynd yn dda ond hefyd, ac yn bwysicach na hynny, ble'r ydym yn profi heriau. Mae'r heriau hyn wedyn wedi cael eu coladu ar ddiwedd pob adran. Bydd y meysydd hyn yn cael eu nodi fel meysydd ffocws wrth edrych tua'r dyfodol a byddwn yn adrodd arnynt fel rhan o'n Hunanasesiad nesaf, yn ogystal â gwaith monitro perfformiad trwy gydol y flwyddyn.

**Cyllid ac Adnoddau**

Mae cyllideb y Cyngor yn cael ei monitro'n barhaus i sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadnoddau mor ddarbodus ac effeithlon â phosibl, gan hefyd sicrhau y gallwn gynllunio ar gyfer y tymor canolig a hir. Mae cynllunio a rheoli ariannol cadarn ar waith i helpu i fonitro adnoddau'n effeithiol, a darperir diweddariadau ar sefyllfa ariannol y Cyngor i uwch swyddogion a thrwy ein proses ddemocrataidd.

Y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) yw offeryn cynllunio ariannol canolog y Cyngor. Mae'n gynllun treigl sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau yn ein Cynllun Corfforaethol ac sy'n cael ei ddiweddaru'n barhaus i adlewyrchu amgylchiadau newidiol a dewisiadau polisi sy'n effeithio ar gyllid y Cyngor. Mae'r SATC yn rhagfynegi treuliau'r Cyngor a'r gostyngiadau angenrheidiol dros gyfnod o bum mlynedd i sefydlu cyllideb fantoledig.
Microsoft Word - Atodiad 5 – SATC Terfynol (blaenau-gwent.gov.uk)

Roedd y cyllid refeniw sylfaenol a gafodd y Cyngor yn 2023/24 gan Lywodraeth Cymru, ar ôl lwfio am drosglwyddiadau, yn £139.7m, cynnydd o 6.5% (£8.5m). Y cynnydd cyfartalog ar gyfer Cymru gyfan yn y Setliad Llywodraeth Leol oedd 7.9%.



Dros y 10 mlynedd o gyni, pandemig Covid a nawr yr argyfwng costau byw mae Blaenau Gwent wedi gweld ei chyllideb yn gostwng tua £40miliwn, gyda £10 miliwn arall yn ofynnol y flwyddyn nesaf hyd yn oed ar ôl codiad o tua 2.8% yn ein cyllid gan Lywodraeth Cymru yn 2024/25. Rydym hefyd yn rhagweld y bydd angen arbedion ychwanegol o £25m dros y 4 blynedd nesaf. Er mwyn ymateb i'r heriau hyn, rhaid i ni feddwl am y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau i wneud arbedion, a sut y gallwn greu incwm. Gall hyn olygu bod rhaid i ni leihau, newid neu atal rhai gwasanaethau neu ystyried modelau darparu amgen. Er mwyn ystyried hyn bydd model cyfarfodydd ariannol yn cael ei sefydlu, gan ddilyn model Cyngor Torfaen, a bydd y sesiynau hyn yn cael eu galw'n 'Apollo'.

Parhaodd blwyddyn ariannol 2023/24 i fod yn gryn her i'r Cyngor, gyda phwysau o ran costau'n dod i'r amlwg oherwydd chwyddiant uchel, gan effeithio ar gost nwyddau a gwasanaethau, prisiau tanwydd cynyddol, a chodiadau cyflog uwch na'r disgwyl. Er gwaethaf hyn, fe wnaeth y Cyngor ddarparu gwasanaethau i'w drigolion o fewn y gyllideb gymeradwy o £184m.

Mae'r alldro dros dro ar y cyfan ar draws yr holl Bortffolios yn amrywiant ffafriol o £4.3m, cyn trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn ac ohonynt. Mae'r amrywiant ffafriol yn gostwng (£1.1m) i £3.2m ar ôl y trosglwyddiadau net i gronfeydd wrth gefn penodol (£1.4m) a thynnu arian o'r Gronfa Gyffredinol (£0.31m). O ganlyniad i'r sefyllfa ar y cyfan, dim ond £0.82m o Gronfa Wrth Gefn Penodol fu'n ofynnol ar gyfer 2023/2024, o'i gymharu â'r gyllideb.

Parhaodd rhaglen 'pontio'r bwlch' y Cyngor o adolygiadau busnes strategol trwy gydol y flwyddyn i greu arbedion effeithlonrwydd a chydnerthedd ariannol ar gyfer y dyfodol, gan anelu at wneud arbedion gwerth cyfanswm o £3m. Er bod rhai o'r prosiectau wedi mynd y tu hwnt i'r targed y cytunwyd arno, ni lwyddodd nifer o brosiectau i gyrraedd y targed, a bydd rhai o'r arbedion ariannol a ragwelwyd yn cael eu cyflawni o 2024/25 ymlaen.

O fewn y sefyllfa ariannol gadarnhaol ar y cyfan ar gyfer 2023/2024, mae nifer o bwysau o ran costau wedi parhau trwy gydol y flwyddyn ariannol neu wedi dod i'r amlwg yn ystod y chwarter diwethaf. Ceir risg y bydd y rhain yn parhau i mewn i 2024/2025. Bydd Deiliaid Cyllidebau'n datblygu Cynlluniau Gweithredu i liniaru unrhyw bwysau o ran costau neu adnabod gostyngiadau eraill mewn gwariant o fewn y portffolio i'w hariannu.



Alldro dros dro datganiad ariannol y gyllideb refeniw ar 31 Mawrth 2024:

| **Portffolio/ Pwyllgor** | **Cyllideb Refeniw Ddiwygiedig 2023/2024** <br><br> **£m** | **2023/2024 Alldro Dros Dro 2023/2024** <br><br> **£m** | **Amrywiant Ffafriol / (Anffafriol)** <br><br> **£m** | **Amrywiant Ffafriol / (Anffafriol)** (ar ôl trosglwyddiadau net i / o Gronfeydd Gefn) <br><br> **£m** |
|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Corfforaethol** | 18.07 | 16.10 | 1.97 | 1.82 |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol** | 54.39 | 54.04 | 0.35 | 0.36 |
| **Addysg a Hamdden** | 73.57 | 72.82 | 0.75 | 0.38 |
| **Yr Economi** | 1.98 | 1.66 | 0.32 | 0.32 |
| **Yr Amgylchedd** | 34.57 | 33.65 | 0.92 | 0.75 |
| **Cynllunio** | 1.55 | 1.20 | 0.35 | 0 |
| **Trwyddedu** | 0.15 | 0.15 | 0 | 0 |
| **Is-gyfanswm** | 184.28 | 179.62 | 4.66 | 3.63 |
| **Taliad Uniongyrchol PYADd – Gwyliau Ysgol** | 0 | 0.31 | (0.31) | 0 |
| **Namyn Cyfraniadau at Gronfeydd Wrth Gefn Penodol** (heb eu cynnwys o fewn Cyfrifon Rheoli) | | | | 0.40 |
| | | | | |
| **Cyfanswm** | 184.28 | 179.93 | 4.35 | 3.23 |

Mae ein gwaith wedi'i osod yng nghyd-destun heriau ariannol bythol gynyddol. Ni allwn guddio rhag y ffaith hon wrth i ni barhau i ddygymod ag adnoddau sy'n lleihau trwy ddod o hyd i ffyrdd mwy effeithiol ac effeithlon o weithio. Rhaid i ni sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i fod yn barod i ymateb yn uniongyrchol i'r her hon. Bydd newid ac addasu ein harferion gweithredol ac ailfeddwl am y modd yr ydym yn darparu gwasanaethau'n nodwedd gyson wrth i ni wynebu'r sefyllfa ariannol anodd.

Wrth edrych tua'r dyfodol byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni effeithlonrwydd, arbedion a buddsoddi mewn technolegau newydd, er mwyn diogelu gwasanaethau rheng flaen ymhellach. Ond rhaid i ni hefyd ailystyried y ffordd yr ydym yn darparu ein holl wasanaethau.

Cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o Gynaliadwyedd Ariannol y Cyngor yn 2023/24 a chanfu fod '*gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol, ond ni fydd y rhain ond yn effeithiol os yw'n gweithio'n gyflym i nodi, cymeradwyo a gweithredu digon o arbedion i leihau ei fwlch cyllido tymor canolig mewn ffordd gynaliadwy.*

Roedd yr adroddiad yn cynnwys dau argymhelliad i'r Cyngor eu gweithredu:

- Canfuom nad yw'r Cyngor wedi nodi'r holl arbedion y bydd eu hangen arnynt eto i gau'r bwlch cyllido dros y tymor canolig. Dylai'r Cyngor ganolbwyntio digon o gapasiti ac adnoddau i ddatblygu a mesur opsiynau cynaliadwy a thrawsnewidiol sy'n unol â'i strategaeth a mynd i'r afael â'r bwlch cyllido y tu hwnt i 2025-26.
- Er mwyn sicrhau bod cynghorwyr a rhanddeiliaid eraill yn gallu monitro'n dryloyw effaith ddisgwyliedig strategaeth ariannol y Cyngor ar gymunedau lleol, dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn ystyried ac yn adrodd ar effaith ei strategaeth ariannol ar gyflawni ei amcanion corfforaethol.



Bydd ymateb i'r argymhellion hyn yn cael ei ddatblygu yn awr i'w weithredu dros y flwyddyn i ddod. Mae adroddiad llawn Archwilio Cymru i'w gael yma - [Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol (archwilio.cymru)](https://archwilio.cymru)

### Ymgysylltu ynghylch y Gyllideb

Cafodd y Gyllideb ar gyfer 2024/25 ei chytuno gan y Cyngor yn gynnar yn 2024 yn dilyn digwyddiadau ymgysylltu eang ledled y Fwrdeistref. Bwriad hyn oedd cael barn aelodau'r cyhoedd ar flaenoriaethu gwasanaethau'r cyngor, pennu'r dreth gyngor, a chynigion ar gyfer arbedion posibl. Fe ymgysylltwyd gan ddefnyddio ystod o ddulliau gan gynnwys digwyddiadau dan do wyneb yn wyneb, holiadur a sesiwn ymgysylltu ar-lein. O'r holiadur cafwyd cyfanswm o 680 o ymatebion. Dywedodd pobl wrthym:

- Fod ysgolion yn brif flaenoriaeth iddynt gyda (42%) o'n trigolion yn nodi mai hon yw'r flaenoriaeth uchaf;
- mai'r gwasanaeth lleiaf pwysig ym marn trigolion wrth ystyried proses pennu cyllideb fyddai Rhedeg Cyngor Effeithlon (41%); ac
- Yn gyffredinol, bod tri o bob pump o'r ymatebwyr o'r farn bod unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor naill ai'n ddim yn dderbyniol iawn neu ddim yn dderbyniol o gwbl (60%).

Cyflwynwyd yr adborth o'r ymgynghoriad ar y gyllideb i'r Cyngor ac fe'i hystyriwyd fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn. Bydd ymgysylltu â'n cymunedau ynghylch ystod eang o faterion, gan gynnwys ein cyllideb, yn parhau i fod yn flaenoriaeth, a bydd yn cael ei gryfhau ymhellach gan Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad ddiwygiedig y Cyngor.

### Datganiad Cyfrifon

Mae'r archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2021/22 wedi cael ei gwblhau gyda barn amodol yn cael ei rhoi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 31 Hydref 2023. Mae'r oedi cyn cwblhau Archwiliad 2021/22 ynghyd â'r camau gweithredu yr oedd eu hangen i ddatrys materion a godwyd yn ystod 2021/22 (a oedd yn ymwneud yn benodol â phrisio ac oes economaidd defnyddiol asedau sefydlog) wedi arwain at oedi cyn paratoi ac archwilio Datganiad Cyfrifon 2022/23. Gwaethygwyd yr oedi hwn ymhellach gan y broses barhaus o ddatrys nifer o faterion cyfrifyddu cymhleth a adnabuwyd yn ystod yr archwiliad. Nid oes unrhyw farn wedi cael ei rhoi eto ar gyfer cyfrifon 2022/23, a disgwylir y bydd yr archwiliad yn cael ei gwblhau ym mis Hydref 2024 (yn amodol ar gwblhau'r Cyfrifon ac adnoddau Archwilio Cymru). O ganlyniad, bu oedi gyda Chyfrifon 2023/24 oherwydd y problemau gyda chyfrifon ac archwiliadau blynyddoedd blaenorol, ac amcangyfrifir y bydd y Cyfrifon Drafft yn cael eu cwblhau ym mis Tachwedd 2024 ac y bydd yr archwiliad gan Archwilio Cymru yn amodol ar gwblhau cyfrifon 2022/23 a'r adnoddau sydd ar gael.

### Gweithlu

Mae'r Cyngor yn cael rhai anawsterau wrth recriwtio i rai rolau proffesiynol a thechnegol. Penodwyd i 20% o'r swyddi gwag a hysbysebwyd ar ôl ail hysbyseb. Ceir rhywfaint o ddibyniaeth ar weithwyr asiantaeth i gyflenwi yn ystod absenoldeb staff ac ar gyfer rolau a phrosiectau arbenigol sy'n anodd i'w llenwi.

Mae'r Cyngor yn parhau i flaenoriaethu lleihau absenoldeb oherwydd salwch yn y gweithlu er mwyn atal effeithiau o ran capasiti ar ddarparu gwasanaethau. Yn 2023/24 roedd y dyddiau cyfartalog a gollwyd fesul gweithiwr yn 11.82 diwrnod a oedd yn ostyngiad o 15.5 diwrnod y flwyddyn flaenorol ond mae'n dal i fod yn uchel. Mae cyfres o gamau gweithredu ar waith gan gynnwys monitro perfformiad yn rheolaidd, gosod targedau ar lefel gwasanaethau a'r Cyngor a dadansoddi achosion. Cynhelir adolygiad manwl o absenoldeb oherwydd salwch a llesiant yn flynyddol, ac mae Aelodau'n craffu ar hyn.

Bu 2 achos o alluogrwydd wedi'u cofnodi yn 2023/24, 10 achos o gwynion cyflogaeth, a 38 ymchwiliad yn unol â Pholisïau Disgyblu'r Cyngor.



Roedd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y DU yn 14.3%, yn 2023. Cyflwynir a chyhoeddir yr wybodaeth am y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau trwy Ddatganiad Polisi Tâl y Cyngor. Rydym yn ystyried mater cyflog y rhywiau bob blwyddyn i'n helpu i ddeall y gwahaniaeth mewn enillion cyfartalog rhwng menywod a dynion.

Mae'r Cyngor yn hyderus bod dynion a menywod yn cael tâl cyfartal am wneud swyddi cyfatebol ar draws y busnes. Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau'n dangos bod y gweithlu'n fenywaidd yn bennaf gyda menywod yn meddiannu canran uchel o swyddi ar draws y pedwar chwartel cyflog. Mae'r bwlch cyflog ym Mlaenau Gwent yn parhau i fod yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Yn flynyddol, disgwylir i'r Cyngor adrodd ar ei berfformiad blynyddol o ran iechyd, diogelwch a lles yn y gwaith. Mae nifer y damweiniau/digwyddiadau cyflogeion wedi cynyddu o 162 yn 2022/23 i 304 yn 2023/24 ond mae nifer y damweiniau i bobl nad ydynt yn gyflogeion wedi gostwng o 325 yn 2022/23 i 299 yn 2023/24. Mae nifer y damweiniau/digwyddiadau a chlefydau cyflogeion y mae'n ofynnol hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn eu cylch wedi cynyddu o 9 yn 2022/2023 i 19 yn 2023/2024.

## Llywodraethu Corfforaethol

### Cod Llywodraethu

Mae'r Awdurdod wedi sefydlu Cod Llywodraethu ers 2010. Mae'r Cod hwn yn nodi'r Fframwaith Llywodraethu ar gyfer yr Awdurdod sy'n nodi ein dull a'n hymrwymiad i gyflawni a chynnal llywodraethu corfforaethol da o fewn y sefydliad. Mae llywodraethu corfforaethol da'n sicrhau bod y Cyngor yn atebol, yn dryloyw, yn effeithiol ac yn effeithlon wrth ddarparu gwasanaethau a chyflawni ein cyfrifoldebau i'n dinasyddion a'n rhanddeiliaid.

Mae'r Cod yn dangos bod gennym drefniadau llywodraethu effeithiol yn y rhan fwyaf o feysydd sy'n gwella'n barhaus, ond mae hefyd yn cydnabod bod gwaith pellach i'w wneud. Mae'r cod yn cael ei adolygu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn adlewyrchu trefniadau llywodraethu cyfredol yr Awdurdod. Mae'r Cod yn sail i lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac mae'n amlinellu saith egwyddor graidd sy'n helpu i gyflawni llywodraethu da. Mae'r Cod Llywodraethu diweddaraf i'w gael yma.

### Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei ddatblygu gan ddefnyddio Fframwaith CIPFA/Solace ar gyfer Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol (2016). Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl y bydd cyrff perthnasol yn paratoi datganiad llywodraethu blynyddol ar reolaeth fewnol gan ddefnyddio Fframwaith CIPFA/Solace i roi'r darlun gorau o arferion priodol mewn perthynas â'r datganiad ar reolaeth fewnol sy'n ei gwneud yn ofynnol cynhyrchu datganiad llywodraethu blynyddol.

Fel arfer gorau mae CIPFA yn argymell:
- y dylid cyflwyno fersiwn ddrafft lawn o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol gyda'r datganiad cyfrifon; ac
- y dylai'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol gael ei gymeradwyo gan yr aelodau a hwythau'n cwrdd fel pwyllgor cyfan ar yr un pryd ag y caiff y datganiad cyfrifon ei gymeradwyo o dan Reoliad 10(2) yng Nghymru.

Cyflwynwyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2022/23 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ionawr 2024. Ar yr adeg hon nid oedd unrhyw newidiadau i'r adroddiad. Bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ochr yn ochr â datganiad cyfrifon 2022/23, yn unol â chanllawiau CIPFA. Fodd bynnag, bu oedi gyda hyn oherwydd nad yw ein cyfrifon ar gyfer 2022/23 wedi cael eu cwblhau na'u cymeradwyo gan Archwilio Cymru eto.



Mae'r datganiad yn cael ei goladu yn dilyn ymarfer casglu tystiolaeth sy'n galw ar nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Adroddiadau rheoleiddio mewnol ac allanol;
- Adroddiad Blynyddol y Rheolwr Archwilio a Risg; a
- Datganiadau Sicrwydd Uwch Reolwyr.

Atodiad 1.pdf (moderngov.co.uk)

## Rheoli Perfformiad

Mae Amcanion Llesiant y Cyngor, o fewn y Cynllun Corfforaethol, wedi cael eu defnyddio i lunio'r holl gynlluniau gwasanaethau ledled y sefydliad. Cynlluniau busnes yw'r prif offeryn rheoli perfformiad i helpu swyddogion ar draws yr holl wasanaethau i ddarparu tystiolaeth naill ai trwy Ddangosyddion Perfformiad neu naratif chwarterol o sut y mae eu gwaith wedi helpu i gyflawni deilliannau go iawn i drigolion a chymunedau ledled y sir. Mae hyn hefyd yn helpu staff i ddeall sut y mae'r gwaith y maent yn ei wneud yn cyfrannu at amcanion llesiant a gweledigaeth y Cyngor. Mae'r broses Cynllunio Busnes hefyd yn helpu i adnabod y risgiau a'r cyfleoedd a allai effeithio ar gyflawni. Mae cynlluniau busnes yn ein helpu i ddyrannu adnoddau'n effeithiol, blaenoriaethu gweithgareddau, a chyfleu cyflawniadau a heriau pob gwasanaeth i'r cyhoedd a rhanddeiliaid trwy helpu i ffurfio adroddiadau ar berfformiad.

Yn ogystal â dal gwybodaeth am berfformiad mewn perthynas â'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Corfforaethol y Cyngor, mae cynlluniau busnes hefyd yn galluogi swyddogion i ddiweddaru cynnydd yn erbyn blaenoriaethau strategol eraill gan gynnwys Cynllun Datgarboneiddio'r Cyngor, Strategaeth y Gymraeg a'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf yr Amgylchedd. Yn dilyn datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd y Cyngor mae mesurau perfformiad yn cael eu datblygu a byddant yn cael eu hymgorffori yn ein cynlluniau busnes i sicrhau bod gweithgarwch i fonitro'r cynllun yn effeithiol.

Yn 2023/24 cynhaliwyd adolygiad o brosesau Rheoli Perfformiad ac roedd yn cynnwys adolygiad o adroddiadau ar berfformiad i sicrhau eu bod yn parhau i helpu uwch swyddogion i fesur cynnydd ac effaith blaenoriaethau'r Cyngor yn ogystal ag adnabod meysydd i’w gwella. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, a thrwy drafodaethau gyda Chyngor Torfaen, mae fformatau newydd ar gyfer arddangos gwybodaeth am berfformiad yn y broses o gael eu datblygu ac mae fformatau adrodd blaenorol wedi cael eu hatal am y tro. Bydd canlyniad llawn yr adolygiad a'r newidiadau i'r broses rheoli perfformiad yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hunanasesu nesaf.

Cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o sut y mae'r Cyngor yn defnyddio safbwynt defnyddwyr gwasanaethau i hysbysu uwch swyddogion ac Aelodau pan fyddant yn gwneud penderfyniadau. Yn dilyn yr adolygiad hwn, gwnaed tri argymhelliad, a oedd yn cynnwys argymhelliad y dylai'r Cyngor gryfhau gwybodaeth a ddarperir i uwch arweinwyr a sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith i wirio ansawdd a chywirdeb y data ar ddefnyddwyr gwasanaeth a deilliannau. Mae Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad newydd y Cyngor yn dangos ein hymrwymiad i weithio gyda'r gymuned i lunio gwasanaethau gyda'n gilydd. Bydd gwybodaeth o'r Cynlluniau Busnes yn parhau i gael ei bwydo i mewn adroddiadau corfforaethol amrywiol fel bod uwch arweinwyr yn deall a yw gwasanaethau'n diwallu anghenion y gymuned, a bydd proses Asesu Aeddfedrwydd Data'r Cyngor yn goleuo meysydd fel y trefniadau sydd ar waith ar gyfer ansawdd a chywirdeb y data sydd gennym, gan gynnwys data ansoddol a meintiol.
Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau – Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (archwilio.cymru)
https://www.data.cymru/data/self-assessment-performance-data



## Rheoli Risg

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod risg yn gynhenid ym mhopeth y mae'n ei wneud a bod angen rhyw lefel o gymryd risgiau i gyflawni ei uchelgeisiau a'i ddyheadau ar gyfer y sir. Fodd bynnag, mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod bod dyletswydd arno i ddiogelu budd y cyhoedd a diogelu'r adnoddau a ymddiriedir iddo gan drigolion a threthdalwyr Blaenau Gwent. Felly, diben rheoli risg yw sicrhau bod gan y Cyngor fframwaith cadarn a chyson ar gyfer adnabod, gwerthuso a rheoli'r risgiau a allai effeithio ar ein hamcanion strategol a gweithredol, yn ogystal ag enw da'r Cyngor a hyder y cyhoedd.

Darperir cofrestr risgiau i uwch arweinwyr ac adroddir arni trwy'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i helpu i fonitro'r risgiau allweddol sy'n wynebu'r Cyngor. Dogfen ydyw sy'n cofnodi risgiau ac, yn bwysig, sy'n cynnwys y camau gweithredu y mae angen eu cymryd i'w lliniaru neu eu rheoli. Mae'n helpu i flaenoriaethu adnoddau a gall helpu i fynd i'r afael ag unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg mewn modd amserol. O ran y sefyllfa ym mis Mawrth 2024, roedd y Cyngor wedi adnabod 11 o risgiau corfforaethol. Mae 7 o'r rhain wedi'u dosbarthu fel rhai Uchel a 4 wedi'u dosbarthu fel rhai Critigol.

| Cyfeirnod y Risg a Disgrifiad Ohoni | Sgôr risg (ym mis Mawrth 2024) | Cyfeiriad Teithio o'r Chwarter Blaenorol |
|---|---|---|
| CRR1: Methiant i gyflawni a chynnal y newidiadau sy'n ofynnol i sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn cael eu blaenoriaethu o fewn y cyfyngiadau ariannol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu. | **Critigol** | ↔ |
| CRR2: Methiant i sicrhau bod trefniadau TGCh y Cyngor yn rhoi sicrwydd o ran ymarferoldeb gweithredol a diogelwch data ac yn galluogi'r trawsnewid digidol gofynnol. | **Uchel** | ↔ |
| CRR4: Diogelu - Methiant i sicrhau bod trefniadau diogelu digonol ar waith ar gyfer pobl agored i niwed ym Mlaenau Gwent | **Uchel** | ↔ |
| CRR5: Ceir risg nad yw prosesau Parhad Busnes y Cyngor yn ddigon cadarn i'w gwneud yn bosibl darparu gwasanaethau hanfodol mewn argyfwng. | **Uchel** | ↔ |
| CRR14: Bydd methu â gwella cyfraddau presenoldeb staff o fewn y Cyngor yn arwain at effaith annerbyniol ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau'n effeithiol ac yn ariannol. | **Uchel** | ↓ |
| CRR19: Os nad yw'r Cyngor yn rheoli ei asedau gwybodaeth yn unol â'r gofynion a nodir mewn deddfwriaeth, yna gallai wynebu cosbau ariannol a sancsiynau posibl sy'n rhwystr i ddarparu gwasanaethau. | **Uchel** | ↔ |
| CRR21: Gallai cydnerthedd ariannol y Cyngor fod mewn perygl os nad yw'r Cyngor yn sicrhau bod penderfyniadau cynllunio a rheoli ariannol yn ategu sefydlogrwydd a chynaliadwyedd hirdymor | **Critigol** | ↔ |
| CRR22: Methiant i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor o fewn y gyllideb flynyddol y cytunwyd arni gan arwain at fwy o ddefnydd o fesurau cyllid brys a thynnu arian o gronfeydd wrth gefn. | **Uchel** | ↔ |
| CRR25: Mae'r ysgol sydd mewn categori Estyn ac sy'n cael Ymyrraeth gan y Cyngor ar hyn o bryd yn methu â gwneud cynnydd priodol yn erbyn yr Hysbysiad Rhybudd Statudol i Wella a'r Cynllun Gweithredu Ôl-arolygiad. | **Uchel** | ↔ |
| CRR28: Bydd methu â chynnal adnoddau staffio digonol â sgiliau priodol yn arwain at effaith annerbyniol ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau'n effeithiol. | **Critigol** | ↑ |
| CRR31: Amnewid System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) (CareDirector v5) erbyn mis Ionawr 2026 | **Critigol** | Risg Newydd |



Er mwyn helpu i liniaru'r risgiau hyn, mae nifer o reolaethau naill ai ar waith neu'n cael eu datblygu, ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynnal adolygiad sylfaenol o'n Fframwaith Rheoli Perfformiad i sicrhau ein bod yn rhoi darlun cytbwys i Aelodau Etholedig o gryfder a gwendidau'r Cyngor wrth edrych tua'r dyfodol
- Cryfhau trefniadau rheoli perfformiad i sicrhau atebolrwydd ar lefel uwch reolwyr am gyflawni newid ac effeithlonrwydd.
- Chwilio am gyfleoedd cydweithio gydag awdurdodau cyfagos.
- Cyflawni'r Rhaglen Pontio'r Bwlch a'i datblygu ymhellach.

Er bod sawl rheolaeth ar waith a bod y sefydlogrwydd ariannol yn cael ei fonitro'n fanwl, mae sefydlogrwydd ariannol yn debygol o barhau i fod yn risg gorfforaethol i'r sefydliad yn y dyfodol agos.

Wrth edrych tua'r dyfodol, bydd rheoli risg yn un o'r meysydd cyntaf y bydd Cynghorau Torfaen a Blaenau Gwent yn ceisio'i alinio. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r swyddogion perthnasol i ganfod y gwahaniaethau yn nulliau'r naill a'r llall ac i ystyried pa agweddau i ganlyn arni â hwy fel y gellir gweithredu un fframwaith effeithiol ar draws y ddau Gyngor.
GOVAUDIT2407D5 Adroddiad ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol Chwarter 4 2023 2024.pdf (blaenau-gwent.gov.uk)

## Eiddo'r Cyngor

Mae grŵp rheoli eiddo corfforaethol wedi cael ei sefydlu i ystyried sefyllfa tymor canolig a hir adeiladau'r Cyngor. Mae Cynllun Rheoli Asedau Strategol (CRhAS) y Cyngor yn cael ei gynhyrchu.

Gan bod y Cyngor wedi newid i fodel gweithio mwy ystwyth, mae llai o staff yn defnyddio swyddfeydd yn ddyddiol a byddir yn ystyried yn awr sut orau i ddiwallu anghenion staff yn y dyfodol. Mae adolygiad o swyddfeydd, gyda'r posibilrwydd o'u lleihau ymhellach, yn cael ei ystyried ar hyn o bryd er mwyn diogelu swyddi a thorri costau.

Prynwyd gwasanaeth Syrfëwr Arbenigol i gynnal Arolwg o Gyflwr prif swyddfa'r Cyngor, y Swyddfeydd Cyffredinol, i wneud gwaith prisio i lunio rhestr o gostau cynnal a chadw ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hir.

Mae gwaith yn parhau i gynyddu cyfradd meddiannaeth y Portffolio Diwydiannol, gan gydweithio'n agos gyda'r tîm Ystadau a'r Gwasanaethau Technegol. Mae'r portffolio'n dal i fod yn sefydlog ar gyfradd meddiannaeth o oddeutu 95%. Mae'r portffolio'n parhau i fod yn gartref i nifer fawr o'n MBaCh a thua 800 o swyddi i gyd.

Mae gwaith yn parhau i fynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â dŵr yn dod i mewn i'r Unedau Hybrid gyda Kier. Mae hyn yn parhau i fod yn her ochr yn ochr â rheoli'r berthynas â'r tenantiaid.

## Asedau'r Cyngor

Mae'r Cyngor yn parhau i sicrhau bod yr adeiladau a'r asedau sydd gennym yn adlewyrchu ein trefniadau gweithio cyfredol. Yn 2023/24 cynhaliwyd adolygiad gan ganolbwyntio ar y defnydd cyfredol o adeiladau gweithredol a'r hyn y bydd ei angen ar y Cyngor yn y dyfodol i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion ein trigolion. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn hefyd ar y cyd â Strategaeth y Gweithlu ac Adolygiad o Weithio Ystwyth ac mae'n berthnasol i'r rhain.



Gwnaed penderfyniad gan y Cyngor i gau un o hybiau gwaith y Cyngor, Anvil Court yn Abertyleri. Gwnaed y penderfyniad hwn i gefnogi sefyllfa ariannol y Cyngor. Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor hybiau gweithio ystwyth ledled y Fwrdeistref sy'n darparu swyddfeydd a mannau hapfyrddio ar gyfer cyflogeion. Mae'r Landlord wedi cael gwybod am fwriad y Cyngor i ddod â'r les i ben, gan leihau Asedau'r Cyngor a newid i ffyrdd mwy ystwyth o weithio yn ogystal â darparu gwasanaethau trwy fodel hyb cymunedol, sy'n helpu i ddarparu ein gwasanaethau'n ddarbodus ac yn effeithlon.

Sefydlwyd Grŵp Rheoli Eiddo ac Asedau Corfforaethol i drafod anghenion o ran swyddfeydd, statws adeiladau a photensial ar gyfer arbed costau. Fel rhan o hyn mae prosesau Trosglwyddo Asedau Cymunedol (CATs) wedi bod cael eu cwblhau gan y Cyngor. Mae llawer (o drefniadau Trosglwyddo Asedau Cymunedol) ar lesoedd neu denantiaethau byrdymor, felly mae'r ffocws ar gwblhau lesoedd tymor hwy yn parhau, lle y bo'n bosibl, yn ogystal â mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n atal y Cyngor rhag ymrwymo i drefniadau tymor hwy. Mae'r cynnydd gyda'r prosesau Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn cynnwys:

| Prosesau Trosglwyddo Asedau Cymunedol a gwblhawyd (yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf) | Yn Agos at Gael eu Cwblhau | Prosesau Trosglwyddo Asedau Cymunedol Newydd sy'n Cael Eu Prosesu |
|---|---|---|
| • Gerddi'r Mileniwm (Gerddi Terence) Brynmawr –lesio i Growing Space Tachwedd 2021<br>• Coetir Sirhywi – trwydded wedi'i chwblhau ym mis Mehefin 2021 (tir comin).<br>• Sinema Neuadd y Farchnad Brynmawr - trosglwyddiad rhydd-ddaliadol Ebrill 2022<br>• Canolfan Gymunedol Rassau – trosglwyddiad i ymddiriedolwyr newydd wedi'i gwblhau ar ddiwedd y flwyddyn adrodd felly dyma'r cofnod diweddaraf yn y categori hwn.<br>• Canolfan Adnoddau Rassau – les i Gwmni Buddiannau Cymunedol Canolfan Gymunedol Adnoddau Rassau wedi'i chwblhau ar 1 Medi 2023.<br>• Lles Beaufort - Ystafell Newid uchaf a'r Cae Rygbi. Les i Beaufort RFC Fields and Facilities Ltd. wedi'i chwblhau ar 25 Gorffennaf 2023.<br>• Lles Beaufort – Ystafell Newid isaf a'r Cae Pêl-droed. Les i Glyn Ebbw | • Pafiliwn Hilltop Fields (a rennir gyda Dechrau'n Deg), ystafelloedd newid a chaeau – yn aros am ganiatâd Fields in Trust ar gyfer cwblhau'r les. | • Ardal o wlyptir ym Mhafiliwn Jim Owen, Cwmtyleri – Cyfreithwyr wedi'u cyfarwyddo i baratoi cytundeb ar gyfer Cwmni Buddiannau Cymunedol Pentref Tyleri (meddiannu rhan o bafiliwn/ Gardd Abertillery Excelsiors).<br>• Neuadd Sgowtiaid Coedcae – Eiddo wedi'i ildio gan y Sgowtiaid. Mae Growing Space wedi tynnu cais yn ôl ac mae astudiaeth ddichonoldeb ar y gweill ar gyfer defnydd posib gan wasanaethau a'r gymuned.<br>• Maes Windsor Road– mae cyfreithwyr wedi'u cyfarwyddo i ddrafftio les i Abertillery Bluebirds gymryd y maes chwarae ymlaen i'w ddefnyddio ar gyfer pêl-droed iau.<br>• Tennis Six Bells – mae cyfreithwyr wedi'u cyfarwyddo i baratoi les ar gyfer Six Bells Park Community Tennis Ltd ar gyfer ciosg a thir ar gyfer caban/cyfleuster newid newydd, yn amodol ar gymeradwyaeth FiT. |



| | | |
|---|---|---|
| Fields & Training Facilities Ltd wedi'i chwblhau ar 25 Gor 2023.<br>• Maes Roseheyworth – ystafelloedd newid a chaeau. Les i Tyleryan Belles Sports Association Limited wedi'i chwblhau ar 19 Gorffennaf 2023.<br>• Rhandiroedd Cymunedol Cwm – les i Gwmni Buddian nau Cymunedol Barefoot Farming wedi'i chwblhau ar 5 Chwefror 2024 | | • Maes Hamdden Brynithel - pafiliwn a rennir (Dechrau'n Deg) a meysydd chwarae. Yn aros am eglurder ynghylch gallu'r Grŵp (Chwaraeon a Chwmni Buddiannau Cymunedol St. Illtud) i fwrw ymlaen. |

Mae angen unioni meddiannaeth mewn perthynas â Throsglwyddo Asedau Cymunedol ar rai safleoedd lle mae grwpiau wedi eu meddiannu, ond bod angen cwblhau gwaith papur ffurfiol / diwygiedig. Mae cynnydd gyda'r prosesau Trosglwyddo Asedau Cymunedol hyn yn cynnwys:

| Trosglwyddo Asedau Cymunedol | Cynnydd |
|---|---|
| **Lawnt a Phafiliwn Bowls Parc Bedwellte** | Yn cael eu meddiannu o dan delerau'r denantiaeth yn Ewyllys. Gwefan elusen - bydd angen gwneud cais i'r Comisiwn Elusennau er mwyn rhoi prydles. |
| **Cwm Welfare – caeau a phafiliwn** | Mae CIC Chwaraeon Cymunedol Cwm ar hyn o bryd ar denantiaeth mewn ewyllys ac mae trafodaethau'n parhau ynghylch CAT. Gwefan elusen - bydd angen gwneud cais i'r Comisiwn Elusennau er mwyn rhoi prydles. |
| **Sefydliad y Blaenau** | Mae Blaina Community Institute Limited wedi bod yn meddiannu'r adeilad ers 1/6/17. Cwblhawyd les ar 19 Medi 2023. |
| **Theatr y Metropole Abertyleri** | Wedi'i feddiannu gan Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen o dan delerau Trwydded o 09/04/2021. Mae trafodaethau ar gyfer les yn mynd rhagddynt. Cytunwyd ar restr o waith ar adeg y trosglwyddiad ac mae'r Cyngor yn ceisio cael cyfraniadau cyllid o raglen 'Trawsnewid Trefi' Llywodraeth Cymru. Mae rhan o'r adeilad yn cael ei meddiannu gan Amgueddfa Abertyleri o dan gytundeb Les ar wahân. |
| **Sefydliad Llanhiledd** | Les ddrafft wedi'i rhoi i Sefydliad Glowyr Llanhiledd – wrthi'n negodi |
| **Pafiliwn, stondinau a chaeau Maes Chwaraeon Tredegar** | Meddiannwyd o dan Denantiaeth mewn Ewyllys. Safle elusen - bydd angen cyflwyno cais i'r Comisiwn Elusennau er mwyn rhoi les. |
| **Stondin, meysydd chwarae, teras rygbi EV Welfare,** | Mae Eugene Cross Park Sports Ltd yn eu meddiannu o dan delerau Tenantiaeth mewn Ewyllys. Safle elusen – cais wedi'i gyflwyno i'r Comisiwn Elusennau sydd wedi cadarnhau y gall CBSBG roi prydles. Mae'r cyfreithiwr wedi rhoi les ddrafft. |
| **Pafiliwn Criced – EV Welfare** | Yn cael eu meddiannu o dan delerau Tenantiaeth mewn Ewyllys. Safle elusen - bydd angen cyflwyno cais i'r Comisiwn Elusennau er mwyn rhoi les. |



| | |
|---|---|
| **EV Welfare – pafiliwn bowls a 2 lawnt** | Yn cael eu meddiannu o dan delerau Tenantiaeth mewn Ewyllys. Safle elusen - bydd angen cyflwyno cais i'r Comisiwn Elusennau er mwyn rhoi les. |

## Caffael

Mae strategaeth Comisiynu a Chaffael y Cyngor wedi cael ei diwygio drwy'r flwyddyn, sy'n nodi pedwar amcan i helpu i gyflawni'r weledigaeth ar gyfer 'Gwneud y Gorau o Bunt Blaenau Gwent mewn modd sy'n Gyfrifol yn Gymdeithasol'.

Mae pedwar amcan y strategaeth yn nodi sut y bydd ein gweithgareddau comisiynu a chaffael yn ategu blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor:

- Amcan 1: Sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol a llywodraethu cadarn a thryloyw.
- Amcan 2: Hyrwyddo gweithgareddau a phrosesau caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol.
  - 2.1 Cynyddu'r manteision cymunedol ac o ran gwerth cymdeithasol a gyflawnir gan gyflenwyr.
  - 2.2 Cyfrannu at nod y Cyngor i fod yn Gyngor Sero Net erbyn 2030.
  - 2.3 Gwella arferion Gwaith Teg a Diogelu o fewn ein cadwyn gyflenwi.
- Amcan 3: Sicrhau gwerth am arian a rheoli'r galw trwy drefniadau rheoli contractau effeithiol a chadarn; ac
- Amcan 4: Hyrwyddo datrysiadau arloesol ac arfer gorau.

Mae canlyniadau a metrigau perfformiad allweddol yn cael eu datblygu i sicrhau bod deilliannau'r strategaeth Comisiynu a Chaffael yn gallu cael eu mesur yn effeithiol, a bydd adroddiad ar y cynnydd yn erbyn y strategaeth yn cael ei gynnwys yn yr hunanasesiad nesaf.

Yn gynnar yn 2024 cynhaliodd Archwilio Cymru archwiliad a ganolbwyntiodd ar y trefniadau sydd gan y Cyngor i gomisiynu gwasanaethau. Prif bwrpas yr archwiliad oedd i Archwilio Cymru:

- roi sicrwydd bod gan gynghorau drefniadau priodol ar gyfer comisiynu gwasanaethau i sicrhau gwerth am arian o ran y modd y maent yn defnyddio adnoddau.
- rhoi sicrwydd bod cynghorau'n gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gomisiynu gwasanaethau.
- esbonio sut mae cynghorau'n mynd ati i gomisiynu gwasanaethau ac ysbrydoli a grymuso cynghorau a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus trwy adnabod a rhannu enghreifftiau o arfer/dulliau nodedig lle y bo'n berthnasol.

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion wedi cael eu cyflwyno i Uwch Swyddogion ar gyfer gweithredu. Bydd adroddiad ar y cynnydd gyda'r argymhellion yn cael ei gyflwyno trwy'r broses ddemocrataidd a'r hunanasesiad nesaf.

## Cydraddoldeb

Rydym yn cydnabod fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus bod gennym rôl allweddol o ran gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl. Felly, byddwn yn parhau i ymdrechu i wireddu ein gweledigaeth *'Blaenau Gwent – lle sy'n deg ac agored ac yn groesawgar i bawb drwy weithio gyda'n cymunedau ac ar eu cyfer'* fel a amlinellir yn ein Cynllun Corfforaethol. Er mwyn helpu i weithredu'r weledigaeth hon, mae gan y Cyngor Gynllun Cydraddoldeb Strategol gydag amcanion cydraddoldeb sy'n rhoi sylw dyladwy i sut y gall y Cyngor gyfrannu at gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau dda yn ein gweithgareddau o ddydd i ddydd.



Daeth Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 i ben yn gynnar yn 2024, ac mae cynllun newydd ar gyfer 2024-2028 wedi cael ei ddatblygu. Mae rhai o gyflawniadau allweddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 ar gyfer 2023/2024 yn cynnwys:

- Sesiynau Hyfforddi Penodol ar gyfer Staff wedi cael eu cynnal i ymdrin â phynciau a oedd yn cynnwys Niwroamrywiaeth, Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol a Gwrth-Hiliaeth
- Sefydlu Gwasanaeth Addysg Teithwyr mewn ysgol leol
- Mwy o Ymwybyddiaeth o ystod o ymgyrchoedd ar draws y sefydliad
- Asesiad Effaith Integredig Diwygiedig

Datblygwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024/28 yn dilyn ymgysylltu helaeth â’r cyhoedd a oedd yn cynnwys 160 o bobl â phrofiadau personol ar draws y nodweddion gwarchodedig a enwyd. Ar ben hynny, cymerodd 48 o unigolion ran trwy holiadur ar-lein, a oedd yn annog pobl i rannu eu barn a'u profiadau, a siarad yn fras am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae hyn, ynghyd ag ymgysylltu â'n staff, wedi helpu i ddatblygu chwe amcan yn y cynllun:

- **Amcan Cydraddoldeb 1**: Byddwn yn sefydliad teg a chyfiawn.
- **Amcan Cydraddoldeb 2**: Byddwn yn weithle sy'n hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant.
- **Amcan Cydraddoldeb 3**: Byddwn yn creu diwylliant dysgu teg a chynhwysol i bob plentyn ac unigolyn ifanc gyda ffocws ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- **Amcan Cydraddoldeb 4:** Byddwn yn hyrwyddo ac yn cefnogi cymunedau cynhwysol, diogel a chydlynol.
- **Amcan Cydraddoldeb 5:** Byddwn yn sicrhau ymgysylltiad a chyfranogiad effeithiol ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig.
- **Amcan Cydraddoldeb 6:** Byddwn yn ymdrechu i leihau anghydraddoldeb a achosir gan dlodi.

Crëwyd Grŵp Goruchwylio a Chyflawni i oruchwylio a thracio cynnydd tuag at y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o amryw feysydd gwasanaeth o fewn y Cyngor, gan sicrhau safbwynt eang a chytbwys, a gwella tryloywder drwyddi draw yn y sefydliad. Mae'r grŵp hefyd yn rhoi cyfle i drafod unrhyw heriau o ran cyflawni'r amcanion ac mae'n llwyfan i ddod o hyd i ddatrysiadau posibl.

Er mwyn helpu i roi arweiniad i gyflawni'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol mae Rhwydwaith Profiad Personol wedi cael ei sefydlu hefyd. Mae'r rhwydwaith hwn ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig y mae arnynt eisiau rhannu eu straeon, eu heriau a'u cyflawniadau gyda'r Cyngor. Nod y rhwydwaith yw bod yn llwyfan i godi ymwybyddiaeth a dylanwadu ar newid.

Bydd cynnydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a diweddariadau o'r rhwydwaith yn cael eu darparu trwy adroddiad monitro blynyddol.
2-cynllun-cydraddoldeb-strategol-2428.pdf (blaenau-gwent.gov.uk)
Dangosfwrdd Cydraddoldeb - Data Cymru

### Y Gymraeg

Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol ledled Cymru lunio strategaeth sy'n amlinellu sut yr ydym ni, ynghyd â chymorth gan ein partneriaid, yn bwriadu hybu’r Gymraeg, cynyddu gweledeedd yr iaith a chyfleoedd sy’n gysylltiedig â hi ac ymgysylltu â'r Gymraeg a diwylliant Cymraeg. Datblygwyd Strategaeth Hybu'r Gymraeg y Cyngor yn unol â tharged Llywodraeth Cymru i greu 1 miliwn o siaradwyr ledled Cymru erbyn 2050.
Mae Strategaeth Hybu’r Gymraeg 2022/2027 yn ei hail flwyddyn ers ei rhoi ar waith.

Mae gweithdrefnau monitro mewnol wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru i gynnwys ystyriaeth i Strategaeth Hybu’r Gymraeg o fewn y trefniadau cynllunio busnes ar gyfer pob cyfarwyddiaeth. Mae cynnwys gweithgarwch i fonitro'r Strategaeth Hybu o fewn y cynlluniau busnes wedi’i fwriadu i wneud staff yn fwy ymwybodol sut y gall eu gwaith ategu a sut y mae eu gwaith yn ategu ein hamcanion ac yn sicrhau mwy o atebolrwydd yn erbyn camau gweithredu penodol gan ein bod yn gallu monitro’r modd y cânt eu rhoi ar waith o fewn gwaith adrannau perthnasol.



Fe wnaed cynnydd yn erbyn amcanion Strategaeth Hybu'r Gymraeg ar gyfer 2023/2024, sy'n cynnwys:

- Hyrwyddo agweddau cadarnhaol ar ein hiaith Gymraeg a diwylliant Cymraeg y tu mewn i'n sefydliad, y tu allan gyda'r cyhoedd, a thrwy ein sianeli addysg;
- Digwyddiad dathlu Dydd Gŵyl Dewi a gynhaliwyd i gydnabod a dathlu cyflawniadau yn y Gymraeg; a
- Hyrwyddo'r Gymraeg mewn digwyddiadau cymunedol gan gynnwys llyfrgell leol.

O ran y sefyllfa ym mis Mawrth 2024, mae cyfanswm y staff sydd â sgiliau siarad Cymraeg sy'n amrywio o 'rhugl', i 'gweddol dda', 'cymedrol', 'sylfaen' a Lefel Cwrteisi/Mynediad yn 605 (20%). Mae hyn yn gynnydd o 68 aelod o staff o'i gymharu â 2022/23. Ni chafwyd unrhyw gwynion gan aelodau'r cyhoedd mewn perthynas â'r Gymraeg am y flwyddyn.

Ar gyfer 2023/24 roedd Ymchwiliad gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar agor. Roedd yr ymchwiliad yn ymdrin â'r canlynol:

- Gwasanaethau ffôn;
- Darpariaeth Hyfforddiant;
- Y Broses Recriwtio; a
- Hyrwyddo Gwasanaethau Cymraeg.

Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn, sefydlwyd grŵp swyddogion craidd, ac fe ddatblygwyd cynllun gweithredu. Roedd y cynllun gweithredu'n amlinellu sut y byddai'r materion yn cael sylw gyda therfynau amser wedi'u pennu. Fe wnaeth y Cyngor gyflwyno'r Cynllun Gweithredu i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar 31 Ionawr 2023 a chafodd gymeradwyaeth ym mis Mawrth 2023. Mae'r holl gamau gweithredu wedi cael eu cwblhau bellach ar wahân i ddau:

- Trefnu bod pecyn hyfforddiant Cymraeg ar gael i'r holl staff trwy borth e-ddysgu newydd y Cyngor (sy'n cael ei gomisiynu ar hyn o bryd); a
- Datblygu'r weithdrefn ar gyfer sicrhau bod hyfforddiant Cymraeg yn cael ei ailadrodd o bryd i'w gilydd trwy gyfrwng y porth e-ddysgu (gan gynnwys hyfforddiant diweddaru).

Oherwydd materion technegol y tu hwnt i reolaeth y Cyngor, mae oedi wedi bod cyn lansio'r porth e-ddysgu newydd; yn y cyfamser lanlwythwyd hyfforddiant Cymraeg pellach i fewnrwyd y Cyngor.
Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r gofynion o ran y Gymraeg, mae'r grŵp craidd o swyddogion yn parhau i gwrdd yn rheolaidd i dracio datblygiadau, mynd i'r afael â heriau, a gweithio tuag at ddatrysiadau.

Mae gan y Cyngor Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 10 mlynedd i helpu i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr yng Nghymru erbyn 2050. Mae cynnydd y CSCA yn cael ei fonitro trwy Fforwm Addysg Gymraeg Blaenau Gwent. Mae'r Fforwm Addysg Gymraeg yn digwydd bob tymor ac mae wedi cael ei ganmol gan Lywodraeth Cymru a chydweithwyr am y gwaith partneriaeth cryf. Bydd y Fforwm Addysg Gymraeg yn parhau i gwrdd a bydd y CSCA yn dal i gael ei weithredu i sicrhau bod y Cyngor yn parhau i ymrwymo i weledigaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru a'i chefnogi.

Mae 'Mwy na Geiriau' gan Lywodraeth Cymru 2022/27 yn gynllun iaith Gymraeg ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol sy'n ceisio sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at y gofal y maent yn ei haeddu ac y mae ei angen arnynt yn eu dewis iaith. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i fonitro cydymffurfiaeth ac yn parhau i sicrhau, pan fydd dinasyddion yn cysylltu â'n Hadrannau Gwasanaethau Oedolion a Phlant, y cynigir cyfle iddynt gyfathrebu yn eu dewis iaith. Mae'r cynllun gweithredu 'Mwy na Geiriau' wedi symud ymlaen, mae cyswllt gyda hyrwyddwyr y Gymraeg yn lleol ac mae hyrwyddo'r adnoddau a'r cyfleoedd eang sydd ar gael bellach yn arfer safonol. Mae ein darparwyr a gomisiynwyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda ni i hyrwyddo'r Gymraeg ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein contractau a'n cytundebau lefel gwasanaeth.



## Cynghorau Tref a Chymuned

Gall Cynghorau Tref a Chymuned helpu'r Cyngor i ddeall y materion sy'n effeithio ar y gymuned leol. Mae'r Cyngor yn parhau i ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned ar ystod o faterion, gan gynnwys cyllideb y Cyngor.
Mae pedwar Cyngor Tref a Chymuned ym Mlaenau Gwent:

- Cyngor Tref Tredegar;
- Cyngor Tref Nant-y-glo a'r Blaenau;
- Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd; a hefyd
- Cyngor Tref Brynmawr.

Yn 2023/24, sefydlodd y Cyngor a'r pedwar Cyngor Tref a Chymuned drefniadau cyswllt newydd trwy Siarter Cytundeb Cyffredin. Mae'r Siarter hon yn hyrwyddo arferion gorau ac egwyddorion cyffredin fel bod yn agored, parch, gonestrwydd, a blaenoriaethu dinasyddion. Bydd y Siarter hon yn cael ei hadolygu gan yr holl Bartneriaid unwaith yn ystod pob un o dymhorau'r Cyngor, neu'n amlach fel y bo'n briodol os bernir bod angen. Bydd y Partneriaid yn cynnal yr adolygiad hwn ac yn datblygu adroddiad cynnydd blynyddol yn erbyn yr ymrwymiadau yn y Siarter. Parhaodd cyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor Cyswllt trwy gydol y flwyddyn gan helpu i wella cyfathrebu, perthnasoedd a chydweithio. Yn 2023/2024, llofnododd y Cyngor a phob Cyngor Tref Gyfamod newydd y Lluoedd Arfog, addewid o gyd-gefnogaeth rhwng cymunedau sifil lleol a'r Lluoedd Arfog.

Mae rhaglen waith i'r dyfodol wedi cael ei dylunio gyda phrosesau monitro ac adolygu wedi'u hymgorffori. Bydd y dull hwn nid yn unig yn gwella canllawiau ac ymgysylltiad â Chynghorau Tref a Chymuned yn y dyfodol ond bydd hefyd yn galluogi partneriaid i sicrhau bod yr ymrwymiadau ar y cyd a amlinellir yn dal i fod yn briodol ac yn berthnasol dros amser.

## Ymgysylltu a Chyfranogiad

Mae ymgysylltu, cyfranogiad a phrofiad y cwsmer yn themâu hanfodol sy'n dylanwadu ar brosesau dylunio gwasanaethau a phenderfynu'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn ymroddedig i gymorth cymunedol hirdymor ac yn amcanu at gyflawni hyn trwy ymgysylltu'n weithredol â chymunedau. Mae ymgysylltu'n effeithiol yn hanfodol ar gyfer gweithrediad effeithlon y Cyngor, gan sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn addas ac yn diwallu anghenion defnyddwyr.

Mae Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad newydd sy'n nodi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer Ymgysylltu a Chyfranogiad wedi cael ei datblygu yn dilyn ymgynghoriad â'r cyhoedd. Derbyniwyd 170 o ymatebion gan y gymuned a rannodd farn ar amcanion drafft y strategaeth a sut y dylai'r Cyngor ymgysylltu â dinasyddion yn y dyfodol.

Mae cynllun gweithredu manwl wedi cael ei ddatblygu i roi cymorth i roi'r strategaeth ar waith a hwnnw'n nodi ystod o gamau gweithredu a ddyrennir i feysydd gwasanaeth ar draws y sefydliad. Bydd gwybodaeth am gynnydd o ran gweithredu'r strategaeth yn cael ei chyflwyno yn yr adroddiad hunanasesu nesaf.

- Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Blaenau Gwent - Chwilio (bing.com)

## Cwynion a Chanmoliaeth

Mae'r Cyngor wedi gwella'r broses o adrodd ar gwynion a chanmoliaeth o fewn y sefydliad trwy greu dangosfwrdd rhyngweithiol Gwybodaeth am Berfformiad. Mae'r offeryn hwn yn galluogi'r darllenydd i archwilio'r cwynion a'r ganmoliaeth a gyflwynwyd i'r sefydliad dros y tair blynedd ddiwethaf yn ogystal â gallu adnabod nifer y cwynion a gafwyd fesul maes gwasanaeth. Bydd y broses yn cael ei chryfhau ymhellach i helpu i adnabod themâu a gwersi er mwyn gwneud gwelliannau yn y dyfodol. Bwriedir adrodd ar hyn yn yr hunanasesiad nesaf. Yn ystod y flwyddyn cofnodwyd 139 o achosion o adborth ar draws y Cyngor. Roedd y 139 o achosion hyn yn cynnwys:

- 93 o gwynion; a
- 46 canmoliaeth



Cafodd 90 o achosion eu cau (eu cwblhau) yn ystod y cyfnod adrodd. O'r rheiny, roedd bron i dri chwarter (66) o fewn yr amserlen. Roedd 22 ar ei hôl hi o ran amser ond o fewn 3 mis. Dim ond 2 oedd ar ôl 3 mis ond o fewn 6 mis. Ni chymerodd yr un ohonynt fwy na chwe mis.

## Llywodraethu Gwybodaeth


Yn ystod y cyfnod cafodd y Cyngor gyfanswm o 1,044 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Mae hyn 6.8% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol lle cafwyd 978 o geisiadau a oedd ei hun 13% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol.

O dan ddeddfwriaeth, mae disgwyl i'r Cyngor ymateb i geisiadau dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth o fewn 20 niwrnod gwaith. Mae Blaenau Gwent wedi syrthio islaw'r lefel hon gan ymateb i 88% o'r ceisiadau dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ar draws y Cyngor o fewn yr 20 niwrnod a ddyrannwyd. O'r 12% nad ydynt wedi bodloni'r gofyniad, ymatebwyd i 8.6% (90 o geisiadau) yn hwyr ac mae 3.4% yn dal i fod heb gael ymateb ym mis Gorffennaf 2024.

Eleni cafodd y Cyngor gyfanswm o 83 o Geisiadau Gwrthrych am Wybodaeth o'i gymharu â 60 y flwyddyn flaenorol, a 54 y flwyddyn cyn hynny. Mae hyn yn gynnydd digynsail o 38% mewn ceisiadau dros y flwyddyn, ac yn gynnydd o 53% dros y ddwy flynedd. Gan na chaniateir i ni ofyn am reswm neu gyfiawnhad pam y cyflwynir Cais Gwrthrych am Wybodaeth, mae'n anodd iawn nodi rheswm dros y cynnydd hwn; fodd bynnag, rydym yn ymchwilio i weld a oes unrhyw dueddiadau neu ddefnyddwyr gwasanaethau penodol sy'n effeithio ar hyn hefyd i weld a ellir gwneud mwy i reoli'r rhwymedigaeth hon yn well.

Cyn rhyddhau gwybodaeth i'r sawl sy'n gofyn amdani, i gynnal preifatrwydd a diogelwch, mae'n ofynnol i ni sicrhau bod gan bawb sy'n gofyn am wybodaeth hawl i gael yr wybodaeth cyn y gallwn ei ystyried yn gais dilys. I wneud hyn mae gofyn i ni gael manylion adnabod gan y sawl sy'n gofyn am yr wybodaeth i alluogi'r cais i gael ei ystyried yn un dilys. Am amrywiaeth o resymau, yn aml ni fydd y rhai sy'n gofyn am wybodaeth yn ymateb i'r cais i ddarparu'r manylion adnabod perthnasol felly nid yw eu ceisiadau'n dod yn ddilys. Yn ystod y cyfnod, darparodd 54 o'r 83 a ofynnodd am wybodaeth fanylion adnabod a daeth eu ceisiadau'n ddilys. Mae hyn hefyd yn gynnydd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol lle daeth 29 cais yn unig yn ddilys. Mae hyn yn gynnydd o 86%.

Ar gyfer Cais Gwrthrych am Wybodaeth safonol caniateir 30 niwrnod calendr o'r amser y daw'n ddilys i ddarparu'r wybodaeth ar gyfer y sawl sy'n gwneud cais. Mewn amgylchiadau prin caniateir i ni estyn yr amser a ganiateir o'r 30 niwrnod safonol i 90 diwrnod lle gellir dangos bod cais yn fawr neu'n gymhleth. Yn ystod 2023/24 cafodd y terfyn amser ei estyn ar gyfer cyfanswm o 6 chais allan o'r 54 o geisiadau dilys a gafwyd.




Dioddefodd y Cyngor gyfanswm o 34 o achosion a gofnodwyd o Danseilio Diogelwch Data yn ystod y cyfnod gyda'r rheiny wedi'u rhannu rhwng cyfarwyddiaethau. Mae hyn wedi gostwng o 45 o achosion o danseilio diogelwch data y llynedd ac mae hefyd yn ostyngiad bach o'i gymharu â'r 37 o achosion o danseilio diogelwch data yn y flwyddyn flaenorol. Yn flaenorol mae'r Cyngor wedi creu Gweithdrefn Ymdrin ag Achosion o Danseilio Diogelwch Data yn unol â'i rwymedigaethau dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a deddfwriaeth Diogelu Data y mae'n ei dilyn ar gyfer pob achos o danseilio diogelwch data a adnabyddir. Fel rhan o'r weithdrefn hon ar gyfer pob achos o danseilio diogelwch data sy'n cynnwys data personol categori arbennig (sensitif) neu lawer iawn o ddata, bydd Panel Tanseilio Diogelwch Data'r Cyngor yn ymgynnull i ystyried y camau gweithredu angenrheidiol. O'r 34 o Achosion o Danseilio Diogelwch Data a ddioddefwyd yn ystod y flwyddyn, penderfynodd y Panel Achosion o Danseilio Diogelwch Data nad oedd yr un ohonynt yn uwch na'r trothwy ar gyfer eu cyflwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i gael asesiad.



### Strategaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid

Mae'r Cyngor wedi ailasesu ei fodel darparu Gwasanaethau Cwsmeriaid i addasu i dirwedd esblygol y blynyddoedd diwethaf. Mae pandemig COVID-19 wedi newid sut y mae preswylwyr yn ceisio mynediad at wasanaethau'r cyngor. Mewn ymateb, mae'r Cyngor wedi llunio Strategaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid sy'n amlinellu ein gweledigaeth a'n huchelgais ar gyfer gwella'r profiad o wasanaethau cwsmeriaid. Mae'r strategaeth yn amlinellu tair egwyddor allweddol sy'n anelu at ddarparu profiad gwasanaethau cwsmeriaid cadarnhaol, buddsoddi mewn staff i gynorthwyo cwsmeriaid i ddatrys ymholiadau yn ystod y cyswllt cyntaf lle y bo'n bosibl a pharhau i wneud y defnydd gorau o dechnoleg.

Cefnogir y strategaeth trwy safonau gwasanaethau cwsmeriaid sy'n helpu i ddiffinio a nodi'r hyn y gall cwsmeriaid Blaenau Gwent ei ddisgwyl gan wasanaethau'r Cyngor. Mae siarter gwasanaethau cwsmeriaid wedi cael ei datblygu hefyd i adlewyrchu'r ymrwymiad sydd gan y Cyngor i'r holl drigolion ac ymwelwyr sy'n defnyddio'r gwasanaethau a ddarparwn ac sy'n cynnwys y disgyblion, y rhieni a'r gofalwyr a wasanaethir gan ein hysgolion.

Bydd mesurau perfformiad yn cael eu datblygu i helpu i fonitro ac adolygu effaith y strategaeth. Bydd adroddiad ar y mesuriadau a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y rhain yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad hunanasesu nesaf.
Strategaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid | CBS Blaenau Gwent (blaenau-gwent.gov.uk)

### Strategaeth Trawsnewid Digidol

Mae'r ffordd y mae'r cyhoedd yn ceisio mynediad at wasanaethau'r Cyngor wedi newid gyda mwy o wasanaethau'n cael eu darparu ar-lein; er mwyn helpu i ddiwallu anghenion y gymuned a helpu i ddarparu ein gwasanaethau'n fwy effeithlon, mae'r Cyngor wedi datblygu Strategaeth Trawsnewid Digidol. Mae'r strategaeth yn un o gyfres o raglenni digidol/TGCh strategol sydd wedi'u bwriadu i sicrhau cynaliadwyedd ar draws y gymuned yn y dyfodol a sicrhau deilliannau gwell i'n cwsmeriaid, busnesau a dysgwyr.

Tanategir y Strategaeth gan ddwy egwyddor allweddol a thair blaenoriaeth sy'n hanfodol i wella a darparu ein gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r ddwy egwyddor yn y strategaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu diwylliant sy'n ategu gwelliant digidol a phrofiad di-dor i gwsmeriaid a gwella cydweithio i wneud y defnydd gorau o wybodaeth ac arbenigedd i greu gwasanaethau gwell.

Mae canran uchel o'r rhai sy'n ymweld â'r Hybiau Cymunedol yn nodi nad ydynt yn gallu hunan-wasanaethu. Y dull a ffefrir gan y Cyngor o ddarparu gwasanaethau yw trwy ddulliau digidol ond nid yw nifer uchel o bobl Blaenau Gwent yn gallu defnyddio technoleg ddigidol. Er mwyn newid i fodel gweithredu mwy digidol, bydd angen i'r Cyngor sicrhau bod y preswylwyr yn gallu aros gyfuwch â'r cyflymder hwn. Mae Swyddog Cynhwysiant Digidol wedi cael ei benodi a bydd yn ceisio gweithio o'r Hybiau Cymunedol i gefnogi'r rhai na allant hunan-wasanaethu.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu mesurau perfformiad allweddol i helpu i fonitro effaith y strategaeth. Bydd canlyniad gweithredu'r Strategaeth Trawsnewid Digidol yn ystod y flwyddyn gyntaf yn cael ei gyflwyno yn yr adroddiad hunanasesu nesaf.
Strategaeth Trawsnewid Digidol Cyngor Blaenau Gwent 2023 – 2027 | CBS Blaenau Gwent (blaenau-gwent.gov.uk)

### Aeddfedrwydd Data

Mae data a mewnwelediad yn hollbwysig i lwyddiant sefydliad. Mae dod yn Gyngor yr 21ain Ganrif yn golygu defnyddio data a mewnwelediad i herio a dysgu mewn modd adeiladol a rhagweithiol er mwyn ysgogi gwelliant a goleuo prosesau gwneud penderfyniadau. Gellir cyflawni hyn trwy fod â Strategaeth Data effeithiol. Er mwyn datblygu Strategaeth Data, mae'n bwysig deall aeddfedrwydd data'r Cyngor. Hynny yw, ei allu, ei effeithiolrwydd, a'i barodrwydd i ddefnyddio data i gyflawni'r blaenoriaethau strategol, gweithredol a chorfforaethol.



Cytunodd y Tîm Arwain Corfforaethol y byddai'r Cyngor yn bwrw ymlaen ag Asesiad Aeddfedrwydd Data er mwyn mynd ar drywydd datblygu dull corfforaethol, un cyngor i'n gwella fel Cyngor a ysgogir gan ddata, gyda'r bwriad o ddatblygu strategaeth a chynllun gweithredu priodol.

Mae'r asesiad ar y gweill ar hyn o bryd gyda'r Tîm Arwain Corfforaethol Ehangach yn cynnal y broses yn gyntaf, ac yna swyddogion perfformiad o bob rhan o'r Cyngor, ac yna bydd cyfle i bob swyddog gymryd rhan.

Dylai'r canfyddiadau gynorthwyo'r Cyngor i ddeall aeddfedrwydd ei ddata, lle mae ganddo gryfderau a hefyd gwendidau er mwyn goleuo cynllun cyflawni ar gyfer y dyfodol.

**Aelodau Etholedig a'r Cyfansoddiad**

Mae'r Cyngor wedi nodi safonau ymddygiad gofynnol ac wedi darparu canllawiau i helpu i gynnal a gwella safonau. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn ddogfen allweddol sy'n nodi sut y mae'r Cyngor yn gweithredu, sut y gwneir penderfyniadau, a'r gweithdrefnau a ddilynir i sicrhau bod y rhain yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol. Mae hefyd yn cynnwys cod ymddygiad ar gyfer swyddogion ac aelodau.

Mae gan y Cyngor drefniadau cynhwysfawr ar gyfer Aelodau Etholedig. Fel rhan o hyn, mae ganddo Raglen Datblygu Aelodau helaeth, sy'n cyd-fynd â blaenraglenni gwaith Pwyllgorau a blaenoriaethau'r Cyngor yn ogystal ag o'r broses Adolygu Datblygiad Personol (PDR) sydd yn ei lle ar gyfer aelodau. Mae amrywiaeth o ddeunyddiau hyfforddi, canllawiau a dogfennau ar gael i aelodau ac mae'r rhain wedi'u cynnwys mewn llyfrgell aelodau ar-lein. Mae gwaith pellach wedi cael ei wneud dros y flwyddyn i adolygu a gwella nifer o bolisïau a phrosesau datblygu aelodau gan gynnwys:

- Protocol Deisebau Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent; a'r
- Polisi Cyfarfodydd Aml-Leoliad.

Yn 2023, cytunodd y Cyngor i newid strwythur ei Bwyllgorau Craffu, ac mae gan y Cyngor bedwar Pwyllgor Craffu bellach:

- Pwyllgor Craffu Corfforaethol a Pherfformiad;
- Pwyllgor Craffu Partneriaethau;
- Pwyllgor Craffu Pobl; a'r
- Pwyllgor Craffu Lleoedd.

Mae pob Pwyllgor yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol gan gynnwys cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Cofnodir y broses o wneud penderfyniadau, a gall Pwyllgorau Craffu'r Awdurdod 'alw i mewn' benderfyniad a wnaed gan y Cabinet ond nad yw wedi cael ei roi ar waith eto. Ni chafodd unrhyw benderfyniadau eu galw i mewn yn ystod 2023/24.

Cynhelir gwerthusiadau ar ôl pob cyfarfod craffu i adolygu'r prosesau sydd ar waith a ble y gellir ceisio gwelliant pellach. Mae dysgu hefyd yn cael ei wneud yn flynyddol ac mae ymchwil o ardaloedd eraill yn cael ei hystyried. Mae'r dysgu hwn wedi arwain at adolygu a newid y prosesau democrataidd presennol yn helaeth gan gynnwys lleihau cofnodion, recordio cyfarfodydd yn fyw, lleihau agendâu'n sylweddol fel nad ydynt ond yn cynnwys eitemau allweddol a lleihau maint pwyllgorau.

Mae'r Swyddog Monitro a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cwrdd yn rheolaidd gyda'r Prif Weithredwr Interim i drafod unrhyw faterion gwleidyddol, llywodraethu neu ymddygiad, gyda golwg ar fynd i'r afael â materion yn gynnar i'w datrys yn gyflym. Cafodd y Cyfansoddiad ei ddiweddaru a'i gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar 21 Medi 2023.



Ar gyfer 2023/24, roedd un gŵyn yn erbyn Aelod y cynhaliodd Swyddfa'r Ombwdsmon ymchwiliad ffurfiol iddi. Dros y flwyddyn ni chafwyd unrhyw gwynion chwythu'r chwiban.

**Hybiau Cymunedol**

Mae model Hybiau Cymunedol y Cyngor yn parhau i gael ei gryfhau gyda chymorth perthnasol ac wedi'i dargedu yn seiliedig ar y pedwar maes yng nghynllun gweithredu Costau Byw y Cyngor sy'n rhoi ffocws ar Dai, Bwyd, Tanwydd a Chymorth Budd-daliadau/ Grantiau. Mae swyddogion ar draws yr holl hybiau cymunedol yn parhau i roi cyngor ar ystod o faterion gan gynnwys cyllidebu yn ogystal â chyfeirio cwsmeriaid at sefydliadau trydydd parti i gael cyngor arbenigol. Mae cymorth arall sydd ar gael trwy hybiau cymunedol y Cyngor yn cynnwys cyngor ac arweiniad ar y dreth gyngor a cheisiadau am fathodynnau glas yn ogystal â chymorth i wella sgiliau digidol preswylwyr.

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o nifer y trigolion a gefnogwyd trwy'r Hybiau Cymunedol yn ystod y cyfnod:

| | Abertyleri | Y Blaenau | Brynmawr | Cwm | Glyn Ebwy | Llanhiledd | Tredegar | Ar y Cyfan |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mai | 120 | 8 | 105 | 16 | 180 | 6 | 158 | **593** |
| Mehefin | 105 | 16 | 90 | 20 | 131 | 0 | 112 | **474** |
| Gorffennaf | 99 | 10 | 78 | 24 | 113 | 6 | 111 | **441** |
| Awst | 90 | 15 | 66 | 15 | 145 | 6 | 124 | **461** |
| Medi | 106 | 16 | 83 | 22 | 104 | 7 | 94 | **432** |
| Hydref | 120 | 14 | 93 | 16 | 158 | 3 | 112 | **516** |
| Tachwedd | 130 | 15 | 71 | 21 | 145 | 0 | 98 | **480** |
| Rhagfyr | 122 | 3 | 49 | 21 | 112 | 0 | 151 | **458 (496 gan gynnwys 27 galwad ac 11 e-bost)** |
| Ionawr | 234 | 2 | 104 | 11 | 215 | 0 | 253 | **876 (Roedd 57 yn negeseuon e-bost a galwadau)** |
| Chwefror | 102 | 3 | 111 | 32 | 142 | 0 | 146 | **570 ( Roedd 34 yn negeseuon e-bost a galwadau** |
| Mawrth | 96 | 1 | 93 | 18 | 154 | 0 | 157 | **552 (Roedd 33 yn negeseuon e-bost a galwadau)** |
| Ebrill | 160 | 13 | 130 | 13 | 225 | 0 | 171 | **751 (Roedd 39 yn negeseuon e-bost a galwadau** |
| Cyfanswm | **1484** | **116** | **1073** | **229** | **1824** | **28** | **1687** | **6642** |



**Heriau Allweddol a Adnabuwyd ar gyfer Gweithredu yn 2024/25**

- Blaenoriaethu'r heriau ariannol sy'n cael eu hwynebu gan gynnwys pwysau cyllidebol a gofynion darparu gwasanaethau
- Adnabod cynigion ar gyfer arbedion cyllidebol sy'n mynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb ac nad ydynt yn dibynnu ar ddefnyddio cronfeydd wrth gefn
- Gweithio i gwblhau'r broses o gymeradwyo cyfrifon 2022/23 a 2023/24 ac adrodd ar y rhain trwy'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Mynd i'r afael â recriwtio'r gweithlu ar draws y Cyngor a lleihau'r ddibyniaeth ar weithwyr asiantaeth
- Mynd ati ymhellach i leihau'r lefelau uchel o absenoldeb oherwydd salwch
- Gweithio gyda Rhwydwaith Allgau Digidol Gwent i fynd i'r afael â'r bwlch yng ngalluoedd digidol trigolion cyn symud gwasanaethau ar-lein
- Gwella cyfraddau ymateb i'r holl geisiadau a geir dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth
- Gwella cyfraddau ymateb i'r holl gwynion a geir
- Rheoli'r cynnydd mewn Ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth a geir
- Lleihau nifer yr achosion o danseilio diogelwch data ar draws y Cyngor
- Ymateb i argymhellion adroddiad Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaethau Archwilio Cymru
- Rhoi'r camau terfynol ar waith o Ymchwiliad Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg



| Dangosydd Perfformiad | Data | | | | | Targed Blynyddol a/neu'r ffigwr yr ydym yn anelu ato |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | |
| Nifer y cwynion a gafwyd gan Gyngor Blaenau Gwent | - | - | 105 | 133 | 93 | Ffigwr wedi gwella<br>Mae Ffigwr Is yn Well |
| Nifer y Cwynion a Gaewyd yng Ngham 1 yn ystod y cyfnod<br>Canran y Cwynion a Gaewyd yng Ngham 1 yn ystod y cyfnod | - | - | 100<br>99% | 123<br>94.6% | 86<br>95.6% | Ffigwr wedi gwella<br>Mae Ffigwr % Uwch yn Well |
| Nifer y Cwynion a Gaewyd yng Ngham 2 yn ystod y cyfnod<br>Canran y Cwynion a Gaewyd yng Ngham 2 yn ystod y cyfnod | - | - | 1<br>1% | 7<br>5.4% | 44.4% | Dirywiad bach yn y ffigwr<br>Mae Ffigwr % Uwch yn Well |
| Cyfanswm y cwynion a gaewyd yn ystod y cyfnod | - | - | 101 | 130 | 90 | Ffigwr wedi dirywio<br>Mae Ffigwr Uwch yn Well |
| Nifer y sylwadau o Ganmoliaeth a gafwyd gan Gyngor Blaenau Gwent | - | - | 29 | 28 | 46 | Ffigwr wedi gwella<br>Mae Ffigwr Uwch yn Well |
| Presenoldeb a salwch yn y Cyngor<br>Nifer y diwrnodau gwaith / sifftiau am bob cyflogai cyfwerth ag amser llawn (CagALl) yn yr awdurdod lleol a gollwyd yn sgîl absenoldeb oherwydd salwch | 13.9 | 11.67 | 16.74 | 15.5 | 11.8 | Ffigwr wedi gwella ond aethpwyd y tu hwnt i'r targed o 10 niwrnod am bob cyflogai CagALl<br>Mae Ffigwr Is yn Well |
| Cyfanswm cyfrif pen gweithwyr<br>Cyngor<br>Ysgolion | 2777<br>1565<br>1212 | 2,854<br>1,648<br>1,206 | 2896<br>1673<br>1223 | 2,953<br>1650<br>1303 | 3030<br>1731<br>1299 | Amh. |
| Trosiant Llafur:<br>• Cyngor<br>• Ysgolion | 7.96%<br>9.67% | 5.2%<br>3.7% | 8.68%<br>7.13% | 15.05%<br>8.55% | 6.35%<br>7.78% | Amh. |
| % o'r gwariant allanol a roddir gyda chyflenwyr lleol (h.y. Cofrestrwyd ym Mlaenau Gwent) a busnesau bach a chanolig | - | - | - | 21.5 | 15% | Ffigwr wedi dirywio ac ni chyrhaeddwyd y targed o 25%<br>Mae Ffigwr Uwch yn Well |
| % o'r gwariant allanol gyda MBChau | - | - | - | 10.7% | 28% (DU) | Ffigwr wedi gwella ar lefel y DU ac wedi mynd y tu hwnt i 15%<br>Mae Ffigwr Uwch yn Well |



| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant alldro refeniw<br>£ y fil<br>£ y pen | <br>177,300<br>2,543 | <br>178,616<br>2,557 | <br>193,776<br>2,767 | <br>168.999*<br>2,413* | <br>179,940<br>2,690 | Amh. |

** Diwygiwyd y ffigwr oherwydd nad yw'r Datganiad Cyfrifon wedi cael ei gymeradwyo. Nid yw cyfrifon 2023/24 wedi cael eu cymeradwyo ychwaith, Defnyddiwyd Ffigyrau'r Cyfrif Rheoli Refeniw.*



# Hunanasesiad – Cynnydd a Wnaed Yn Erbyn Camau Gweithredu 2022/23

Trwy ein proses hunanasesu flaenorol, a gynhaliwyd ar gyfer y flwyddyn 2022/23, fe wnaethom nodi pa mor dda yr oeddem yn perfformio a beth allem ei wneud yn well. Er mwyn cyflawni hyn, fe ddatblygom ni gynllun gweithredu sy'n amlygu'r meysydd lle'r oedd angen gwella. Mae'r tabl isod wedi cael ei ddiweddaru i ddangos y cynnydd a wnaed i gyflawni'r camau gweithredu hyn trwy gydol y flwyddyn, gyda chrynodeb o'r gwaith a wnaed, unrhyw heriau sydd wedi codi a'n ffocws ar gyfer y dyfodol. O werthuso ein cynnydd, rydym wedi rhoi statws Coch, Amber, Gwyrdd, Glas i ni ein hunain sydd wedi'i fwriadu i roi cipolwg clir o'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud:

**GLAS – Mae'r cam gweithredu wedi cael ei gwblhau**

**COCH – Mae'r cam gweithredu y tu ôl i'r targed yn sylweddol**

**AMBER – Mae'r cam gweithredu y tu ôl i'r targed ond gellir rheoli hynny**

**GWYRDD – Mae'r cam gweithredu ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed**

**Nodwyd 39 o gamau gweithredu fel rhan o Hunanasesiad 2022/23. O'r rhain: mae 7 yn las (wedi'u cwblhau); 26 yn wyrdd; 5 yn ambr ac 1 yn goch. O'r 32 o gam gweithredu sy'n weddill ac sydd heb eu cwblhau, bydd 29 yn parhau i gael eu monitro yn 2024/25 a bydd 4 yn symud i fusnes fel arfer.**

| Gwelliant a Adnabuwyd o Hunanasesiad 2022/23 | Cynnydd: Beth ydym ni wedi'i wneud? | Sgôr | Statws |
|---|---|---|---|
| Pryderon capasiti ar draws meysydd gwasanaeth | Mae Strategaeth Gweithlu'r Cyngor 2021 – 2026 yn parhau i gael ei gweithredu ar draws y sefydliad. Mae nifer o gamau gweithredu allweddol wedi cael eu cyflawni fel rhan o gynllun cyflawni Gweithlu'r Cyngor sy'n tanategu'r strategaeth. Gellir gweld y cynnydd diweddaraf o ran gweithredu strategaeth y gweithlu yma | Gwyrdd | **Parhau yn 2024/25** |
| Ansicrwydd effaith economaidd: Covid-19; ymadael â'r Undeb Ewropeaidd; a setliadau ariannol LlC yn y dyfodol | Mae'r Cyngor wedi gwreiddio'r newidiadau i reoliadau llywodraeth leol a gwaith i fonitro materion cydnerthedd yr effeithiwyd arnynt gan Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) i weithgaredd busnes fel arfer pan ddaeth cyfnod pontio o'r UE i ben. | Glas | **Symud i fusnes fel arfer** |
| Cyrraedd y targed ailgylchu o 70% erbyn 2024/25 | Mae'r Cyngor yn parhau i fynd y tu hwnt i darged ailgylchu statudol Llywodraeth Cymru o 64%, gyda chyfradd ailgylchu o 66.18% ar gyfer 2023/2024. Mae targed ailgylchu newydd o 70% wedi cael ei bennu ar gyfer 2024/2025, mae gwaith yn mynd rhagddo i helpu i gyrraedd y targed hwn, gan gynnwys ymgyrch gwastraff bwyd a dadansoddi data i benderfynu pa welliannau y mae angen eu gwneud i gyrraedd y targed o 70%. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda'r tîm gwastraff sy'n canolbwyntio'n benodol ar gyrraedd y targed. Os nad yw'r cyngor yn cynnal ac yn gwella ei dargedau ailgylchu, bydd y Cyngor yn cael cosb ariannol. Os yw'r gyfradd ailgylchu bresennol o 66.18% yn aros yr un fath yn 2024/25 gallai Blaenau Gwent gael dirwyon o £243,712. | Ambr | **Parhau i 2024/25** |



| Gwelliant a Adnabuwyd o Hunanasesiad 2022/23 | Cynnydd: Beth ydym ni wedi'i wneud? | Sgôr | Statws |
|---|---|---|---|
| Mae angen lefelau uwch o gaffael iaith a darllen yn ein plant ifanc iawn yn y blynyddoedd cynnar | Bydd asesiadau GL yn cael eu cynnal mewn ysgolion amrywiol i fesur lefelau darllen. Mae'r Cyngor wedi trefnu gydag ysgolion i dalu 50% o gostau asesu'r ysgolion sy'n cymryd rhan ac yn rhannu eu data darllen gyda'r Cyngor. Bydd y data a gesglir yn helpu i adnabod bylchau a rhwystrau i ddarllen a dysgu. Cynhaliodd y GCA adolygiad o ddarllen yn haf 2023 ond oherwydd Gweithredu'n Brin o Streic, ni chyflwynodd llawer o ysgolion wybodaeth am ddarllen. Felly, mae angen casglu mwy o ddata gan ysgolion a bydd hyn yn parhau fel blaenoriaeth yn 2024/25. | Ambr | **Parhau yn 2024/25** |
| Gwella presenoldeb mewn ysgolion yn y sectorau cynradd ac uwchradd | Cynnydd mewn presenoldeb cynradd ac uwchradd. Rhoddwyd Llwybr Presenoldeb ar waith yn Nhymor yr Hydref 2023. Mwy o gymorth i ysgolion trwy swyddogion a ariennir â grant ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd. Ailsefydlwyd fforymau presenoldeb cynradd ac uwchradd. Mae cyfarfodydd cymorth wedi'i dargedu'n cael eu cynnal gydag ysgolion yn Ch3 a Ch4 ar bresenoldeb. Cyrchoedd presenoldeb mewn ysgolion uwchradd. | Gwyrdd | **Parhau yn 2024/25** |
| Gwella cynnydd rhwng Cyfnod Allweddol 3 a 4, yn enwedig mewn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth | Anodd monitro cynnydd oherwydd newidiadau yn null adrodd LlC - sgyrsiau yn mynd rhagddynt gyda'r Arweinydd Tîm Perfformiad Addysg ac ysgolion. Hefyd, gwaith gyda'r tîm perfformiad i ystyried cyflwyno Dangosfwrdd Addysg fel modd i gasglu a holi data. | Ambr | **Parhau yn 2024/25** |
| Parhau â'r gwaith gydag Ysgolion sy'n Peri Pryder | Mae prosesau i ddwyn y GCA i gyfrif o ran gwaith Cynlluniau Gwella Ysgol ac adroddiadau cyn arolygiadau ar waith ac yn gweithio'n dda fel a ddangosir gan y ffaith na symudodd unrhyw ysgolion newydd i mewn i gategori yn 23/24. System Tîm o Amgylch yr Ysgol i gefnogi ysgolion sy'n peri pryder wedi cael ei gwreiddio. System well ar gyfer rhannu gwybodaeth trwy Grŵp Ehangach. Mae ysgolion bellach yn ymgysylltu o'r newydd â'r ALl trwy bethau fel cyfarfodydd ar y cyd rhwng penaethiaid sydd â phresenoldeb rhagorol ar draws bron pob ysgol, ac mewn gweithgorau.<br>Mewnbwn sylweddol gan dimau o bob rhan o'r Cyngor gan gynnwys Addysg, Cyllid a Datblygu Sefydliadol i gefnogi Canolfan yr Afon sef yr unig ysgol yn BG mewn categori - fodd bynnag mae pryderon sylweddol yn parhau.<br>Mae gwelliant sylweddol yn ansawdd FADES gan y tîm Cynhwysiant wedi galluogi gwerthusiadau mwy cywir o wahanol feysydd gwasanaeth a chynllunio ar gyfer gwella. | Gwyrdd | **Parhau yn 2024/25** |
| Mae Llywodraeth Cymru'n ei gwneud yn ofynnol bod y Cytundeb Cyflawni'n cael ei ddiwygio a'i gymeradwyo ganddynt. | Adroddwyd ar amserlen Cytundeb Cyflawni'r CDLl Newydd wrth y Pwyllgor Craffu ar 18 Mehefin 2024 ac fe'i cymeradwywyd yn ddiweddarach gan y Cyngor ar 18 Gorffennaf 2024. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gymeradwyo'r amserlen ddiwygiedig yn ffurfiol ar 24 Gorffennaf 2024. | Glas | **Wedi'i gwblhau** |




| Gwelliant a Adnabuwyd o Hunanasesiad 2022/23 | Cynnydd: Beth ydym ni wedi'i wneud? | Sgôr | Statws |
|---|---|---|---|
| Adnabod capasiti ar draws y sefydliad i gefnogi'r dull dyluniad defnyddwyr. | Cynhaliwyd sesiwn gan Service Works gyda'r TAC ac yna cynigiwyd yr hyfforddiant i hyrwyddwyr digidol ac aelodau o'r Bwrdd Digidol a oedd yn bwrw golwg ar fapio'r daith o'r dechrau i'r diwedd. Yn awr bydd y capasiti hwn yn cael ei arwain gan y TAC Ehangach. | Gwyrdd | **Parhau yn 2024/25** |
| Gwreiddio gweithio ystwyth. | Mae ein polisi gweithio ystwyth a hyblyg wedi cael ei adolygu ac wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r sefyllfa gyfredol a rheolaeth yn y dyfodol. Ar ôl ei adolygu, cafodd y polisi gweithio ystwyth ei gytuno gan y Cyngor ym mis Ebrill 2024. Gellir gweld y newidiadau a wnaed i'r polisi yma : | Glas | **Wedi'i gwblhau** |
| Datblygu cynllun cyflawni data i helpu i weithredu gweledigaeth y Cyngor ar gyfer defnyddio data'n effeithiol a mynd i'r afael ag anghysonderau ar draws meysydd o ran perfformiad ac adrodd | Bydd asesiad aeddfedrwydd data yn cael ei gynnal yn 2024 a fydd yn cael ei ddefnyddio i oleuo gweledigaeth a strategaeth data'r Cyngor. | Ambr | **Parhau yn 2024/25** |
| Diweddaru a gwreiddio'r Strategaeth Ymgysylltu. | Gwelliannau wedi'u gwneud yn dilyn y Strategaeth a Chynllun Gweithredu Ymgysylltu a Chyfranogiad drafft, cyflwynwyd a chymeradwywyd y fersiwn derfynol gan y Pwyllgor Craffu Trosolwg a Pherfformiad Corfforaethol ym mis Mehefin ac fe'u cytunwyd yn y Cyngor ym mis Gorffennaf.<br><br>Dyluniwyd dull Siarad Gyda'n Gilydd gan ddilyn y canllawiau a osodwyd yn Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad CBSBG ar gyfer 2024-28. Dull ymbarél o ymdrin â'r holl ymgysylltu â'r cyhoedd ydyw sydd â nod cyffredin i wella llesiant cymunedol. Trwy ddull cydlynol gan bob adran, mae'n amcanu at sicrhau bod yr holl ymgysylltu a wneir gan yr awdurdod lleol yn cael ei oleuo gan arfer gorau, gan hefyd wneud ymgynghoriadau cyhoeddus yn syml ac 'o dan yr un to' i'r cwsmer. | Gwyrdd | **Parhau yn 2024/25** |
| Datblygu gweledigaeth a strategaeth ar gyfer darpariaeth ADY yn y dyfodol. | Mae ein strategaethau, polisïau a chanllawiau ADY wedi cael eu hadolygu yn unol â'r broses barhaus o roi'r ddeddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg ar waith, canllawiau newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg Ddewisol yn y Cartref, ac i roi cymorth pellach ym meysydd Addysg Heblaw yn yr Ysgol/Gwahardd a Phresenoldeb. Cyflwynwyd y dogfennau perthnasol i'r Cabinet ym mis Hydref 23 a gellir eu gweld yma | Glas | **Wedi'i gwblhau** |



| Gwelliant a Adnabuwyd o Hunanasesiad 2022/23 | Cynnydd: Beth ydym ni wedi'i wneud? | Sgôr | Statws |
|---|---|---|---|
| Ymateb i argymhellion arolygiad diweddar Estyn. | Mae gwaith wedi cael ei wneud i fynd i'r afael â'r tri argymhelliad gan Estyn. Mae hyn wedi cynnwys adolygu cynlluniau busnes i ymgorffori'r argymhellion ar lefel strategol a gweithredol. Mewn ymateb i'r argymhellion, mae'r cylch hunanwerthuso wedi cael ei ddiwygio ac mae adolygiad o'r broses rheoli perfformiad wedi digwydd. Cyflwynwyd diweddariad ar y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion hyn i'r Pwyllgor Craffu Pobl ac mae ar gael yma | Gwyrdd | **Parhau yn 2024/25** |
| Parhau i fonitro a gwella lefelau cyrhaeddiad. | Roedd canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 (CA4) Haf 2023 yn gadarnhaol ac yn unol â thargedau'r Cynlluniau Datblygu Ysgol a bennwyd gan y 4 lleoliad uwchradd. Roedd gwelliannau mewn 23 allan o 24 mesur allweddol ar draws y 4 lleoliad uwchradd. | Gwyrdd | **Parhau yn 2024/25** |
| Cynyddu'r capasiti ym Mhen-y-Cwm a Chanolfan yr Afon a lleihau lleoliadau y tu allan i'r sir, gyda hynny yn ei dro'n lleihau'r golled ariannol flynyddol | Mae dadansoddiad o'r galw ac arfarniad o'r opsiynau ar gyfer Pen y Cwm wedi cael ei gwblhau a fydd yn helpu i oleuo achos busnes i Lywodraeth Cymru. Mae trafodaethau rhanbarthol yn cael eu cynnal ar hyn o bryd i oleuo'r broses ymhellach. | Gwyrdd | **Parhau yn 2024/25** |
| Monitro materion cyllido cludiant rhwng y cartref a'r ysgol | Mae ymgynghoriad wedi dechrau gyda'r Gyfarwyddiaeth Adfywio i ystyried gweithio'n agosach ar gludiant rhwng y cartref a'r ysgol ar draws y ddwy gyfarwyddiaeth. Mae cyfarfodydd misol yn parhau gyda'r tîm Trafnidiaeth i drafod unrhyw faterion.<br>Adroddwyd ar amrywiant ychydig yn ffafriol yn y gyllideb Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cynigiwyd y newid i'r mesur Teithio gan Ddysgwyr fel awgrym ym mhroses arbedion y gyllideb ond ni dderbyniwyd hyn. Bydd yr ALl yn ystyried dull gwahanol o ddarparu'r gwasanaeth. Rydym wrthi'n cynnal proses arfarnu opsiynau. | Ambr | **Parhau yn 2024/25** |
| Sicrhau cyllid allanol ar gyfer rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop e.e. Inspire; | Mae rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop bellach wedi cau ac wedi pontio i raglenni ieuenctid y Gronfa Ffyniant Gyffredin o Ebrill 23. Defnyddiwyd y Gronfa Ffyniant Gyffredin i ariannu tîm gwaith ieuenctid 11-16 oed mewn ysgolion neu wedi'i alinio ag ysgolion, darpariaeth cwricwlwm amgen a thîm NEET gwaith ieuenctid 16-25. Mae'r ddarpariaeth hon yn sicrhau bod y Gwasanaeth Ieuenctid yn diwallu anghenion dynodedig pobl ifanc 11-25 oed ac yn tanategu'r dull lleol o weithredu Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid LlC (strategaeth NEET PI). Bydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn dod i ben ym mis Mawrth 2025. Mae trafodaethau'n parhau ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i ddylanwadu ar opsiynau cyllido Llywodraeth y DU yn y dyfodol ac i gysoni â LlC a Llywodraeth y DU yn barod ar gyfer unrhyw rowndiau cyllido yn y dyfodol. Mae'r Is-adran Pobl Ifanc a Phartneriaethau'n gweithio'n agos gyda'r Gyfarwyddiaeth Adfywio yn y maes gwaith hwn. | Gwyrdd | **Parhau yn 2024/25** |



| Gwelliant a Adnabuwyd o Hunanasesiad 2022/23 | Cynnydd: Beth ydym ni wedi'i wneud? | Sgôr | Statws |
|---|---|---|---|
| Monitro lleoedd mewn ysgolion a digonolrwydd pob ysgol yn fanwl, defnyddio data'n fwy effeithiol i oleuo gwaith cynllunio hirdymor. | Mae nifer o'n hysgolion Uwchradd yn profi materion digonolrwydd, ar gyfer sesiwn academaidd Medi 2024, cynhaliwyd adolygiad o ddalgylchoedd ac mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn ystod tymor yr hydref i gael mwy o ddealltwriaeth ac i helpu i leddfu rhai o'r materion hyn. | Gwyrdd | **Parhau yn 2024/25** |
| Cynorthwyo'r gymuned i ennill y sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid a meithrin gallu ar gyfer dysgu gydol oes. | Defnyddio cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin i fod â dull darparu cydgysylltiedig ar draws yr ALl, gan uwchsgilio a chynnig cyfleoedd lleoliad gwaith i wella sgiliau ar draws ystod o sectorau galwedigaethol.<br>Wedi ymgysylltu â sawl partner i hwyluso'r cyfleoedd hyn, partneriaid yn y sector cymunedol a gwirfoddol, timau addysg a CBSBG<br>Wedi ymgysylltu â busnesau i bennu anghenion sgiliau yn y dyfodol ac addasu cyrsiau a hyfforddiant i uwchsgilio unigolion cyflogedig yn ogystal ag unigolion economaidd anweithgar yn ein cymuned. | Gwyrdd | **Symud i fusnes fel arfer** |
| Bwrw ymlaen â datblygu CiNER | Mae materion cynllunio wedi'u cwblhau i raddau helaeth ac eithrio cydymffurfio ag amodau/a106. Yn disgwyl i drafodaethau gael eu cwblhau rhwng Ciner a LlC ynghylch cytundeb y tir a Llywodraeth y DU am gymorth i fwrw ymlaen â'r prosiect. | Gwyrdd | **Parhau yn 2024/25** |
| Bwrw ymlaen â datblygu Regain 2 i gefnogi twf a buddsoddiad yn yr ardal | Adeilad Regain 2 (Goldworks bellach) wedi'i gwblhau ac yn weithredol o fis Tachwedd 2024. | Glas | **Wedi'i gwblhau** |
| Gweithio i wella ein cystadleurwydd ymhellach ledled y DU. | Wedi targedu allbynnau UKCI a symud oddi ar waelod UKCI am y tro cyntaf ers ei sefydlu, mae'r mesur perfformiad hwn bellach yn fusnes fel arfer. | Gwyrdd | **Symud i fusnes fel arfer** |
| Bydd ein grŵp Hinsawdd yn gweithio i flaenoriaethu camau gweithredu allweddol o'r cynllun Datgarboneiddio er mwyn gweithio tuag at gyrraedd Targedau Sero Net Llywodraeth Cymru i gyrraedd gostyngiad o 63% erbyn 2030, gostyngiad o 89% erbyn 2050 a gostyngiad o 100% erbyn 2050. | Mae'r Grŵp Hinsawdd sefydliadol yn parhau i gwrdd ar gylchdro chwe wythnos i ystyried a chyflawni camau gweithredu priodol sy'n gysylltiedig â Chynllun Datgarboneiddio presennol y Cyngor ar gyfer 2030, gan ystyried materion allweddol fel swyddfeydd ac asedau, fflyd a thrafnidiaeth, a seilwaith cerbydau allyriadau isel iawn. Mae'r grŵp wedi bod yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith sy'n ofynnol ar gyfer 2050, gan gymeradwyo Fframwaith Sero Net 2050 sy'n seiliedig ar ardal, a llunio'r broses sylfaenol ar gyfer paratoi Cynllun Ynni Ardal Leol cyntaf Blaenau Gwent ar gyfer y cyfnod rhwng 2024 a 2029, sy'n nodi llwybr cychwynnol i helpu i symud ymlaen ar yr agenda heriol ar gyfer yr ardal leol. | Gwyrdd | **Parhau yn 2024/25** |



| Gwelliant a Adnabuwyd o Hunanasesiad 2022/23 | Cynnydd: Beth ydym ni wedi'i wneud? | Sgôr | Statws |
|---|---|---|---|
| Parhau i weithio tuag at yr argymhellion a wnaed gan ein cynulliad hinsawdd. | Mae'r sefydliad, gyda'i bartneriaid, yn parhau i wneud llais ein dinasyddion yn ganolog i lunio a gweithredu polisi.  Mae'r Fframwaith Sero Net 2050 newydd yn seiliedig ar y 4 maes allweddol a nodwyd gan gynulliad hinsawdd Blaenau Gwent, ac mae nifer o brosiectau, rhaglenni a mentrau'n cael eu cyflwyno gan y Cyngor i gefnogi'r argymhellion a wnaed gan y cynulliad gan gynnwys seilwaith cymorth cerbydau allyriadau isel iawn, mentrau teithio llesol, a pholisïau a phrosiectau ynni. Ar ben hynny, mae'r sefydliad yn arwain y bartneriaeth leol Grŵp Lliniaru Effeithiau Newid Hinsawdd, ac yn cyfranogi'n weithredol mewn partneriaethau rhanbarthol a chenedlaethol ar faterion allweddol sy'n gysylltiedig ag argymhellion y cynulliad. | Gwyrdd | **Parhau yn 2024/25** |
| Parhau i gefnogi'r ymgyrch cenedlaethol i fynd i'r afael â Thipio Anghyfreithlon (nid ar fy stryd i); | Bu mwy o ddefnydd o wyliadwriaeth gan ddefnyddio teledu cylch cyfyng ledled y Fwrdeistref Sirol mewn lleoliadau lle ceir tipio anghyfreithlon toreithiog gan arwain at ffilmio 112 achos o dipio anghyfreithlon yn ystod 2023/24.  Blaenau Gwent roddodd y trydydd nifer uchaf o hysbysiadau cosb benodedig yng Nghymru yn ystod 2022/23 gyda 79 o hysbysiadau cosb benodedig yn cael eu rhoi ac rydym wedi mynd y tu hwnt i'r nifer hwn eleni,  gyda 110 o hysbysiadau cosb benodedig wedi'u rhoi rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024. | Gwyrdd | **Parhau yn 2024/25** |
| Parhau i ddarparu'r Prosbectws Ynni i rai sy'n ymddiddori mewn datblygu ynni ledled y fwrdeistref i hwyluso cyflenwad o ynni adnewyddadwy i ddiwallu anghenion ynni'r ardal yn y dyfodol gan gynnwys ystyried prosiectau cynhyrchu ynni gwynt a dŵr; | Mae'r Cyngor yn parhau i ddarparu'r Prosbectws Ynni gan gynnwys:<br>• Prosiect Ôl-osod – mesurau cadwraeth ynni i 23 adeilad ar draws y portffolio corfforaethol, Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin ac ysgolion yn ogystal ag uwchraddio goleuadau stryd. Roedd y mesurau'n cynnwys solar ffotofoltaig. Cynhyrchu gwynt – gwnaed cynnydd gydag un safle gan gyrraedd y cam datblygu achos busnes llawn.<br>• Cynhyrchu ynni solar – Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwaith dichonoldeb cychwynnol ar y potensial ar gyfer ffermydd solar.<br>• Cynhyrchu ynni dŵr – astudiaeth ddichonoldeb wedi'i chwblhau a chais cynllunio wedi'i ddrafftio.<br>• Ehangu Rhwydwaith Gwresogi Ardal Y Gwaith<br>• Mae pwyntiau gwefru ychwanegol ar gyfer cerbydau trydan hefyd wedi cael eu gosod yn Nepo'r Cyngor yn ogystal â phwynt gwefru cyflym wedi'i osod yn y ganolfan Prydau Cymunedol i'w gwneud yn bosibl gwefru fflyd cerbydau allyriadau isel iawn newydd y gwasanaeth Prydau Cymunedol. Er bod darparu'r Prosbectws Ynni'n mynd rhagddo'n dda, mae nifer o brosiectau i weithio drwyddynt o hyd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddeall defnydd trigolion o gludiant, eu hymddygiad, heriau a materion. Y camau nesaf fydd archwilio her newid ymddygiad a'r hyn y mae pontio i sero net yn ei olygu i bobl ym Mlaenau Gwent. | Gwyrdd | **Parhau yn 2024/25** |



| Gwelliant a Adnabuwyd o Hunanasesiad 2022/23 | Cynnydd: Beth ydym ni wedi'i wneud? | Sgôr | Statws |
|---|---|---|---|
| Ailsefydlu a chryfhau'r rhwydweithiau ymgysylltu presennol yn ogystal â sefydlu cyfleoedd newydd i bobl chwarae rhan. | Bydd y Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad yn cael ei chymeradwyo Ganol 2024 a bydd yn ymgorffori nifer o ffyrdd i bobl chwarae rhan. | Gwyrdd | **Parhau yn 2024/25** |
| Sicrhau bod camau gweithredu Mynd ati'n Ddiogel i Leihau Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal 2020 – 2025 yn cael eu monitro, eu gweithredu a'u hadolygu'n rheolaidd. | Mae mynd ati'n ddiogel i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yn dal i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Er gwaethaf cynnydd cyson yn yr atgyfeiriadau, a adlewyrchir yn niferoedd ein hymyriadau statudol Gofal a Chymorth a chofrestriadau amddiffyn plant, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi aros yn gymharol gyson. Bydd y Cyngor yn parhau i sicrhau bod y camau gweithredu o fewn y Strategaeth Mynd ati'n Ddiogel i Leihau Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn parhau i gael eu monitro, eu gweithredu a'u hadolygu'n rheolaidd. | Gwyrdd | **Parhau yn 2024/25** |
| Parhau i weithredu'r cynllun gweithredu rhanbarthol i ddiwallu'r anghenion a adnabuwyd yn yr asesiad o anghenion y boblogaeth. | Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn amcanu at ddarparu gofal integredig ym Mlaenau Gwent a'r rhanbarth, ond mae angen rhagor o ymdrechion i sicrhau bod y dadansoddiad o anghenion y boblogaeth a'r Cynllun Gweithredu Ardal o fudd gwirioneddol i ddinasyddion lleol. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig wedi blaenoriaethu tasgau o'r Cynllun Ardal, gan ffurfio grwpiau tasg i hybu'r nodau hyn. | Gwyrdd | **Parhau yn 2024/25** |
| Bwrw ymlaen ag unrhyw wersi o'r adroddiad canlyniadau y gofynnwyd amdano gan Arolygiaeth Gofal Cymru ar broses Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. | Yn dilyn yr ymarfer hunanwerthuso y gofynnwyd amdano gan AGC ar y broses Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, datblygwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac mae'n cyfarfod yn rheolaidd i fynd i'r afael â'r camau gweithredu a adnabuwyd yn y tymor byr a chanolig. Mae'r rhan fwyaf o gamau gweithredu wedi cael eu cwblhau erbyn hyn, ac mae disgwyl i'r cynllun gael ei gwblhau yn ystod 2024/2025 ac nid adnabuwyd unrhyw broblemau nac oedi. | Gwyrdd | **Parhau yn 2024/25** |
| Sicrhau bod cymorth ataliol ar gael i oedolion a'u gofalwyr di-dâl, sy'n hybu ac yn cynnal annibyniaeth bersonol; | Yn ystod 23/24 mae'r Cyngor wedi rhoi amrywiaeth o gymorth i ofalwyr di-dâl, sydd wedi cynnwys sesiynau cefnogi gofalwyr, grwpiau llesiant gofalwyr, cyfleoedd ychwanegol ar gyfer egwylion byr/ seibiant. Mae cymorth ychwanegol wedi cael ei roi'n rhanbarthol i ofalwyr mewn perthynas â gwasanaethau rhyddhau o'r ysbyty sy'n benodol ar gyfer gofalwyr, caffi gofalwyr a chydweithio gyda phartneriaid yn y trydydd sector. Dros y flwyddyn bu cryn dipyn o fuddsoddiad i sicrhau yr ymatebir yn amserol ac yn gyson i gysylltiadau newydd â'r gwasanaethau oedolion gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfder, a bu cyfleoedd dysgu a datblygu cadarn i'n holl dimau hefyd i ddarparu sgiliau i'n staff ganolbwyntio ar gryfderau a chydnerthedd ein dinasyddion a'u gofalwyr a datblygu cynlluniau gofal a chymorth, lle y bo'n briodol, sy'n taro cydbwysedd rhwng hawliau a chyfrifoldebau priodol ochr yn ochr ag archwilio datrysiadau ataliol priodol. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar y maes gwaith hwn o fewn y gwasanaethau Oedolion. | Gwyrdd | **Parhau yn 2024/25** |



| Gwelliant a Adnabuwyd o Hunanasesiad 2022/23 | Cynnydd: Beth ydym ni wedi'i wneud? | Sgôr | Statws |
|---|---|---|---|
| Cael gwell dealltwriaeth am y rhwystrau i gael mynediad at ddatrysiadau digidol yn ein cymunedau a datblygu cymorth i'r rhai sy'n dymuno gwella eu sgiliau digidol. | Adolygwyd y Strategaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid 2023-27 a'r Strategaeth Trawsnewid Digidol 2023-27 i ystyried y modd y darperir gwasanaethau, gan gynnwys deall pwyntiau mynediad ar draws y Cyngor a chanfod pa rwystrau y mae pobl yn eu hwynebu. Ein nod yw datblygu diwylliant sy'n cefnogi gwelliant digidol, arloesi ac yn defnyddio technoleg newydd. Mae'r Cyngor hefyd yn ymateb i adroddiad 'Dim Mynediad' Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae Swyddog Cynhwysiant Digidol bellach yn ei swydd sy'n mynychu ein holl hybiau cymunedol yn wythnosol i helpu preswylwyr i fynd ar-lein. | Gwyrdd | **Parhau yn 2024/25** |
| Rhoi cymorth i'r rhai y mae'r argyfwng costau byw'n effeithio arnynt trwy gamau gweithredu a adnabuwyd gan yr Aelod Costau Byw a'r Grwpiau Swyddogion. | Mae'r grŵp costau byw wedi parhau i gwrdd trwy gydol 2023/24 ac mae wedi gweithredu nifer o gamau gweithredu i gefnogi'r rhai sydd fwyaf mewn angen. Wrth edrych tua'r dyfodol, bydd adolygiad o'r grŵp hwn yn cael ei gynnal i ystyried ei uno â'r Bartneriaeth Llesiant Leol gyfredol. | Gwyrdd | **Parhau yn 2024/25** |
| Ymgysylltu'n effeithiol ar draws y sefydliad, gyda phartneriaid a grwpiau allweddol i ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd 2024-2028. | Cyflwynwyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2024-28 ochr yn ochr â'r Adroddiad Blynyddol terfynol ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Strategol presennol. Roedd y cynllun ym mis Ebrill 2024. Cydnabuwyd cynnydd yn yr adroddiadau blynyddol ac mae'n darparu sylfaen dda i'r ymrwymiadau parhaus mewn perthynas â Chydraddoldeb. Sefydlwyd Grŵp Cyflawni a Goruchwylio'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ac mae wedi cytuno ar Gylch Gorchwyl ar gyfer y dyfodol i fonitro'r cynnydd o ran cyflawni'r cynllun dros y pedair blynedd nesaf. Mae Rhwydwaith Profiad Personol mewnol ac allanol wedi cael ei sefydlu i adlewyrchu a chlywed am brofiadau pobl â nodweddion gwarchodedig o weithio i a/neu fyw yn CBSBG. | Glas | **Wedi'i gwblhau** |
| Ymateb i argymhellion Comisiynydd y Gymraeg. | Cwblhawyd cynllun gweithredu Ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg, a chafwyd gohebiaeth o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i gytuno i ddod â'r ymchwiliad i ben. Cytunodd y TAC ar gynnig i ail-frandio'r Grŵp Craidd o Swyddogion i sicrhau parhad arferion gorau yn unol â Safonau'r Gymraeg. Parhau i gyflawni blaenraglen waith y Gymraeg gan gynnwys rhaglen o ddathliadau Diwylliannol Cymru. Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Gymraeg i'r TAC a'r Pwyllgor Craffu Trosolwg a Pherfformiad Corfforaethol, a hwnnw'n manylu ar y cynnydd o ran cyrraedd y safonau. Cafwyd sylwadau cadarnhaol gan aelodau a oedd yn cydnabod y cynnydd a'r datblygiadau mewn perthynas â'r Gymraeg dros y flwyddyn ddiwethaf. | Glas | **Symud i fusnes fel arfer** |



| Gwelliant a Adnabuwyd o Hunanasesiad 2022/23 | Cynnydd: Beth ydym ni wedi'i wneud? | Sgôr | Statws |
|---|---|---|---|
| Gwreiddio trefniadau diogelu ymhellach ar draws y Cyngor cyfan. | Mae gwaith wedi cael ei wneud i weithredu trefniadau diogelu ar draws y Cyngor. Fel rhan o hyn, cynhaliwyd adolygiad i ystyried y ffordd orau o fwrw ymlaen â hyn yn gorfforaethol, a bydd y dull hwn yn cael ei ystyried gan y TAC i'w weithredu yn 2024. Mae Archwilio Cymru yn bwriadu ailasesu trefniadau diogelu ym Mlaenau Gwent tuag at ddiwedd 2024. | Ambr | **Parhau yn 2024/25** |
| Bwrw ymlaen â Strategaeth y Gweithlu gan gynnwys ystyried recriwtio a chadw ar draws y Cyfarwyddiaethau | Mae strategaeth Gweithlu'r Cyngor yn parhau i gael ei gweithredu ar draws y sefydliad gyda nifer o gamau gweithredu allweddol wedi'u cyflawni trwy'r flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o'n polisïau Gweithio Ystwyth a Gweithio Hyblyg, datblygu a gweithredu Polisi Gwirfoddoli gyda Chymorth y Cyflogwr a pharhad ein proffiliau gweithlu blynyddol ar draws pob cyfarwyddiaeth ac Ysgol i oleuo'r broses o gynllunio'r gweithlu. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth y Cyngor adolygu ei bolisi recriwtio a dethol sy'n gweithio i sicrhau bod recriwtio a dethol yn deg, yn wrthrychol ac yn dryloyw yn ogystal â recriwtio a chadw unigolion â'r profiad, yr wybodaeth a'r cymwyseddau cywir mewn modd amserol. Bydd y Cyngor yn parhau i weithredu strategaeth y gweithlu trwy gynlluniau gweithredu blynyddol sy'n ategu amcanion strategaeth y gweithlu sy'n cynnwys ystyried recriwtio a chadw staff ar draws yr holl Gyfarwyddiaethau | Gwyrdd | **Parhau yn 2024/25** |
| Gweithio i leihau'r lefelau salwch ar draws y Cyngor. | Yn ystod 2022/23 roedd y darlun yn gwella gyda lefelau salwch yn lleihau 1.29 diwrnod am bob cyflogai cyfwerth ag amser llawn (CagALl) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol; fodd bynnag, mae salwch yn parhau i fod yn uchel ar 15.45 diwrnod am bob cyflogai CagALl (13.71 diwrnod heb gynnwys COVID-19). Yn seiliedig ar y data cymharol sydd ar gael, y Cyngor oedd â'r lefel uchaf o salwch ar draws Llywodraeth Leol yng Nghymru. Mae'r Cyngor wedi sefydlu amrywiaeth o gymorth i staff a strategaethau i reoli llesiant. Mae salwch ar draws y gweithlu'n parhau i gael ei fonitro'n fanwl gydag adolygiad chwarterol o absenoldeb oherwydd salwch yn parhau fel rhan o gyfarfodydd y Tîm Arwain Corfforaethol ac mae'r Cyngor yn parhau i ymchwilio i unrhyw feysydd lle ceir arfer da. | Gwyrdd | **Parhau yn 2024/25** |



# Adborth

Mae'r Cyngor yn croesawu unrhyw adborth a allai fod gennych am Hunanasesiad 2023/24. Mae eich barn yn bwysig i ni, ac mae arnom eisiau gwybod pa wybodaeth yr hoffech ei gweld a sut yr hoffech ei gweld yn cael ei chyflwyno. Cysylltwch â'r tîm gan ddefnyddio'r manylion isod os hoffech roi adborth ar yr Asesiad neu os oes arnoch angen y ddogfen hon mewn fformat gwahanol e.e. print bras, Braille, fersiwn sain, ac ati.

**Tîm Perfformiad Corfforaethol**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Y Swyddfeydd Cyffredinol

Ffordd y Gwaith Dur

Glyn Ebwy

NP23 6AA

E-bost: pps@blaenau-gwent.gov.uk

